Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Ddrafft 2021-22

## Diogelu, Adeiladu, Newid

## Rhagfyr 2020

**llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41072 ISBN digidol 978-1-80082-008-1

# Tabl Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ii

Pennod 1: Y cyd-destun strategol 1

Pennod 2: Y cyd-destun ariannol ac economaidd 1

Pennod 3: Trefniadau cyllido 3

Pennod 4: COVID-19 13

Pennod 5: Pontio'r UE 16

Pennod 6: Buddsoddi ym mlaenoriaethau ein Llywodraeth 18

Pennod 7: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru 38

Atodiad A: Cysoni'r gyllideb weinyddol a'r dyraniadau adnoddau yng nghynnig y Gyllideb flynyddol 46

Atodiad B: Y Newidiadau o Flwyddyn-i-Flwyddyn 47

Atodiad C: Asesiad Effaith Integredig Strategol 51

Atodiad D: Gwybodaeth dechnegol 68

Atodiad E: Cynllun Gwella'r Gyllideb 70

Atodiad F: Costau gweithredu deddfwriaeth 71

Atodiad G: Rhestr o dermau ariannol 77

# Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Heddiw rwyf yn cyhoeddi cynigion y gyllideb ar gyfer 2021-22. Mae'r Gyllideb hon yn dilyn blwyddyn sydd wedi'i dominyddu gan bandemig byd-eang sydd wedi effeithio ar fywydau pob un ohonom. Ac yntau'n argyfwng iechyd cyhoeddus yn bennaf ac yn drasiedi personol i lawer, mae'r feirws wedi effeithio ar bob un ohonom boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae canlyniadau'r pandemig hwn i'n heconomi, ein cymdeithas, a'n cymunedau yn rhai gwirioneddol ddwys.

Er bod brechlynnau arloesol yn cynnig gobaith a golau ar ben draw'r twnnel, nid oes modd inni fynd yn ôl i'n hen ffordd o fyw ar unwaith yn sgil pandemig o'r raddfa hon. Wrth inni fynd ati i ailadeiladu, bydd yn hanfodol rheoli cyllidebau'n gyfrifol er mwyn diogelu'r hyn sydd bwysicaf inni a mynd ar drywydd y newid sydd nid yn unig yn bosibl, ond yn hanfodol.

Mae'r pandemig hwn wedi ein bwrw ar ôl degawd o gyni sydd wedi amddifadu ein cyllidebau o'r cyllid y mae ar Gymru ei angen ac wedi dal incwm llawer yn ôl. Yn waeth byth, mae wedi dwysáu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes; y rhai mwyaf bregus sydd wedi cael eu bwrw galetaf ac effeithiwyd ar rai cymunedau yn fwy na'i gilydd.

Wrth i derfyn y cyfnod pontio ar gyfer ymadael â'r UE nesáu gyda goblygiadau enfawr i'n heconomi, rydym hefyd yn wynebu'r angen parhaus i ymateb i'r argyfwng yn yr hinsawdd a hynny ar frys. Mae'r heriau hyn wedi bod ar flaen ein meddwl wrth lunio'r Gyllideb ddrafft hon wrth inni anelu at sicrhau'r setliad tecaf posibl i helpu gwasanaethau cyhoeddus Cymru i baratoi ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.

Gohiriodd Llywodraeth y DU ei Hadolygiad o Wariant, ac ni chyhoeddodd y setliad i Gymru tan 25 Tachwedd. O ganlyniad ychydig iawn o amser yn unig oedd gennym i gynllunio ein cyllideb ein hunain a hynny mewn setliad cyllideb siomedig iawn. Penderfynodd y Canghellor hefyd ohirio'r Adolygiad o Wariant amlflwyddyn arfaethedig, ac yn hytrach, fe bennodd gynlluniau gwariant ar gyfer un flwyddyn yn unig. Unwaith eto, mae hyn yn effeithio ar ein gallu ein hunain i ddarparu sicrwydd tymor hwy i'r llu o wasanaethau a sefydliadau yr ydym yn eu hariannu i gyflawni dros bobl Cymru.

Er bod ein Terfyn Gwariant Adrannol adnoddau craidd wedi codi £694m yn 2021-22, sef cynnydd o 4.6 y cant mewn termau arian parod, bydd ein cyllideb craidd ar gyfer gwariant y pen o ddydd i ddydd yn 2021-22 yn parhau i fod dros 3 y cant yn is mewn termau real nag yn 2010-11.

Honnodd y Canghellor ei fod yn gwneud buddsoddiad ‘unwaith mewn cenhedlaeth’ mewn seilwaith, ac eto ni chawsom ond £60m o gyfalaf cyffredinol ychwanegol a bu gostyngiad o £191m mewn cyfalaf trafodiadau ariannol. Yn gyffredinol, mae ein cyllideb cyfalaf wedi gostwng £131m yn 2021-22, sef gostyngiad o 5 y cant mewn arian parod o flwyddyn i flwyddyn. Felly, mae terfyn ar ba flaenoriaethau a phwysau cyfalaf y gallwn eu cydnabod yn ganolog fel rhan o gylch y gyllideb hon.

Arweinir ein hymdrechion cyson i ddiogelu Cymru gan dystiolaeth, ac mae penderfyniadau anodd wedi cael eu gwneud i gyflawni ein gwerthoedd; o ariannu darpariaeth prydau ysgol am ddim i ddarparu'r pecyn cymorth busnes mwyaf hael unrhyw le yn y DU. I helpu Cymru i adfer yn sgil yr argyfwng hwn, mae'r Gyllideb hon wedi'i chynllunio i ddiogelu iechyd a swyddi, adeiladu dyfodol gwyrddach a chreu newid er mwyn Cymru fwy cyfartal.

Heddiw rwyf yn amlinellu dyraniadau cyllid newydd o £749m o refeniw a £573m o gyfalaf yn ogystal â darparu pecyn cychwynnol o £77m o gyllid COVID-19.

Ein blaenoriaeth yw diogelu iechyd a gwasanaethau cyhoeddus lle mae cymaint o aberthau wedi'u gwneud eleni. Rydym yn darparu £420m yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gefnogi twf ac adferiad y GIG ar ôl y pandemig. Rydym hefyd yn darparu'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol o dan yr amgylchiadau ariannol presennol, gyda £176m i gefnogi pwysau ar ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Ochr yn ochr â hyn, bydd dyraniadau penodol wedi'u targedu yn cefnogi ein blaenoriaethau ac yn cyflawni ein gwerthoedd. Bydd £40m pellach yn cefnogi'r Grant Cymorth Tai a bydd dros £20m yn bodloni pwysau demograffig chweched dosbarth ac addysg bellach gan fuddsoddi yn nyfodol Cymru. Bydd £9.4m yn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl hanfodol ac yn gymuned ac mewn ysgolion yn ogystal ag amrywiaeth o fuddsoddiadau sy'n cryfhau ymdrechion ymhellach i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Wrth adeiladu dyfodol gwyrddach, rydym yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau o ran tai, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac ailfuddsoddi yng nghanol trefi er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiad mewn seilwaith yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Mae hyn yn cynnwys £36.8m yn ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol, gan fynd â chyfanswm y gyllideb y flwyddyn nesaf i £200m, a £5m yn ychwanegol i ddatblygu ein Fforest Genedlaethol a buddsoddi mewn bioamrywiaeth yn ehangach. Rydym yn buddsoddi £40m yn ychwanegol mewn seilwaith addysg, gan gynnwys £5m ar gyfer y peilot ysgolion carbon sero-net. Byddwn yn parhau i ddatgarboneiddio trafnidiaeth, gan roi hwb o £20m i'r cyllid ar gyfer teithio llesol, a darparu cyfanswm buddsoddiad o £274.7m mewn rheilffyrdd a'r metro.

Yn unol â'n hymrwymiad i sicrhau bod ein buddsoddiad mewn seilwaith ar gyfer Cymru wyrddach yn cael yr effaith fwyaf posibl, rydym hefyd yn gwneud datganiad heddiw ar yr egwyddorion ar gyfer olynydd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Rwyf hefyd yn defnyddio ein pwerau trethu datganoledig i helpu Cymru i adfer. O 22 Rhagfyr 2020, rwyf yn codi 50 y cant ar y trothwy cychwynnol ar y dreth trafodiadau tir a delir ar brynu eiddo amhreswyl. Ni fydd busnesau yn talu treth ar bryniannau sy'n costio hyd at £225,000. Bydd hyn yn cefnogi busnesau sy'n gwella o'r gwaethaf o'r pandemig yn ogystal â helpu busnesau newydd. Ar yr un pryd, rwyf yn codi un pwynt canran ar gyfraddau preswyl uwch y dreth trafodiadau tir er mwyn darparu cyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru ei fuddsoddi yn ein blaenoriaethau o ran tai. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae o ran ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau, a bydd y mesurau blaengar hyn yn cefnogi ein busnesau a'r economi ac yn hybu ein cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn sgil yr argyfwng. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn cynhyrchu tua £13m ar gyfer buddsoddi mewn tai cymdeithasol. O fis Ebrill 2021, rwyf hefyd yn cynyddu cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi yn unol â chwyddiant i gefnogi amcan polisi'r dreth gwarediadau tirlenwi o leihau gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae hyn yn gyson â chyfraddau treth tirlenwi'r DU ar gyfer 2021-22 a bydd felly hefyd yn diogelu rhag y risg o drosglwyddo gwastraff dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr i fanteisio ar gyfraddau is.

Wrth hyrwyddo'r newid rydym am ei weld ar gyfer cymdeithas decach a mwy cyfartal, rydym yn darparu £13.4m yn ychwanegol i gefnogi plant a phobl ifanc, gan gynnwys £8.3m ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Rydym yn buddsoddi mwy i helpu gweithwyr ar incwm isel i ailhyfforddi gyda hwb o £5.4m i'r cyrsiau am ddim a hyblyg a gynigir drwy Gyfrifon Dysgu Personol. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn datblygu gwell gwasanaethau cyhoeddus digidol, caffael diwygiedig ar gyfer gwerth cymdeithasol a phrosiectau diwylliannol newydd sy'n hyrwyddo hanes pobl dduon yng Nghymru.

Yn ogystal, mae'r Canghellor wedi cadarnhau cyllid pellach mewn perthynas â phandemig y coronafeirws yn 2021-22. Darperir £766m yn ychwanegol drwy symiau canlyniadol Barnett yn seiliedig ar wariant tebyg yn Lloegr. Mae'r cyllid hwn i'w groesawu ond mae'n sylweddol is na'r £5bn yr ydym wedi'i gael eleni. Bydd dull gweithredu gofalus a strategol yn cael ei fabwysiadu unwaith eto i ddarparu'r cyllid cywir ar yr adeg gywir ar gyfer ein hymateb ar draws y GIG a gwasanaethau cyhoeddus ehangach, yn ogystal â chymorth i fusnes a'r trydydd sector. O gofio bod llawer yn dibynnu ar hynt y pandemig, ac yn enwedig difrifoldeb misoedd y gaeaf, rwyf yn gwneud £77m o ddyraniadau cychwynnol heddiw i roi sicrwydd lle y mae ei angen fwyaf. Byddaf yn adeiladu ar y dyraniadau hyn dros y misoedd nesaf ac yn y Gyllideb derfynol, unwaith y gallaf asesu'n well y ffordd orau o dargedu cyllid yn 2021-22.

Fel rhan o becyn drafft y Gyllideb, rwyf hefyd yn cynnwys Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i ddiweddaru, gan adeiladu ar ein hymrwymiad y llynedd i sicrhau tryloywder o ran gwella'r Gyllideb a'r broses o'i hamgylch. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran profi dulliau newydd o asesu effeithiau'r gyllideb yn well yn y dyfodol, drwy ddatblygu model effaith ddosbarthiadol newydd ar gyfer dadansoddi gwariant cyhoeddus yng Nghymru, a chomisiynu gwaith i ddatblygu model peilot i amcangyfrif allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Er gwaethaf yr amgylchiadau mwyaf heriol yr ydym erioed wedi'u hwynebu fel llywodraeth, rwyf yn falch o gyhoeddi cyllideb sy'n cyflawni ein gwerthoedd ac sy'n darparu sylfeini cadarn ar gyfer y weinyddiaeth nesaf.

Bydd y pecyn ariannu yr wyf yn ei amlinellu heddiw yn cefnogi'r camau nesaf y mae rhaid inni eu cymryd i ddiogelu, adeiladu a newid ar gyfer Cymru fwy ffyniannus, mwy cyfartal a gwyrddach.

# Pennod 1: Y cyd-destun strategol

## Trosolwg

1.01 Heddiw, mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei Chyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 sef y Gyllideb derfynol a gyhoeddir yn ystod y tymor hwn o'r Senedd. Mae'r Gyllideb yn nodi cynlluniau gwario refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

1.02 Drwy gydol ein paratoadau ar gyfer y gyllideb rydym wedi gwynebu ansicrwydd a heriau sylweddol. Pan bennwyd cynlluniau gwario ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, ni allem fod wedi rhag-weld pandemig y coronafeirws a'r ffordd y mae wedi effeithio ar fywydau pobl, gwasanaethau a busnesau yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae hyn, ynghyd â'r diffyg eglurder o hyd ynghylch cytundeb masnach ar gyfer Brexit â'r EU a'r angen i barhau i ymateb i'r argyfwng yn yr hinsawdd, yn creu her sylweddol inni wrth ddatblygu cynlluniau gwario ar gyfer y dyfodol. Hwn yw'r cefndir heriol y cyflwynir y Gyllideb hon yn ei erbyn.

1.03 Yng ngoleuni'r argyfwng, cynhaliodd Llywodraeth y DU Adolygiad un flwyddyn o Wariant ym mis Tachwedd yn hytrach na chynnal yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant amlflwyddyn a gynlluniwyd. Nododd yr Adolygiad o Wariant ein setliad ar gyfer 2021-22 yn unig.

1.04 Er ein bod wedi gobeithio bod mewn sefyllfa i ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'n partneriaid, y cyfan yr ydym yn gallu ei wneud bellach yw pennu cynlluniau refeniw a chyfalaf ar gyfer un flwyddyn

1.05 Rydym wedi mynd ati, felly, i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael gan gydnabod y bydd angen inni barhau i ddelio ag effaith y pandemig ochr yn ochr â bwrw ymlaen â newid tymor hwy. Mae'r dyraniadau'n dangos sut yr ydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i **Ddiogelu** iechyd y cyhoedd a swyddi wrth inni barhau i ymladd y pandemig ochr yn ochr ag **Adeiladu** dyfodol mwy gwyrdd yr un pryd â gwneud **Newidiadau** ar gyfer Cymru fwy teg a mwy cyfartal. Y rhain yw'r egwyddorion sy'n sail i'n dull gweithredu o ran dyrannu cyllid a'n cynigion ar gyfer y gyllideb.

## Goblygiadau Cylch Gwario Llywodraeth y DU

1.06 Roedd yr Adolygiad o Wariant yn darparu Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) craidd i Gymru o £15,660m heb gynnwys addasiadau'r grant bloc, a oedd 4.6 y cant yn uwch na llinell sylfaen 2020-21. Yn ogystal, rydym wedi cael £242m ar gyfer ariannu ffermydd a £2m ar gyfer pysgodfeydd sydd y tu allan i Barnett. Cyhoeddodd yr Adolygiad o Wariant hefyd gyllid ychwanegol ar gyfer COVID-19 y flwyddyn nesaf, a caiff Cymru swm ychwanegol o £766m.

1.07 Roedd yr Adolygiad o Wariant hefyd yn cynnwys gostyngiad o 131m i'n cyllideb cyfalaf o'i gymharu â llinell sylfaen 2020-21, sef cynnydd o £60m i gyfalaf cyffredinol a gostyngiad o £191m mewn cyfalaf trafodiadau ariannol.

1.08 Roedd Adolygiad y DU o Wariant yn ymdrin ag un flwyddyn yn unig, felly nid yw'n darparu ond ychydig o wybodaeth am y rhagolygon ar gyfer Cyllideb Cymru y tu hwnt i 2021-22. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau refeniw a chyfalaf tymor hwy ar gyfer rhai rhaglenni. Er hynny, nid yw'r rhain yn darparu canllaw dibynadwy ar gyfer cyllid yng Nghymru yn y dyfodol, gan y gallai symudiadau mewn rhaglenni eraill na chynhwysir mohonynt gan y cynlluniau hyn gael effaith sylweddol ar ein terfynau gwariant cyffredinol.

1.09 Bydd Adolygiad pellach o Wariant y flwyddyn nesaf i ddarparu cynlluniau ar gyfer 2022-23 a'r tu hwnt. Mae ansicrwydd yn parhau hefyd ynghylch y sefyllfa gyllidebol yn 2021-22. Gallai hynt y pandemig COVID-19, a'i effaith ar yr economi a gwasanaethau cyhoeddus, arwain at newidiadau pellach yn y flwyddyn i ddod. Fel yr ydym wedi gweld yn y flwyddyn bresennol, mae'r pandemig wedi gofyn am ymateb digynsail i'r pandemig. Mae ein cyllideb adnoddau yn 2020-21 bellach tua 30 y cant yn uwch na'r disgwyl adeg y Gyllideb derfynol ym mis Mawrth. Mae gennym £766m o gyllid COVID-19 ar gyfer 2021-22, ond mae hyn dipyn yn is na'r £5bn a ddyrannwyd i Gymru eleni. O'r cyllid COVID-19 hwn, nodir rhai dyraniadau ym mhennod pedwar o'r Gyllideb ddrafft hon, gyda dyraniadau pellach yn bosibl rhwng y Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol.

1.10 Mae'n bosibl y bydd Cyllideb y DU ar 3 Mawrth 2021 hefyd yn cael effaith sylweddol ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, trwy wario newydd neu fesurau trethu pellach.


1.11 I gefnogi cynllunio ariannol y tu hwnt i eleni, mae Adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft hon, yn dadansoddi'r amcanestyniadau cyllidol tymor canolig a fydd yn helpu i gynllunio gwariant ar adnoddau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae manylion pellach y cyd-destun ariannol ac economaidd ar gyfer y Gyllideb ar gael ym mhennod dau.

## Cyfrifoldebau cyllidol ac ariannu

1.12 Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei hariannu'n bennaf gan grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU. Er hynny, dros y pum mlynedd diwethaf, mae datganoli pwerau treth - cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a datganoli ariannol Ardrethi Annomestig - yn golygu y caiff rhyw 17 y cant o wariant Llywodraeth Cymru ei ariannu o refeniw trethi yn 2021-22.

1.13 Mae'r darlun ar y dudalen nesaf yn tanlinellu ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru. Ceir gwybodaeth bellach am bolisi trethi a refeniw ym mhennod pedwar.

1.14 Mae fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru'n nodi'r trefniadau sy'n cefnogi datganoli trethi, pwerau benthyca cyfalaf, offer rheoli cyllidebol, ac addasiad i Fformiwla Barnett a seilir ar anghenion.




## Buddsoddi ym mlaenoriaethau'r llywodraeth

1.15 Dros y tymor hwn o'r Senedd mae'r Llywodraeth wedi manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei phrif addewidion a bu'n ddigon hyblyg i ymateb i heriau aruthrol COVID-19 ac ymadael â'r UE. Gan adeiladu ar y sgwrs genedlaethol a gawsom dros yr haf ac i mewn i'r gaeaf am sut yr hoffem i Gymru edrych yn y dyfodol, mae'r Gyllideb hon yn canolbwyntio ar gefnogi ein blaenoriaethau allweddol i **ddiogelu, adeiladu a newid** yn 2021-22.

1.16 Wrth bennu'r cynlluniau hyn, ein Canolbwynt, yn y frwydr yn erbyn y pandemig, fu **diogelu** bywydau, swyddi, a'n gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, sydd wedi ymateb i her y pandemig ar ran pob un ohonom, ac sy'n parhau i wneud hynny. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol trwy ddiogelu iechyd y cyhoedd a swyddi. Yn benodol, bydd ein GIG a llywodraeth leol yn cael codiadau cyllid.

1.17 Yr allwedd i'n blaenoriaeth ar **adeiladu** yw sut yr ydym yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar ein buddsoddiadau cyfalaf a chefnogi ein hymgyrch am ddyfodol mwy gwyrdd gyda chanolbwynt ar dai, mynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd, a buddsoddi yng nghanol ein trefi a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae buddsoddi yn y blaenoriaethau hyn hefyd yn adlewyrchu pwysigrwydd ein rôl wrth gefnogi adeiladu a swyddi ehangach, gyda'r bwriad i'r dyraniadau datgarboneiddio arfaethedig ysgogi swyddi gwyrdd. Yng Nghyllideb 2020-21, darparwyd cyllid cyfalaf o £140m mewn pecyn buddsoddi i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd. Yn 2021-22, cedwir y rhan fwyaf o'r cyllid hwn mewn llinellau sylfaen adrannol a byddwn yn dyrannu bron £80m o gyllid cyfalaf ychwanegol i gefnogi gweithgareddau yn uniongyrchol sy'n hybu datgarboneiddio ac sy'n gwella ein bioamrywiaeth gyfoethog ymhellach, ynghyd â'r camau yr ydym yn eu cymryd fel rhan o'n buddsoddiadau ehangach. Mae'r buddsoddiad yn cydategu'r ymrwymiadau ehangach yr ydym yn eu gwneud o ran mynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd, gan gynnwys y dull gweithredu cynhwysfawr a nodir yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel.

1.18 Yn olaf, byddwn yn ymdrechu am **newid** ar gyfer Cymru fwy ffyniannus, mwy cyfartal, a mwy gwyrdd, gan fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd ond hefyd yr ymateb brys i'r anghydraddoldeb y mae'r pandemig wedi'i gymhlethu. Mae pennod chwech yn nodi sut yr ydym wedi cymryd camau pellach fel rhan o broses y gyllideb eleni i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sylfaenol sy'n wynebu ein gwlad ac i sicrhau bod buddsoddiadau newydd ar draws y llywodraeth yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

## Proses y gyllideb

1.19 Mae cyhoeddi Adolygiad Gwariant un flwyddyn Llywodraeth y DU ar 25 Tachwedd wedi cael effaith ar amseriad y Gyllideb eleni. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau eithriadol ar waith mewn perthynas â phroses y Gyllideb eleni, a hynny gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi gyda'i gilydd, ar 21 Rhagfyr, ddogfennau'r Gyllideb, gan gynnwys y cynlluniau gwario strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf, trethiant a chynigion benthyca, yn ogystal â chynlluniau gwario manwl ar bortffolios.

1.20 Ar ôl i Senedd Cymru graffu ar y cynlluniau hyn, byddwn yn cyhoeddi Cyllideb Derfynol 2021-22 ar 2 Mawrth 2021.

# Pennod 2: Y cyd-destun ariannol ac economaidd

2.01 Ystyrir y rhagolygon economaidd a chyllidol yn fanylach yn Adroddiad y Prif Economegydd a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft hon.

2.02 Yn ôl yr Adroddiad, o ganlyniad i'r pandemig, cafwyd gostyngiad digynsail yng nghynnyrch domestig gros (GDP) Cymru a Lloegr yn ail chwarter y flwyddyn galendr hon, wedi'i ddilyn gan adferiad mawr yn y trydydd chwarter. Mae'r effaith ar y farchnad lafur ac ar incwm, wedi bod yn ddifrifol iawn ond yn llawer llai na'r effaith ar allbwn, o ganlyniad i'r gwahanol gynlluniau cymorth a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

2.03 Mae'r rhagolygon economaidd am weddill y flwyddyn hon a'r tu hwnt yn ansicr iawn; os caiff brechlynnau effeithiol eu cyflwyno'n gyflym, fel sy'n debygol ar hyn o bryd, mae adferiad cynnar a sydyn yn bosibl. Er hynny, mae'r senario canolog yn y Rhagolwg Economaidd ac Ariannol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ochr yn ochr ag Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd yn dangos na fydd allbwn ond yn gwella i lefelau cyn COVID-19 erbyn diwedd 2022.


2.04 Byddai gostyngiad pellach i allbwn os bydd Llywodraeth y DU yn methu â chadarnhau cytundeb gyda'r UE ar gysylltiadau masnachu newydd ar ôl i gyfnod pontio Brexit ddod i ben ar ddiwedd mis Rhagfyr. Byddai hyn yn ychwanegol at y golled hir o allbwn sy'n gysylltiedig â symud o'r berthynas fasnachu cyn 2021 â'r UE i gytundeb masnach rydd (a aseswyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fel colled o 4 y cant mewn allbwn ym mhob blwyddyn). Mae'r pandemig COVID-19 hefyd yn cael effaith anghymesur ar y rhai sydd ar gyflogau isel ac ar bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur. Mae tarfu economaidd pellach yn debygol iawn o waethygu'r effeithiau hyn.

2.05 Bydd penderfyniadau polisi a wneir gan Lywodraeth y DU yn ystod digwyddiadau cyllidol dros y flwyddyn nesaf yn effeithio ar ragolygon cyllidol tymor byr i ganolig yng Nghymru. Mae'r Adolygiad o Wariant diweddar wedi darparu rhai adnoddau ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn 2021-22, ond mae'r rhain yn gymedrol yng nghyd-destun y pwysau byrdymor o'r pandemig a gwaddol dros ddegawd o gyni.

2.06 Mae cyllideb adnoddau craidd Llywodraeth Cymru y pen yn 2021-22 yn dal i fod 3 y cant yn is mewn termau real nag yn 2010-11. Yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU yn y dyfodol, ni ddisgwylir iddi wella i lefel 2010-11 tan 2023-24 (Siart 1). Pe bai wedi symud yn unol â thwf GDP ers 2010-11, byddai'r gyllideb adnoddau craidd bellach bron £2bn yn uwch a phe bai wedi cynyddu yn unol â'r gyfradd twf hirdymor mewn gwariant cyhoeddus, byddai tua £6bn yn uwch.

2.07 Mae'r amcanestyniadau tymor hwy yn Adroddiad y Prif Economegydd yn darparu senarios ar gyfer cyllid datganoledig dros y degawd nesaf. Byddai'r senario uwch ar gyfer gwariant cyhoeddus, y mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei ystyried yn anghynaliadwy o dan bolisïau trethiant presennol y DU, yn arwain at gyfradd twf ychydig yn gyflymach nag a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai'r senarios canol ac is yn gweld twf arafach nag yn ddiweddar. Byddai'r naill neu'r llall o'r rhain, ynghyd â chyllideb y GIG sy'n parhau i dyfu ar yr un gyfradd ag a gyhoeddwyd ar gyfer Lloegr dros y blynyddoedd nesaf, yn golygu bod cyllid ar gyfer gweddill y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yn gostwng mewn termau real dros y degawd nesaf.

Siart 1: Amcanestyniad Tymor Canolig ar gyfer Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real fesul pen (£, prisiau 2019-20[1])




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

[1]At ddibenion siart 1, mae rhagolwg twf datchwyddydd GDP y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer 2020-21 a 2021-22 wedi'i gyfartaleddau dros y ddwy flynedd Mae cyllid ffermydd a physgodfeydd yn cael ei hepgor i gyflwyno'r gyllideb adnoddau yn gyson dros amser.

# Pennod 3: Trefniadau cyllido

## Trosolwg

3.01 Ariennir Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gyfuniad o grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU a refeniw a gynhyrchir gan drethi yng Nghymru.

3.02 Cyflwynwyd y dreth trafodiadau tir (LTT) a'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) ar 1 Ebrill 2018, ac maent yn cael eu casglu gan Awdurdod Cyllid Cymru. Cyflwynwyd cyfraddau treth incwm Cymru (WRIT) ar 6 Ebrill 2019. Ar wahân, yn Ebrill 2015, disodlodd y datganoli ariannol yn achos ardrethi annomestig (NDR) y trefniadau blaenorol ar gyfer rheoli'r risgiau ariannol. Gyda'i gilydd, bydd WRIT, LTT, LDT ac NDR bellach yn cyfrannu rhyw £3.4bn i gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2021-22.

3.03 Fel rhan o'r addasiad a wnaed i ganiatáu datganoli pwerau trethi, mae'r fframwaith cyllidol yn cynnwys newid parhaol i fformiwla Barnett fel y'i cymhwysir i Gymru. Mae cyflwyno ffactor sy'n seiliedig ar anghenion, sydd ar hyn o bryd yn 105 y cant, eisoes wedi darparu bron i £600m o gyllid ychwanegol i Gymru dros y cyfnod 2018-19 i 2021-22, tua £275m o hynny mewn perthynas â chyllid COVID-19.

## Polisi Trethi


3.04 Mae'r pwerau trethi'n cryfhau'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a dinasyddion, cymunedau, a busnesau Cymru, ac yn darparu ysgogwyr ychwanegol a all helpu i gyflawni ein blaenoriaethau. Disgrifir dull gweithredu cyffredinol Llywodraeth Cymru o ran trethu yn ein Fframwaith Polisi Trethi.

3.05 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cylch polisi trethi. Mae hyn yn dechrau gyda chyhoeddi Cynllun Gwaith ar Bolisi Trethi ac wedyn ymchwil, dadansoddiadau, ac ymgysylltu, ac Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru sy'n crynhoi canfyddiadau a chasgliadau sy'n dod i'r amlwg, sy'n bwydo i mewn i'r cynllun gwaith nesaf. Nawr bod trethi Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru wedi'u sefydlu, mae llawer o'r materion yn ystyriaethau tymor hwy a fydd yn cymryd amser i ddatblygu. Er hynny, mae cyhoeddi'r cynllun gwaith yn galluogi sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb i ddeall yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio iddo, i ofyn cwestiynau, a chyfrannu eu barn, eu gwybodaeth, a'u profiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cynhadledd flynyddol ar drethi i roi cyfle pellach i randdeiliaid drafod cyfeiriad polisi trethi Cymru – cynhaliwyd y gynhadledd ddiweddaraf fel digwyddiad rhithwir ar 8 Hydref 2020.

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT)

3.06 Cyflwynwyd cyfraddau treth incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru. Felly, er bod Llywodraeth Cymru'n gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru, mae pob agwedd arall ar y dreth yn dal yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU ac mae CThEM yn parhau i weinyddu'r dreth incwm yng Nghymru. [2]

***Siart 2: Cyfraddau treth incwm yng Nghymru, 2020-21***




3.07 Mae'r broses i Gymru'n golygu bod Llywodraeth y DU'n gostwng 10c ar bob un o'r tair cyfradd treth incwm i drethdalwyr Cymru, ac yn gwneud gostyngiad cyfatebol i grant bloc Cymru, sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn penderfynu a yw am bennu cyfraddau Cymru'n 10c, gan adfer y cyllid i wasanaethau (a chadw cydraddoldeb rhwng trethdalwyr Cymru a Lloegr) neu i bennu cyfraddau gwahanol. Yn unol â'i hymrwymiad i beidio â chynyddu WRIT yn ystod y Tymor hwn o'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig pennu'r cyfraddau ar gyfer 2021-22 yn 10c.

[2] Yn y mwyafrif o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymru fel pobl sy'n byw yng Nghymru; er hynny darperir diffiniad llawn o dan adran 8 o Ddeddf Cymru 2014: **http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29/section/8/enacted**

## Trethi Cymreig eraill

3.08 Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) ar 1 Ebrill 2018. Maent wedi'u datganoli'n llawn, sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n gallu penderfynu ar bob agwedd ar y trethi. Yn dâl am y refeniw trethi, mae grant bloc Cymru wedi'i ostwng yn ôl swm sy'n gyfwerth â'r hyn yr oedd trethi blaenorol y DU (treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi) yn ei godi yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth y DU. Mae'r trethi'n cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru.

## Y Dreth Trafodiadau Tir (LTT)

3.09 Yn 2020-21, cymeradwyodd y Senedd newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i brif gyfraddau preswyl LTT. Roedd y newidiadau'n darparu cyfnod dros dro i leihau treth i brynwyr tai sy'n cwblhau trafodion rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 31 Mawrth 2021 yn gynhwysol[3]. Dileodd y cyfnod dros dro i leihau treth y trothwy cyntaf a oedd yn codi treth ar gyfradd o 3.5 y cant ar werth y gydnabyddiaeth a oedd rhwng £180,000 a £250,000. Mae'r prif gyfraddau preswyl sydd mewn grym cyn y cyfnod dros dro i leihau treth yn Nhabl 3.2.

Tabl 3.1: Prif gyfraddau preswyl LTT (27 Gorffennaf i 31 Mawrth 2021 yn gynhwysol)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 to £250,000 | 0% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 5% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| £1.5m ac yn uwch | 12% |

3.10 Yn 2021-22, bydd y cyfnod gostyngiadau treth dros dro ar gyfer y prif gyfraddau preswyl wedi dod i ben a bydd y cyfraddau a'r trothwyon sydd wedi bod mewn grym ers i LTT ddechrau gweithredu o 1 Ebrill 2018 ymlaen yn gymwys unwaith eto. Nodir y rhain yn Nhabl 3.2 isod. Mae llacio'r cyfnod gostyngiad dros dro yn gyson ag egwyddorion trethi Cymreig o fod yn glir a sefydlog gan alluogi dinasyddion a busnesau i gynllunio gyda sicrwydd

3.11 Yn 2021-22, bydd LTT yn parhau i fod â'r trothwy cychwynnol uchaf ar gyfer y prif gyfraddau preswyl yn y DU, gyda rhyw 90 y cant o brynwyr cartrefi yng Nghymru naill ai'n talu'r un dreth neu lai o dreth o'i chymharu â'i rhagflaenydd, sef treth dir y dreth stamp.

[3] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-newidiadau-dros-dro-i-gyfraddau-throthwyon-y-dreth-trafodiadau-tir

Tabl 3.2: Prif gyfraddau preswyl LTT o 1 Ebrill 2021 ymlaen

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 0% |
| Mwy na £180,000 i £250,000 | 3.5% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 5% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| £1.5m ac yn uwch | 12% |

3.12 Gallai cyfradd uwch o 3 y cant yn ychwanegol at y brif gyfradd breswyl ym mhob band fod yn gymwys lle mae unigolyn, sydd eisoes yn berchen ar un neu ragor o eiddo preswyl, yn prynu eiddo preswyl pellach. Er hynny, os ydynt yn disodli eu prif breswylfa efallai na fydd y cyfraddau uwch yn gymwys. Bydd rhaid i gwmnïau sy'n prynu eiddo preswyl dalu'r cyfraddau preswyl uwch a gallai fod rhaid i ymddiriedolaethau sy'n prynu eiddo preswyl dalu'r cyfraddau preswyl uwch. Roedd datganiad ystadegol blynyddol Awdurdod Cyllid Cymru am y flwyddyn 2019-20 yn cynnwys dadansoddiad o ddata am y dreth trafodiadau tir mewn perthynas â'r gordal cyfradd uwch ar sail ddaearyddol i helpu i fonitro effaith y gyfradd uwch.[4] Nid oedd y cyfnod gostyngiadau treth dros dro yn gymwys i drafodion cyfraddau uwch.

Tabl 3.3: Cyfraddau uwch preswyl LTT o 1 Ebrill 2018 i 21 Rhagfyr 2020

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 3% |
| Mwy na £180,000 i £250,000 | 6.5% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 8% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 10.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 13% |
| £1.5m ac yn uwch | 15% |

3.13 Ar 21 Rhagfyr 2020, gwnaeth Gweinidogion Cymru reoliadau i roi newidiadau ar waith i'r cyfraddau a godir ar drafodion eiddo preswyl cyfradd uwch a thrafodion amhreswyl gan gynnwys elfen rent prydlesoedd amhreswyl a chymysg. Daw'r newidiadau hyn i rym ar 22 Rhagfyr.

3.14 Effaith y newidiadau i'r cyfraddau preswyl uwch yw cynyddu un pwynt canran ar y  cyfraddau treth a gymhwysir i'r bandiau. Nid yw'r bandiau wedi newid. Bydd hyn yn golygu, er enghraifft, y codir 9 y cant ar y gyfradd a gymhwysir i'r gwerth o fewn y band treth o £250,000 i £400,000%. Er hynny, gan nad yw'n gymwys ond i'r gwerth sydd o fewn y band, nid yw'n golygu bod holl werth y trafodiad yn cael ei drethu ar y gyfradd honno. Nodir y cyfraddau uwch preswyl llawn a godir o 22 Rhagfyr 2020 ac yn 2021-22 yn Nhabl 3.4 isod.

[4] https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir-ebrill-2019-mawrth-2020-html

Tabl 3.4: Cyfraddau uwch preswyl LTT o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 4% |
| Mwy na £180,000 i £250,000 | 7.5% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 9% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 11.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 14% |
| £1.5m ac yn uwch | 16% |

3.15 Ar 21 Rhagfyr 2020 gwnaeth Gweinidogion Cymru reoliadau i roi newidiadau ar waith i'r bandiau sy'n gymwys i drafodiadau amhreswyl gan gynnwys elfen rent prydlesoedd amhreswyl a chymysg. Daw'r newidiadau hyn i rym ar 22 Rhagfyr 2020. Yn ogystal, bwriedir gosod rheoliadau i newid swm penodedig o rent perthnasol i adlewyrchu'r newidiadau yn y bandiau treth (gan gynyddu'r swm o £9,000 i £13,500) gan gynnal yr un berthynas rhwng y bandiau a'r swm perthnasol o rent.

3.16 Mae'r newidiadau i'r bandiau treth, ar gyfer y cyfraddau amhreswyl sy'n gymwys i gydnabyddiaeth heblaw rhent ac i elfen rent prydlesoedd amhreswyl a chymysg, yn cynyddu'r bandiau cyfradd sero o £150,000 i £225,000. Mae hyn yn gynnydd o £75,000, neu 50 y cant, o'i gymharu â'r trothwy cyfradd sero blaenorol. Nodir y cyfraddau amhreswyl a'r bandiau sy'n gymwys i gydnabyddiaeth heblaw rhent ac i elfen rent prydlesoedd amhreswyl a chymysg a godir o 22 Rhagfyr 2020 yn nhablau 3.5 a 3.6 isod.

3.17 Bydd y newidiadau hyn yn golygu mai Cymru fydd â'r bandiau cyfradd dim mwyaf ar gyfer trafodiadau amhreswyl yn y DU. Bydd Cymru hefyd yn cadw cyfradd gychwynnol is o dreth ar gyfer prynu eiddo busnes (taliadau rhydd-ddaliadol neu bremiwm) na threth dir y dreth stamp. Bydd y mwyafrif helaeth o drafodion amhreswyl yng Nghymru, a'r rhai sy'n is na thua £1.2m mewn pris, yn talu'r un dreth neu lai nag o dan dreth dir y dreth stamp. Bydd Llywodraeth Cymru'n dal i adolygu'r dystiolaeth am effaith y cyfraddau amhreswyl.

Tabl 3.5: Cyfraddau uwch amhreswyl LTT o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £250,000 | 1% |
| Mwy na £250,000 i £1,000,000 | 5% |
| £1m ac yn uwch | 6% |

Tabl 3.6: Cyfraddau rhent les amhreswyl LTT o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £2,000,000 | 1% |
| £2m ac yn uwch | 2% |

## Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT)

3.18 O ran cyflwyno treth gwarediadau tirlenwi, neges glir gan randdeiliaid oedd yr angen am gysondeb, sicrwydd a sefydlogrwydd i fusnesau Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gadw cysondeb â dull gweithredu Llywodraeth y DU o ran cyfraddau'r dreth dirlenwi ar gyfer y gyfradd drethi is a safonol yn 2018-19 a 2019-20. Diben hyn oedd cefnogi amcan polisi LDT o leihau'r gwastraff sy'n cael ei roi mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru, ac i amddiffyn yn erbyn y risg o drosglwyddo gwastraff dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr er mwyn manteisio ar gyfraddau is. Parhaodd y polisi hwnnw ar gyfer 2020-21. Ystyrir y bydd sefydlogrwydd dros gyfraddau o fudd i fusnesau yn fwy byth eleni, o gofio'r ansicrwydd economaidd presennol a gynhyrchir gan y pandemig ac ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, felly, y bwriad yw cynnal cysondeb â chyfraddau treth tirlenwi'r DU ar gyfer 2021-22. Bydd y cyfraddau arfaethedig, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn cynyddu fel y nodir yn y tabl isod

Tabl 3.7: Cyfraddau LDT, £ y dunnell

| Trothwy prisiau | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Cyfradd safonol | £91.35 | £94.15 | £96.70 |
| Cyfradd is | £2.90 | £3.00 | £3.10 |
| Cyfraddau gwarediadau heb eu hawdurdodi | £137.00 | £141.20 | £145.05 |

## Ardrethi Annomestig (NDR)

3.19 Mae trethiant lleol yn rhan annatod o'r system ar gyfer ariannu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r refeniw gros sy'n daladwy o NDR dros £1.3bn. Unwaith y caiff rhyddhad ei gymhwyso, mae NDR yn cyfrannu dros £1bn tuag at gyllido gwasanaethau lleol yn flynyddol.

3.20 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dros £230m mewn rhyddhad statudol. Mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (SBRR) parhaol yn darparu dros £125m o ryddhad yn 2020-21, gyda hanner y busnesau'n talu dim ardrethi o gwbl. Mae ein cynllun rhyddhad elusennol yn darparu budd o dros £65m, sy'n golygu bod elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol yn cael rhwng 80 y cant a 100 y cant oddi ar eu biliau ardrethi. Mae Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag hefyd yn darparu cyfnod eithrio cychwynnol pan fydd eiddo wedi mynd yn wag, gyda’r rhyddhad yn werth cyfanswm o bron i £30m. Mae effaith y coronafeirws ar y lefel o eiddo gwag a'r sylfaen drethi yn parhau i gael ei hasesu. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

3.21 Yn 2020-21, fel rhan o fesurau COVID-19 brys, cyflwynwyd ein Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch, gan ddarparu rhyddhad ardrethi o 100 y cant i drethdalwyr sy'n meddiannu eiddo sydd â gwerth ardrethol o hyd at £500,000. Rydym hefyd wedi darparu dros £875m o gymorth grant i drethdalwyr annomestig. Mae'r rhai sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 wedi cael grant o £10,000, ac mae'r rhai sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £50,000 wedi cael grant o £25,000.

3.22 Drwy gydol 2021-22, bydd gwaith helaeth yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer yr ailbrisiad NDR nesaf a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2023. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghoriad ar bennu'r cyfraddau datgyfalafu ar gyfer eiddo heb werth rhent y farchnad, a gynlluniwyd ar gyfer y gwanwyn. Tua diwedd y flwyddyn, bydd gwaith paratoi pellach yn cael ei wneud i archwilio effaith bosibl yr ailbrisiad ar y sylfaen drethi. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i fonitro effaith COVID-19 ar y sylfaen treth eiddo annomestig. Byddwn hefyd yn ystyried y polisi tymor hwy ar faint o amser rhwng pob ailbrisiad a'r opsiynau ar gyfer diwygio apeliadau NDR.

## Rhagolygon refeniw trethi annibynnol

3.23 Mae rhagolygon annibynnol o refeniw trethi datganoledig oddi wrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ynghlwm wrth y gyllideb ddrafft hon. Mae adroddiad *Welsh Taxes Outlook* ar wahân sy'n darparu cefndir a manylion am ragolygon wedi'i gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Dangosir y rhagolygon ar gyfer 2021-22 yn Nhabl 3.8.

### Tabl 3.8: Rhagolygon Refeniw Trethi

| | 2021-22 £m |
|---|---:|
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 231 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 33 |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 2,064 |

## Addasiad i'r grant bloc

3.24 Yn dilyn datganoli pwerau trethi i Gymru, mae grant bloc Llywodraeth Cymru yn cael ei leihau i adlewyrchu'r ffaith y bydd refeniw o drethi datganoledig a rhannol-ddatganoledig bellach yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i Drysorlys y DU.

3.25 At ddibenion y Gyllideb ddrafft hon, mae'r addasiadau ar gyfer y grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn gyson â rhagolygon OBR ynghylch trethi cyfatebol y DU, yn seiliedig ar Ragolwg Economaidd a Chyllidol mis Tachwedd 2020, Mae cyfanswm yr addasiad i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn £254m yn 2021-22.

3.26 Mae addasiad grant bloc 2021-22 ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn cael ei ysgogi gan y twf a ragwelir mewn refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mhob band treth incwm, gan ddefnyddio *Economic and Fiscal Outlook* OBR ar gyfer mis Tachwedd. Yr addasiad i'r grant bloc ar gyfer treth incwm yn 2021-22 yw £2,099m.

## Cronfa Wrth Gefn Cymru

3.27 Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018 fel rhan o drefniadau'r fframwaith cyllidol i'n galluogi i ymdrin yn effeithiol ag anwadalrwydd sy'n deillio o refeniw trethi trwy gadw adnoddau heb eu gwario i'w defnyddio yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n disodli'r broses flaenorol o gyfnewid cyllidebol.

3.28 Gall Cronfa Wrth Gefn Cymru ddal hyd at £350m. Mae'r swm y ceir ei dynnu i lawr bob blwyddyn yn gyfyngedig i £125m ar gyfer gwariant refeniw a £50m ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes cyfyngiad blynyddol ar daliadau i mewn i'r gronfa.

3.29 Ar ddechrau 2020-21, roedd £336m yn cael ei ddal yn y gronfa wrth gefn - refeniw o £229m a chyfalaf o £107m. Mae'r cyfalaf yn cynnwys trafodiadau cyffredinol ac ariannol. Caiff cynlluniau i ddefnyddio'r cyllid a ddelir yn y gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn eu cynnwys yn y drydedd gyllideb atodol arfaethedig ar gyfer 2020-21.

3.30 Wrth bennu ein cynlluniau gwario ar gyfer 2021-22 rydym wedi cynllunio i dynnu i lawr refeniw o £125m o Gronfa wrth Gefn Cymru.

## Benthyca

3.31 Mae'r Gyllideb ddrafft hon yn adlewyrchu ein cynlluniau i fenthyca £150m yn 2021-22 – yr uchafswm y gallwn gael mynediad ato ar hyn o bryd mewn un flwyddyn o fewn y fframwaith cyllidol. Mae'r setliad cyfalaf cyfyngedig a gafodd Cymru o Adolygiad o Wariant 2020 yn golygu bod rhaid inni fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael inni er mwyn cyflawni ein buddsoddiadau cyfalaf uchelgeisiol. Er hynny, nid yw benthyca cyfalaf yn ffynhonnell am ddim o arian ychwanegol a rhaid ei ad-dalu.

3.32 Mae'n bwysig inni reoli ein cyllideb gyfalaf o fewn yr hyblygrwydd sydd gennym ar hyn o bryd, ond hefyd ein bod yn parhau i bwyso i sicrhau bod yr hyblygrwydd hwnnw'n adlewyrchu'n briodol yr heriau sy'n ein hwynebu mewn buddsoddiadau seilwaith hirdymor.

3.33 O fewn ein fframwaith presennol, byddwn yn cynnal ein dull o ariannu buddsoddiad drwy gynyddu'r mathau lleiaf costus o gyfalaf yn gyntaf – fel arfer ein setliad grant bloc. Ni fyddwn ond yn defnyddio mathau drutach o gyllid cyfalaf, megis benthyca, unwaith y byddwn wedi disbyddu'r ffynonellau traddodiadol hyn. Bydd modelau arloesol, gan gynnwys buddsoddiad preifat mewn prosiectau, cael eu hystyried ar brosiectau sy'n risg isel ac o'r raddfa briodol yn unig

3.34 Er hynny, byddwn yn parhau i bwyso ar Drysorlys Ei Mawrhydi yn ein trafodaethau ag ef am yr hyblygrwydd ehangach y mae arnom ei angen i reoli ein cyllideb yn y ffordd fwyaf effeithiol i bobl Cymru. Yn benodol, byddwn yn pwyso am gynnydd i'r terfynau blynyddol a chyfanredol ar ein mynediad at fenthyca cyfalaf, yn ogystal ag ar gyfer mwy o hyblygrwydd o ran cario ymlaen a thynnu i lawr ar ddiwedd y flwyddyn o fewn Cronfa Cymru.

3.35 Bydd Llywodraeth Cymru'n tynnu ei chyfalaf benthyca o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol. Nodir rhagolygon ad-dalu ar gyfer y cyfnod yr ydym wedi pennu cynlluniau cyfalaf yn Nhabl 7.4. Seilir y rhagolwg ad-dalu ar ragdybiaeth o gyfnod ad-dalu o 25 mlynedd a chyfradd llog gyfartalog o 0.99 y cant ar fenthyca yn 2021-22.

## Cyllid Arloesol

3.36 Yn ogystal â'n cyllidebau cyfalaf craidd a'n pwerau benthyg , rydym yn parhau i wneud defnydd llawn o ddulliau cyllido arloesol er mwyn helpu i sicrhau buddsoddiad ychwanegol amserol mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol. Darperir y newyddion diweddaraf am y cynlluniau hyn yn atodiad D.

## Ffynonellau o gyllid i Lywodraeth Cymru

3.37 Mae'r ffynonellau cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyllid grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU, ar y cyd â threthiant cwbl ddatganoledig, cyfraddau treth incwm Cymru ac ardrethi annomestig Mae tabl 3.9 yn nodi ffynonellau ar gyfer adnoddau a chyfalaf.

Tabl 3.9 FFYNONELLAU CYLLID AR GYFER LLYWODRAETH CYMRU

| ELFENNAU CYLLIDO CYMRU | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020 |
|---|---|
| | **£000oedd** |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | |
| Cyllidol | 14,351,223 |
| Anghyllidol | 690,064 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 125,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | |
| Cyllidol | 27,915 |
| Anghyllidol | 149,934 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | |
| Ardrethi Annomestig | 1,101,000 |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 2,064,061 |
| Treth Trafodiadau Tir | 230,998 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 32,728 |
| Ad-dalu Prifsymiau Benthyciadau | -6,887 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **1,8766,036** |
| **CYLLIDO CYFALAF** | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | |
| Cyffredinol | 2,255,555 |
| Trafodiadau Ariannol | 112,604 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | |
| Cyfalaf | 968,961 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | |
| Benthyca | 150,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **3,487,120** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **22,253,156** |

# Pennod 4: COVID-19

4.01 Yn yr Adolygiad o Wariant, cafodd Llywodraeth Cymru £766m mewn symiau canlyniadol yn 2021-22 o ganlyniad i gyhoeddiadau gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn Lloegr mewn meysydd datganoledig.

4.02 Rydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn yn ein hymdrechion parhaus i ymateb i'r pandemig a lliniaru effaith y pandemig. Er bod gennym bellach obaith drwy'r brechlynnau, erys llawer o ansicrwydd ynghylch union hynt y pandemig a'r effeithiau y bydd hyn yn parhau i'w cael ar ein gwasanaethau cyhoeddus a'r economi ehangach i mewn i'r flwyddyn nesaf. Er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n ymateb orau i'r heriau sy'n esblygu a gyflwynir gan y pandemig, mae'n ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn awr a bwriadwn wneud dyraniadau pellach o'r cyllid hwn yn y Gyllideb derfynol gan ein bod yn deall yn well effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd. Yn benodol, byddwn yn ystyried pa gyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi'r GIG a llywodraeth leol sydd ar y rheng flaen yn ein hymateb i'r pandemig.

4.03 Er hynny, rydym yn dyrannu cyllid i nifer bach o feysydd yn awr lle ceir angen gweithredol er mwyn cynnal gwasanaethau.

## Buddsoddi mewn cymorth ar gyfer digartrefedd

4.04 Fel rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas, mae gan bobl sy'n ddigartref risg anghymesur o ddal COVID-19 oherwydd eu diffyg tai diogel, a mynediad at gyfleusterau hylendid a gwasanaethau cymorth. Drwy gydol y pandemig, ac mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, a'r trydydd sector, rydym wedi darparu cyllid sylweddol ar gyfer mesurau i gefnogi pobl sy'n ddigartref. Er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma, rydym wedi cynyddu'r Grant Atal Digartrefedd £4m eleni i £21.9m yn 2021-22. Mae'r grant hwn yn cefnogi darparu gwasanaethau sy'n anelu at atal digartrefedd, a lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn brin, yn fyr ac nad yw'n digwydd fwy nag unwaith. Bydd yr arian ychwanegol yn ein galluogi i gynnal y ddarpariaeth frys o lety a chymorth ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf yn ôl y gofyn, a sicrhau parhad y ddarpariaeth. Mae'r buddsoddiad hwn, ynghyd â £40m o gyllid ychwanegol ar gyfer y Grant Cymorth Tai (gweler pennod chwech), yn gam pwysig tuag at gyflawni ein nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gweler astudiaeth achos 4 yn atodiad C am ragor o fanylion.

## Buddsoddi yn y gweithlu olrhain cysylltiadau

4.05 Rydym yn buddsoddi swm cychwynnol o £10m i gynnal y gweithlu olrhain cysylltiadau er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddelio'n effeithiol ag achosion presennol ac achosion rhagamcanol o COVID-19 i helpu i leihau cyfraddau trosglwyddo. Mae'n bwysig bod y gweithlu olrhain cysylltiadau yn cael ei gynnal drwy 2021 er mwyn gallu ymchwilio i achosion cadarnhaol newydd a chysylltiadau agos a'u holrhain, ac ymdopi ag unrhyw uchafbwynt yn y dyfodol mewn achosion. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu'n sylweddol gyda recriwtio rhanbarthol a chynllunio'r gweithlu ar gyfer yr hyn sy'n rhan ganolog o strategaeth y Llywodraeth i ailgychwyn yr economi a rheoli lledaeniad y feirws.

## Buddsoddi mewn Darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim

4.06 Mae sicrhau parhad y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru  yn ystod y pandemig. Mae Cymru wedi arwain y ffordd o ran sicrhau, yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd mawr, fod y rhai sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim yn dal i allu eu cael yn ystod gwyliau ysgol. Ni oedd y gyntaf o wledydd y DU i gadarnhau y byddai darpariaeth prydau ysgol am ddim ar gael yn ystod gwyliau'r haf a'r wlad gyntaf i gyhoeddi y byddai'r ddarpariaeth yn parhau drwy gydol gwyliau'r ysgol tan Basg 2021. Gan adeiladu ar y cyllid o £52.7m sydd wedi'i gyhoeddi hyd yma eleni, byddwn yn darparu £23.3m yn ychwanegol i ymestyn prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer 2021-22 yn ei chyfanrwydd. Bydd y buddsoddiad hwn yn sicrhau y gall awdurdodau lleol ddarparu pryd maethlon yn ystod gwyliau'r ysgol i bob plentyn o gefndiroedd incwm isel a difreintiedig p'un a ydynt mewn adeilad ysgol ai peidio. Bydd y buddsoddiad hwn nid yn unig yn helpu i leihau tlodi ac anghydraddoldebau iechyd yn ein cymdeithas, ond bydd hefyd yn rhoi cymorth i deuluoedd sy'n ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

## Buddsoddi mewn cymorth ar gyfer bysiau

4.07 Mae bysiau'n chwarae rhan ganolog wrth gysylltu pobl a chymunedau ledled Cymru a darparu mynediad at wasanaethau allweddol, yn enwedig i bobl o gartrefi heb fynediad at drafnidiaeth breifat. Er hynny, mae'r mesurau cadw pellter cymdeithasol parhaus a'r gostyngiad amlwg yn nifer y bobl sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi gadael cwmnïau bysiau yng Nghymru â diffygion sylweddol mewn refeniw. Gan adeiladu ar y gefnogaeth sylweddol rydym eisoes wedi'i darparu yn 2020-21, rydym yn darparu £18.6m yn ychwanegol i'r diwydiant bysiau yn 2021-22. Yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd parhaus, bydd yr arian hwn yn rhoi sefydlogrwydd i weithredwyr bysiau barhau i redeg gwasanaethau effeithlon ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn ariannu adolygiad o sut mae gwasanaethau bysiau'n gweithredu fel y gallwn ddiogelu ac wedyn diwygio'r diwydiant i ddiwallu anghenion pobl Cymru a'r heriau parhaus a ddaw yn sgil COVID-19.

## Buddsoddi yn y trydydd sector a gwirfoddoli

4.08 Mae'r trydydd sector, a'r gwirfoddolwyr y mae'n eu cefnogi, wedi chwarae rhan hanfodol yn ein hymateb i'r pandemig a bydd yn cefnogi unigolion a chymunedau yn ystod ein hadferiad. Gwyddom fod disgwyl i incwm ar gyfer y sector grebachu gyda gweithgarwch codi arian wedi'i gwtogi'n ddifrifol, ac mae hyn yn debygol o barhau tra bo mesurau COVID-19 yn parhau. Rydym wedi dyrannu £3m o gyllid COVID-19 i roi sicrwydd cynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf i'r sector wrth iddo barhau i fod ar flaen y gad yn ein hymateb i'r pandemig. Mae hyn ochr yn ochr â'r £0.7m ychwanegol rydym yn ei ddarparu ar wahân yn ystod 2021-22, gan alluogi'r sector i barhau i gefnogi'r unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau (fel y nodir ym mhennod chwech).

## Buddsoddi mewn dysgu dal i fyny

4.09 Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bob agwedd ar addysg yng Nghymru, gyda mesurau diogelu yn torri ar draws addysgu confensiynol a mynediad at sefydliadau addysgol. Gwyddom fod eleni wedi'i diffinio gan aflonyddwch a phryder i lawer o fyfyrwyr, a bod effaith yr aflonyddwch hwn yn debygol o gael ei deimlo ymhell i mewn i'r flwyddyn academaidd nesaf ac o bosibl y tu hwnt. Mewn ymateb i'r pandemig, lansiwyd y cynllun 'Recriwtio, Adfer, Codi Safonau', gan gyflymu dysgu ar gyfer unigolion a grwpiau allweddol gyda chyllid i ysgolion recriwtio staff newydd i fynd i'r afael ag addysg sydd wedi'i cholli. Mae'r buddsoddiad ychwanegol o £29m ym mlwyddyn academaidd 2020/21 yn darparu'r hyn sy'n cyfateb i 600 o athrawon ychwanegol a 300 o gynorthwywyr addysgu, gan dargedu cymorth ychwanegol at Flynyddoedd 11, 12 a 13, yn ogystal â dysgwyr difreintiedig a dysgwyr bregus o bob oedran. O'r buddsoddiad hwn, darparwyd £17m yn 2020-21 ac rydym yn dyrannu £12m yn 2021-22. Bydd y buddsoddiad sylweddol hwn yn ein helpu i fynd i'r afael â cholli dysgu, sgiliau a chynhyrchiant, a bydd yn dod â manteision pendant i fyfyrwyr a'r economi ehangach yng Nghymru.

## Buddsoddi mewn Cymunedau am Waith a Mwy

4.10 Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn darparu cymorth cynghori arbenigol ar gyflogaeth a mentora dwys i bobl sydd naill ai mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi, ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Drwy helpu pobl mewn diweithdra i gael profiad gwaith, dysgu sgiliau newydd, neu drwy gyngor arbenigol ar gyflogaeth, mae Cymunedau am Waith a Mwy yn galluogi pobl i fagu hyder a datgloi eu potensial. Gan adeiladu ar £3m yn 2020-21 ar gyfer recriwtio mentoriaid ychwanegol a swyddogion cyswllt cyflogwyr i gefnogi ein partneriaid cyflenwi awdurdodau lleol a'r trydydd sector ledled Cymru, darperir £6m ychwanegol yn 2021-22. Yn erbyn cefndir o ansicrwydd economaidd sylweddol, bydd yr arian hwn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ddarparu cyngor arbenigol i gefnogi a grymuso pobl allan o ddiweithdra.

# Pennod 5: Pontio'r UE

## Diwedd y Cyfnod Pontio a'r Goblygiadau i Gymru

5.01 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Cymru wedi wynebu ansicrwydd a heriau nid yn unig yn sgil pandemig COVID-19, ond hefyd o ganlyniad i gyfnod pontio'r UE a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr. Rydym wedi ein siomi gan y diffyg tryloywder ac ymgysylltiad ystyrlon gan Lywodraeth y DU ar faterion pontio a chyllid newydd yn lle rhaglenni'r UE. Rydym wedi ein siomi yn fwy fyth gan fethiant Llywodraeth y DU i gadw at ei haddewid i ddarparu'r un faint o gyllid yn lle cyllid yr UE yn yr Adolygiad o Wariant fis Tachwedd 2020.

5.02 Rydym hefyd wedi gweld haeriad Llywodraeth y DU o'i pharch at gymwyseddau datganoledig yn gwrthdaro'n uniongyrchol â'i defnydd arfaethedig o bwerau cymorth ariannol Bil Marchnad Fewnol y DU i wario'n uniongyrchol yng Nghymru drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

5.03 Hyd yn oed pan ddarparwyd cyllid inni yn yr Adolygiad o Wariant, mae'r cyllid amaeth newydd a ddarperir gan Lywodraeth y DU £137m yn llai nag y byddem wedi'i ddisgwyl ar gyfer 2021-22. Bydd hyn yn cael effaith ar ein cymunedau gwledig a'n hamgylchedd. Bydd cynnig Llywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin ledled y DU yn werth dim ond £220m y flwyddyn nesaf ar gyfer y DU gyfan – gostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r £375m y flwyddyn y mae Cymru yn unig yn ei gael ar hyn o bryd drwy'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Mae i hyn oblygiadau difrifol i'n busnesau, ein cymunedau, a'n pobl ledled Cymru sydd eisoes yn ei chael yn anodd oherwydd effaith pandemig COVID-19.

5.04 Mae ein Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol, yr ydym wedi'i ddatblygu gydag ystod eang o randdeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys llywodraeth leol, busnesau, y byd academaidd, a'r trydydd sector, a thrwy ymgynghoriad cyhoeddus, yn nodi mwy o rôl i ranbarthau a chymunedau fel y bydd ein buddsoddiadau'n cyrraedd y rhai sydd eu hangen fwyaf, ac yn cefnogi swyddi a ffyniant mewn ffordd gynhwysol a chynaliadwy. Mae'r diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar gyllid newydd yn lle Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE wedi tanseilio tair blynedd o waith a chydweithredu.

5.05 O ran pysgodfeydd, bydd y cyllid a gawsom, sef £2.1m, yn gwneud rhywfaint i gefnogi'r sector morwrol a physgodfeydd, sy'n arbennig o fregus yn sgil newidiadau o ganlyniad i ymadael â'r UE. Mae'r cyllid a gawsom ar gyfer cefnogi pysgodfeydd a ffermydd yn cael ei adlewyrchu yn y dyraniad ar gyfer portffolio'r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

5.06 Cafodd unrhyw gyllid a ddyrannwyd i Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer 2021-22 ymlaen i dalu costau cyfrifoldebau a swyddogaethau newydd ei gynnwys mewn setliadau adrannol cyffredinol. O'r herwydd, ni allwn nodi dyraniadau penodol ar wahân mewn perthynas â swyddogaethau newydd a oedd yn cael eu cyflawni a'u rheoli yn flaenorol ar lefel yr UE. Mae hyn yn rhan o'n setliad cyffredinol, ac ohono bydd angen inni ariannu tua 4,000 o gyfrifoldebau a swyddogaethau newydd a fydd yn dod i ran Llywodraeth Cymru. Bydd rhai o'r swyddogaethau hyn yn cael effaith anghymesur ar Gymru, er enghraifft, y dyletswyddau newydd sy'n gysylltiedig ag archwiliadau ychwanegol yn ein porthladdoedd. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid pellach ar gyfer y costau hyn.

5.07 Wrth i'r DU nesáu at ddiwedd y cyfnod pontio, rydym yn parhau i asesu'r goblygiadau ariannol, ac yn ystyried mesurau i liniaru effaith yr ansicrwydd hwn. Mae ein Cronfa Bontio'r UE, sy'n werth £50m ac a gyhoeddwyd ddechrau 2018, wedi helpu busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a'r bobl fwyaf bregus yng Nghymru i wynebu diwedd y cyfnod pontio gyda chyn lleied o darfu â phosibl. Er enghraifft, defnyddiwyd y gronfa hon i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol, mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd, a datblygu cadernid busnesau; meysydd sydd hefyd yn teimlo effaith y pandemig.

5.08 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cymaint â phosibl i baratoi Cymru ar gyfer y newidiadau sydd ar ddod. Mae ein Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio, a gyhoeddwyd ar 11 Tachwedd, yn nodi ystod o gamau gweithredu allweddol i helpu i liniaru, cyn belled ag y bo modd, yr effeithiau negyddol ar Gymru, gan gynnwys effaith ymadael heb gytundeb. Mae hyn yn cynnwys mesurau i gefnogi busnesau yng Nghymru pan fydd ein perthynas fasnachu â'r UE yn newid yn sylweddol. Mae helpu busnesau i reoli heriau deuol y pandemig a diwedd y cyfnod pontio yn flaenoriaethau allweddol. Yn ogystal â Phorth Cyfnod Pontio'r UE gan Busnes Cymru, sydd newydd ei ail-lansio, a chyngor arbenigol wedi'i deilwra a roddir gan y gwasanaeth, rydym wedi darparu £100m o gyllid mewn grantiau datblygu busnes eleni er mwyn helpu busnesau i baratoi ar gyfer heriau hirdymor sy'n gysylltiedig â bywyd ar ôl COVID-19 a bywyd y tu allan i'r UE.

5.09 Adeg paratoi'r Gyllideb, nid ydym yn gwybod o hyd a fydd cytundeb masnach cynhwysfawr wedi'i lunio ar ddiwedd y flwyddyn a beth fydd y goblygiadau llawn. Am y rheswm hwnnw, nid ydym yn dyrannu unrhyw gyllid yn y Gyllideb, heblaw am y cyllid i gefnogi pysgodfeydd ac amaeth, ond byddwn yn parhau i adolygu hyn wrth i'r Gyllideb fynd rhagddi. Fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio, mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn hanfodol ar gyfer cyflawni camau gweithredu o fewn y Cynllun.

# Pennod 6: Buddsoddi ym mlaenoriaethau ein Llywodraeth

## Trosolwg

6.01 Mae'r Gyllideb yn parhau i roi buddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol wrth wraidd ein cynlluniau gwario, yn ogystal â chefnogi ein hamcanion ar gyfer Cymru fwy cyfartal, mwy ffyniannus, a gwyrddach.

6.02 Er bod rhaid inni gydnabod yr her o gynllunio Cyllideb heb wybod trywydd y pandemig, na'r ffordd y byddwn yn ymadael â'r UE, rydym wedi ymdrechu i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael inni. Wrth wraidd ein cynlluniau y mae buddsoddiad parhaus yn ein GIG a'n gwasanaethau cyhoeddus, sy'n hanfodol i gefnogi pobl Cymru wrth inni symud tuag at adfer ac ail-greu yn 2021-22.

6.03 O'r dechrau, rydym wedi blaenoriaethu iechyd, ynghyd â rhoi'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol o dan yr amgylchiadau ariannol presennol. Lluniwyd ein paratoadau gan ein ffocws ar **ddiogelu** iechyd a swyddi, **adeiladu** dyfodol gwyrddach, a sbarduno **newid** ar gyfer Cymru fwy cyfartal a theg.

6.04 O ganlyniad i'r cyllid ychwanegol a gafodd Cymru ar gyfer 2021-22, gallwn ddarparu cynnydd i bob portffolio yn y Gyllideb hon. Gallwn gydnabod rhai pwysau penodol ar wariant, a gwneud nifer o fuddsoddiadau wedi'u targedu yn unol â'n blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae'n werth nodi, hyd yn oed gyda'r cynnydd a gyhoeddwyd yn y Gyllideb hon, y bydd ein cyllideb adnoddau craidd fesul pen yn 2021-22 yn dal i fod 3 y cant yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11. Nid yw'n syndod felly fod pwysau sylweddol ac eang o hyd ar y Gyllideb.

## Diogelu

6.05 Rhaid inni roi'r flaenoriaeth bennaf i amddiffyn bywydau a diogelu pobl Cymru. Mae COVID-19 wedi bod yn ddinistriol i lawer o deuluoedd, nid yn unig i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid, ond hefyd i'r nifer mawr o bobl eraill sy'n dioddef salwch a chyflyrau cronig oherwydd gohirio eu triniaeth o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r Gyllideb hon yn blaenoriaethu diogelu iechyd a swyddi pobl wrth inni symud tuag at adfer ac ail-greu ar gyfer Cymru well.

### Buddsoddi mewn iechyd, lles a gofal cymdeithasol

6.06 Rydym yn darparu dros £385m o gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG, gan olygu bod cyfanswm cyllid y GIG yn 2021-22 yn werth mwy nag £8.4bn. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn diogelu gwasanaethau craidd y GIG, gan sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol i barhau i ddarparu gwasanaethau craidd, ac ymateb i effaith uniongyrchol a hirdymor y pandemig ar iechyd poblogaeth Cymru.

6.07 Yn ogystal â darparu ar gyfer cynnydd mewn cyflogau ar gyfer ein staff gweithgar ac ymroddedig yn y GIG, bydd yn cyllido twf mewn costau eraill yn sgil chwyddiant yng ngwasanaethau'r GIG, a hefyd yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi i drawsnewid y modd y darperir gwasanaethau iechyd gyda modelau gwasanaeth, technolegau, a thriniaethau newydd. Bydd y rhain yn cynnwys datblygiadau pellach ym meysydd Genomeg a Chynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Uwch (ATMP).

6.08 Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn trawsnewid Gofal Sylfaenol a diwygio'r contractau Gofal Sylfaenol, gan ddiogelu a gwella gwasanaethau hanfodol mewn cymunedau ledled Cymru ar gyfer y tymor hir.

6.09 Yn ystod y pandemig, rydym wedi gweld pwysigrwydd ein gweithlu, a bydd ein buddsoddiad yn cynyddu £17.5m ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol newydd a chymorth parhaus i'n staff presennol.

6.10 Byddwn hefyd yn dyrannu £25m i gefnogi trawsnewid gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni ataliol ac yn blaenoriaethu rhaglenni digidol. Bydd y rhain yn cynnwys data cenedlaethol, wardiau digidol, presgripsiynu, a gofal llygaid. Byddwn hefyd yn parhau i archwilio newid trawsnewidiol digidol pellach a chymorth wedi'i dargedu i gynnal gwasanaethau hanfodol. Yn ystod y pandemig, mae'r defnydd o dechnoleg wedi'i gyflymu ledled Cymru, nid yn unig drwy sefydlu ffyrdd newydd o weithio ond hefyd drwy wella mynediad at gyngor gofal iechyd gartref. Mae'r ffyrdd newydd hyn o weithio yn darparu gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty ac yn dangos sut y gall technoleg ddigidol rymuso gofal cleifion.

### Iechyd Cyhoeddus Cymru – Diogelu Iechyd

6.11 Mae cyfnod pandemig COVID-19 wedi pwysleisio’r angen am fwy o fuddsoddi mewn diogelu iechyd. Byddwn yn darparu £10m yn ychwanegol i Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi trawsnewid gwasanaethau diogelu iechyd yng Nghymru. Gan adeiladu ar y buddsoddiadau rydym eisoes wedi'u gwneud i foderneiddio a chynyddu capasiti yng ngwasanaeth microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru, bydd y buddsoddiad hwn yn sicrhau bod gan Gymru wasanaeth diogelu iechyd blaenllaw ar gyfer y tymor hir.

### Gofal cymdeithasol

6.12 Rydym hefyd yn cynyddu Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol £10m yn 2021-22 i £50m. Bydd hyn yn cefnogi cynaliadwyedd y gweithlu a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy, gan gydnabod yr effaith sylweddol y mae'r pandemig wedi'i chael ar gynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol. Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn agosach yn parhau i fod wrth wraidd y weledigaeth a nodir gennym yn *Cymru Iachach*.

6.13 Byddwn yn parhau i gefnogi sefydliadau'r trydydd sector drwy ddyrannu £1.5m yn ychwanegol drwy Grantiau i’r trydydd sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gallant ymateb yn effeithiol a chefnogi’r ymateb parhaus i COVID-19 ac ail-greu ac adfer gofal cymdeithasol yn y tymor hwy.

6.14 Byddwn yn buddsoddi £2m yn ychwanegol yn Gofal Cymdeithasol Cymru a fydd yn parhau i ehangu cofrestriad proffesiynol y gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn darparu cymorth parhaus ar gyfer sefydlogi ac adfer y sector drwy gyflawni Strategaeth y Gweithlu.

6.15 Yn 2021-22 byddwn hefyd yn cynnal cyfanswm ein buddsoddiad o £89m yn y Gronfa Gofal Integredig ond, o fewn yr amlen hon, byddwn yn blaenoriaethu £2m i gefnogi plant ag anghenion uchel sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu hanfon y tu allan i Gymru ar hyn o bryd. Mae hyn ar ben y cyllid cyfalaf gwerth £40m ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig o’r Portffolio Tai a Llywodraeth Leol.

6.16 Gan adeiladu ar y buddsoddiad o £0.3m yn 2020-21, fel rhan o’n £320m pecyn ail-greu, byddwn yn buddsoddi £0.6m yn ychwanegol yn y Fframwaith Maethu Cenedlaethol i ddarparu'r seilwaith ar gyfer ymgyrch Maethu Cymru yn ystod 2021-22, gyda'r bwriad o ddarparu digon o leoedd mewn cartrefi gofal i gefnogi lles, annibyniaeth a chyfleoedd bywyd plant yn y dyfodol. Mae'r buddsoddiad hwn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i sicrhau’r dyfodol gorau posibl i blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth. Rydym yn cydnabod y bydd y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar ein plant mwyaf bregus, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Mae'r dull ataliol hwn yn adeiladu ar y cymorth sylweddol a roddwyd ar waith gennym eleni drwy Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol, ac yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arno i ffynnu yn ystod y cyfnod eithriadol hwn.

### Buddsoddi mewn iechyd meddwl a lles

6.17 Mae diogelu Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn 2021-22 yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Gan gydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar iechyd meddwl a lles llawer o bobl, rydym yn dyrannu £20m yn ychwanegol o fewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu'r cymorth ar draws ystod o feysydd. Byddwn yn cynyddu ein hymrwymiad o dan *Cymru Iachach* ar gyfer Cronfa Gwella'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl drwy ddyblu ein cyllid o £7m i £14m. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o gymorth i wasanaethau anghlinigol ar y rheng flaen, cymorth argyfwng pob oed, a gwasanaethau asesu cof.

6.18 Byddwn hefyd yn cefnogi gwasanaeth estynedig Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol, gan ddarparu gwasanaeth cymorth cyfrinachol am ddim i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol.

6.19 Mae'r pandemig yn anochel yn cael effaith negyddol ychwanegol ar iechyd meddwl pobl o bob oed, yn enwedig plant a phobl ifanc. Yn y Gyllideb hon, rydym yn cynnal ein buddsoddiad mewn cefnogi iechyd meddwl ym maes addysg. Gan adeiladu ar £2m a ddyrannwyd yn 2020-21, rydym yn dyrannu £4m arall i gefnogi'r gwaith o gyflwyno mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ledled Cymru, gan ddarparu cyfanswm o £9m ar gyfer y dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl yn 2021-22. Bydd y rhaglen waith hon, sy'n parhau â'n dull ataliol, yn cynnwys darparu cwnsela mewn ysgolion. Cyflwynir rhagor o fanylion am effaith y cyllid hwn yn astudiaeth achos 1 yn atodiad C. Byddwn hefyd yn cynnal y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn y Gyllideb y llynedd, sef £2m i addysg uwch a £2m i addysg bellach i adeiladu ar eu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, hyfforddiant staff a dulliau gweithredu arloesol wrth gefnogi iechyd meddwl, lles ac anghenion dysgu ychwanegol.

6.20 Ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n fregus ac sydd angen cymorth mwy sylweddol, byddwn yn buddsoddi £5.4m yn ychwanegol ar gyfer CAMHS y GIG ar gyfer Haen 4 a Thimau Dwys Cymunedol. Cyflwynir rhagor o fanylion am effaith y cyllid hwn yn astudiaeth achos 1 yn atodiad C. Fel rhan o'r cynnydd mewn cyllid iechyd meddwl, byddwn yn ehangu'r defnydd o dechnoleg ddigidol wrth ddarparu gwasanaethau, er enghraifft, drwy gynyddu'r ddarpariaeth o Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ar-lein.

6.21 Ynghyd â'r cynnydd yng nghyllid Iechyd Meddwl y GIG sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cyflogau a chwyddiant, mae hyn yn cyfateb i fwy na £42m o fuddsoddiad ychwanegol a fydd yn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yn 2021-22. Gellir gweld buddsoddiad pellach mewn iechyd meddwl ar draws y llywodraeth, yn unol â'n dull atal a diogelu iechyd meddwl a lles, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth tai, chwaraeon a mynediad at fannau gwyrdd, fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

### Llywodraeth leol

6.22 Mae llywodraeth leol yn bartner allweddol i Lywodraeth Cymru yn ein cenhadaeth i wella addysg, darparu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae ar ein cymunedau eu hangen, trechu tlodi a sicrhau newid sylweddol ym maes tai cymdeithasol. Mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau hanfodol i bawb gan gynnwys rhai o'r bobl sydd fwyaf bregus yn ein cymunedau. Rydym yn cydnabod ymdrech aruthrol llywodraeth leol wrth ymateb i'r pandemig, gan brofi ei bod yn ystwyth, er enghraifft drwy ddefnyddio technoleg ddigidol neu gymysgedd o ddarpariaeth ddigidol a darpariaeth wyneb yn wyneb.

6.23 Rydym yn parhau â'n nod o roi'r setliad gorau posibl i'r sector o dan yr amgylchiadau ariannol presennol. Gan hynny, rydym yn darparu cynnydd o £176m, gan gydnabod yr effaith negyddol y mae'r pandemig wedi'i chael o ran casglu ardrethi annomestig, ac yn sgil rhewi'r lluosydd Ardrethi Annomestig. I wrthbwyso hyn, rydym felly'n cynyddu'r grant cynnal refeniw yn y setliad. Mae hyn yn adeiladu ar setliad sydd wedi gwella'n sylweddol yn y flwyddyn gyfredol i helpu i gefnogi a darparu gwasanaethau lleol hanfodol a gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar ysgolion a gofal cymdeithasol.

6.24 Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i roi cymaint o sicrwydd cynnar â phosibl ar ddyraniadau grant penodol i alluogi awdurdodau lleol i gynllunio eu hystod lawn o wasanaethau am y flwyddyn i ddod. Rydym yn cynnal ein buddsoddiad cyffredinol mewn grantiau penodol ar draws ein cyllideb, gan fuddsoddi bron i £1bn yn 2021-22. Bydd llywodraeth leol hefyd yn elwa o rai o'r dyraniadau refeniw a chyfalaf ychwanegol eraill a gynigir yn y Gyllideb hon.

6.25 Ochr yn ochr â'r cyllid refeniw, rydym hefyd yn cynnal cymorth cyfalaf i lywodraeth leol ar £198m, gan gynnwys £88.8m o fenthyciadau â chymorth i barhau i gefnogi llywodraeth leol i gyflawni ein blaenoriaethau ar y cyd gan gynnwys datgarboneiddio, tai, ac adferiad economaidd yn dilyn COVID-19.

### Buddsoddi mewn addysg

6.26 Mae canlyniadau uniongyrchol a pharhaus y pandemig wedi amharu'n fawr ar addysg plant a phobl ifanc. Bydd yr effaith i'w theimlo ymhell i mewn i'r flwyddyn academaidd nesaf, ac o bosibl y tu hwnt i hynny.

6.27 Rydym yn dyrannu £21.7m yn ychwanegol i gydnabod y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl ifanc 16-19 oed yn y chweched dosbarth ac addysg bellach. Y disgwyl yw y bydd mwy o fyfyrwyr yn aros mewn addysg ôl-orfodol. Yn ogystal, fel rhan o'n cynllun ail-greu ar ôl COVID-19 a gyhoeddwyd ym mis Hydref, gwnaethom ddarparu £10m yn 2020-21 i helpu'r sector addysg bellach i gefnogi cynnydd mewn cofrestriadau oherwydd graddau uwch na'r disgwyl, ac oherwydd yr opsiynau cyfyngedig yn y farchnad lafur. Yn 2021-22, rydym yn dyrannu £5m arall i roi cymorth i fyfyrwyr am weddill y flwyddyn academaidd hon.

6.28 Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cynnal yr £13.9m o gymorth ar gyfer darpariaeth addysg bellach arbenigol i sicrhau bod pobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, na ellir diwallu eu hanghenion yn eu coleg lleol, yn gallu cael mynediad at addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas i'w hanghenion.

### Tai a Digartrefedd

6.29 Credwn yn gryf y dylai pawb yng Nghymru gael lle teilwng i'w alw'n gartref, ac rydym wedi ymrwymo i'n nod o roi terfyn ar ddigartrefedd. Mae buddsoddi mewn tai o ansawdd da, cymorth tai, ac atal digartrefedd yn feysydd buddsoddi hanfodol i helpu i ddiogelu'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

6.30 Drwy'r Grant Cymorth Tai rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein newid at ddull atal ac ailgartrefu'n gyflym i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Mae'r rhaglen grant ymyrraeth gynnar hon i awdurdodau lleol yn cefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag colli eu cartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, ac yn helpu pobl sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y pandemig, rydym wedi dyrannu £40m yn ychwanegol yn 2021-22 i sicrhau newid trawsnewidiol er mwyn cyflawni ein huchelgais o roi terfyn ar ddigartrefedd. Cyflwynir rhagor o fanylion am effaith y cyllid hwn yn astudiaeth achos 2 yn atodiad C.

### Creu economi gynaliadwy

6.31 Gan adeiladu ar y cyfalaf sylfaenol o £40m ar gyfer datblygu busnes a datblygu economaidd rhanbarthol, byddwn yn dyrannu £5m arall o gyfalaf trafodion ariannol ar gyfer y Gronfa Ad-daladwy ar gyfer busnesau bach a chanolig o fewn Cronfa Dyfodol yr Economi. Mae hyn yn cefnogi ein huchelgeisiau wrth weithredu *Ffyniant i bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi* sy'n buddsoddi mewn pobl a busnesau ac a fydd yn cryfhau'r cynnig ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi'r cynllun ail-greu ac adfer ar ôl COVID-19. Byddai hefyd yn ein galluogi i ddarparu ymateb cadarnhaol a chydlynol i Brexit heb gytundeb neu, yn wir, yr heriau a ddaw yn sgil unrhyw gytundeb. Bydd hefyd yn gweithio ar y cyd â 'chynnig' Banc Datblygu Cymru megis Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru.

6.32 Mae'r pandemig wedi cyflymu'r angen i ailystyried sut rydym yn defnyddio canol trefi a dinasoedd. Rydym yn dyrannu £3m o refeniw ychwanegol i gefnogi'r stryd fawr, a chanol trefi a dinasoedd gan gydnabod eu cyfraniad pwysig at yr economi. Drwy ein dull "Canol Trefi yn Gyntaf", ein nod yw annog sawl rheswm i ymweld â chanol tref, nid yn unig i siopa, ond ar gyfer hamdden, gwasanaethau, byw, gweithio, a phrofiad ac annog ein partneriaid i leoli gwasanaethau. Mae cymunedau wrth wraidd y weledigaeth hon i greu amgylcheddau canol tref o ansawdd uchel sy'n cyfrannu at iechyd a lles pobl. Rydym hefyd yn dyrannu £1.4m o gyfalaf yn 2021-22 ar gyfer cynllun peilot sy'n cyd-fynd â'r dull "Canol Trefi yn Gyntaf". Mae'n ofynnol i awdurdodau'r sector cyhoeddus ystyried yr angen i roi iechyd a bywiogrwydd canol trefi wrth wraidd eu strategaethau lleoli a'u penderfyniadau buddsoddi.

6.33 I ategu'r gwaith hwn, rydym yn dyrannu £3m arall tuag at ddarparu cronfa i helpu i ledaenu ac ehangu arferion da yn gyflym ar draws yr economi sylfaenol. Mae'r economi sylfaenol yn darparu'r swyddi sydd wrth wraidd cymunedau lleol ar draws sectorau fel gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, twristiaeth, adeiladu, a manwerthu ar y stryd fawr – gan gyfrif am bedair swydd ym mhob deg ac £1 ym mhob £3 sy'n cael ei wario. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cefnogi canlyniadau cyflym ar draws ein blaenoriaethau ar gyfer yr economi sylfaenol gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, adeiladu, a chaffael.

6.34 Mae Cymru wedi bod yn genedl allforio lwyddiannus ers tro byd, gan allforio nwyddau a gwasanaethau ledled y byd. Roedd allforion nwyddau o Gymru yn werth £17.7bn yn 2019; ac yn 2018, roedd allforion nwyddau yn cyfateb i 23 y cant o gynnyrch domestig gros Cymru. Mae darparu gweithgareddau masnachu a buddsoddi yn rhan allweddol o'r Blaenoriaethau ar gyfer Ail-greu; er mwyn diogelu ac adeiladu cadernid economi Cymru yn wyneb COVID-19 a diwedd cyfnod pontio'r UE. Bydd cyllid ychwanegol o £1.6m yn helpu i gyflawni'r Cynllun Allforio newydd sy'n rhan o'n hymdrechion cyffredinol i gefnogi adferiad economaidd. Mae'n nodi camau gweithredu i helpu busnesau i adfer ac ailadeiladu eu hallforion wrth iddynt wynebu heriau yn sgil COVID-19 yn ogystal â diwedd cyfnod pontio'r UE. Bydd y Cynllun Allforio yn sbarduno twf allforion o Gymru, ac yn ailddyfeisio ac addasu ein cymorth allforio yn y tymor hwy.

### Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

6.35 Mae VAWDASV yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a'u plant, ac mae'r pandemig wedi dyfnhau a gwaethygu'r effaith hon. Roeddem yn gallu cynnig cymorth sylweddol i wasanaethau VAWDASV eleni mewn ymateb i'r galw cynyddol hwn. Rydym yn buddsoddi £1.6m yn ychwanegol yn 2021-22 i gefnogi gwaith ataliol, gan gynnwys addysg ynghylch cydberthnasau iach mewn ysgolion ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth o VAWDASV. Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo'n gyhoeddus i sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fenywod. Bydd cyllid yn cael ei gyfeirio at gyflawni amcanion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ac mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ers cyflwyno'r Ddeddf.

### Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid

6.36 Drwy weithio gyda theuluoedd yn y system gyfiawnder, rydym yn creu canlyniadau gwell nid yn unig iddynt hwy ond i'w plant ac i genedlaethau'r dyfodol. Bydd dyrannu £0.5m pellach i'r Glasbrintiau ar gyfer Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid yn galluogi cymorth parhaus gan y prosiect Ymweld â Mam, a hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma i bob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru. Y nod yw dargyfeirio plant a menywod o'r system cyfiawnder troseddol a helpu i adsefydlu ac atal aildroseddu. Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn y Glasbrintiau yn helpu i ddarparu gwelliannau ystyrlon sy'n pontio'r cenedlaethau ym mywydau rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

### Gwasanaethau Cynghori

6.37 Er bod pandemig y coronafeirws yn effeithio ar bawb, mae'r dystiolaeth yn glir mai'r bobl sydd o dan yr anfantais fwyaf yng Nghymru fydd yn teimlo'r effeithiau ariannol mwyaf difrifol yn sgil yr argyfwng. O ganlyniad, rydym yn disgwyl y bydd effeithiau cyfunol COVID-19 a phontio Ewropeaidd yn parhau i gynyddu'r galw ar wasanaethau cynghori. Bydd hi'n bwysicach nag erioed i bobl allu cael cyngor diduedd ac am ddim ar ddyledion, cyflogaeth, cynyddu incwm, a materion ynghylch budd-daliadau lles.

6.38 Felly, rydym yn darparu cynnydd o £1.1m mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori yn 2021-22 i gydnabod ein hymrwymiad i wasanaethau cynghori ar les cymdeithasol sy'n helpu i sicrhau darpariaeth gynaliadwy gydgysylltiedig, costeffeithiol, a hygyrch o wasanaethau cynghori ar les cymdeithasol sydd â sicrwydd ansawdd. Mae dros 80 y cant o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau cynghori yn dod o grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal, mae cynyddu incwm yn weithgaredd allweddol a ddarperir drwy'r Gronfa Gynghori Sengl, a rhwng mis Ionawr a mis Medi 2020, mae gwasanaethau wedi helpu pobl i hawlio dros £20m o incwm ychwanegol drwy fudd-daliadau lles.

6.39 Mae gennym hefyd hanes balch o gefnogi Undebau Credyd, sy'n amlwg iawn yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi drwy gefnogi cynhwysiant ariannol ac adeiladu cadernid ariannol. Yn 2021-22, rydym yn darparu £1.5m yn ychwanegol o gyfalaf trafodion ariannol i sicrhau y gall undebau credyd, yn awr yn fwy nag erioed, roi cymorth i'w haelodau ymdopi â'r cyfnod digynsail sydd o'n blaenau.

### Y Trydydd Sector a Gwirfoddoli

6.40 Mae'r trydydd sector, a'r gwirfoddolwyr y mae'n eu cefnogi, wedi chwarae rhan hanfodol yn ein hymateb i'r pandemig, a byddant yn parhau i helpu i gefnogi unigolion a chymunedau yn ystod yr adferiad. Mae gwaith amrywiol y 30,000 o sefydliadau trydydd sector yng Nghymru yn cyfrannu at waith atal, o ddarparu amrywiaeth o ymyriadau cynnar megis presgripisynu cymdeithasol a chymorth blynyddoedd cynnar, i gefnogi unigolion mewn argyfwng. Ar ben hyn, ers mis Mawrth, mae dros 21,000 o wirfoddolwyr wedi ymuno â phorth Gwirfoddoli Cymru Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, er ein bod yn gwybod bod llawer mwy o bobl yn gwirfoddoli drwy fentrau lleol ac yn fwy anffurfiol.

6.41 Gwyddom hefyd fod disgwyl i incwm ar gyfer y sector grebachu gyda gweithgarwch codi arian wedi'i gwtogi'n sylweddol, ac mae hyn yn debygol o barhau tra bo mesurau COVID-19 mewn grym. Felly, rydym wedi dyrannu £700,000 yn ychwanegol i gefnogi'r trydydd sector yn ystod 2021-22, gan eu galluogi i barhau i gefnogi'r unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi darparu £3m o gyllid COVID-19 i'r sector wrth iddo barhau i chwarae rhan flaenllaw yn ein hymateb i'r pandemig.

### Y Gymraeg

6.42 Rydym wedi diogelu'r gyllideb o £20.9m i hyrwyddo'r Gymraeg, a £12.7m ar gyfer y Gymraeg ym maes addysg yn 2021-22, wrth inni barhau i ymrwymo'n llawn i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chynyddu'r ganran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd o 10 y cant i 20 y cant, fel y nodir yn *Cymraeg 2050*. Bydd y cyllid yn helpu i gefnogi gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, a gynhelir gan ein partneriaid gwerthfawr megis ein hysgolion, y Mentrau Iaith, yr Urdd, Merched y Wawr, a Ffermwyr Ifanc. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n diwylliant a'n bywydau bob dydd, ac felly mae llawer o waith trawsbynciol ar draws y Llywodraeth i bryf ffrydio'r Gymraeg. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y mudiadau a'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu, gan gynnwys yr holl wasanaethau llywodraeth leol sy'n darparu gwasanaethau allweddol, megis ysgolion. Yn ystod y pandemig, gwnaethom ddarparu cyllid i ddiogelu sefydliadau a digwyddiadau Cymraeg, a lliniaru effaith yr argyfwng. Roedd hyn yn cynnwys £3.1m o gyllid cyfalaf ychwanegol i'r Urdd er mwyn ei chefnogi tra nad oedd modd creu incwm o'i chanolfannau preswyl, a £0.5m i'r Eisteddfod Genedlaethol i gefnogi costau a oedd yn gysylltiedig â gohirio Eisteddfod Tregaron.

### Y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol

6.43 Dylai pobl allu cysgu'n ddiogel yn eu cartrefi heb boeni am lifogydd ac erydu arfordirol, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol. Rydym yn buddsoddi cyllid sylweddol i roi'r sicrwydd hwnnw i bobl. Rydym yn buddsoddi £58.6m (refeniw o £30.6m a chyfalaf o £28m) mewn amddiffynfeydd llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol yn 2021-22 ac, yn unol â'n hymrwymiad tymor hwy, rydym yn darparu £3.4m pellach o refeniw ar ben y £4m sydd wedi'i gynnal ers 2020-21, ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol. Bydd hyn yn cyllido hyd at 13 o gynlluniau amddiffyn arfordirol ledled Cymru, a allai leihau'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn awr ac yn y dyfodol i dros 16,600 o eiddo, os bydd modd rhoi'r holl gynlluniau hyn ar waith y flwyddyn nesaf.

## Adeiladu

6.44 Mae ein buddsoddiadau cyfalaf yn sbardun allweddol i adeiladu ar gyfer dyfodol mwy gwyrdd, drwy sicrhau bod ein blaenoriaethau o ran seilwaith yn cyd-fynd â'n hamcanion cyffredinol ar gyfer datgarboneiddio a bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, rydym yn cynnal ac yn adeiladu ar y sylfaen a ddarperir drwy'r pecyn buddsoddi gwerth £140m a gyhoeddwyd gennym yng Nghyllideb 2020-21 i helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

6.45 Bydd y seilwaith yr ydym yn buddsoddi ynddo ac yn ei adeiladu heddiw yn cael ei ddefnyddio ddegawdau lawer yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud yn awr, er mwyn sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl y gall buddsoddi mewn seilwaith eu cyflawni. Byddwn yn gwneud hynny gan osgoi cloi allyriadau carbon yn y dyfodol a chreu anawsterau, wrth gyflawni ein targedau lleihau carbon ochr yn ochr â chydnabod effeithiau seilwaith ar fioamrywiaeth.

6.46 Wrth gydbwyso anghenion tymor byr a thymor hwy, rydym hefyd yn cydnabod y sbardun economaidd y mae seilwaith yn ei ddarparu ar adeg pan fo cymaint o angen amdano. Mae'r Gyllideb hon yn cefnogi swyddi a thwf economaidd, gan ddarparu rhwydwaith seilwaith y mae ar Gymru ei angen, gan bob amser adlewyrchu'n glir realiti'r argyfwng hinsawdd sy'n ein hwynebu.

### Tai

6.47 Credwn y dylai pawb yng Nghymru gael lle teilwng i'w alw'n gartref ac na ddylai neb fod yn ddigartref. Mae buddsoddi mewn tai o ansawdd da, cymorth tai, ac atal digartrefedd yn feysydd buddsoddi hanfodol i helpu i ddiogelu'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

6.48 Er mwyn diwallu'r angen, gwyddom fod rhaid inni anelu at adeiladu tua 3,500 o gartrefi fforddiadwy, cymdeithasol yn bennaf, bob blwyddyn. Bydd gwneud y cartrefi hyn yn wyrdd ac yn gynaliadwy yn lleihau tlodi tanwydd, yn gwella lles y bobl sy'n byw ynddynt, ac yn cyfrannu at leihau ein hallyriadau carbon.

6.49 Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Gyllideb hon yn darparu £37m yn ychwanegol ar ben y cyllid presennol, gan olygu y byddwn yn buddsoddi £200m mewn grantiau stoc tai cymdeithasol yn 2021-22.

6.50 Mae buddsoddi mewn tai o ansawdd da yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd y bobl sy'n byw ynddynt, gan helpu i leihau'r pwysau ar gyllidebau a gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol. Am bob £1.20 sy'n cael ei wario ar gartrefi addas, mae'r trethdalwr yn arbed £1.80 ar gost pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Mae ein cymorth i landlordiaid cymdeithasol hefyd yn sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei chyflawni a'i chynnal, a bod ein cartrefi cymdeithasol yn hawdd a rhad i'w cadw'n gynnes, gan hefyd leihau ein hôl troed carbon.

6.51 Rydym hefyd yn cyflwyno Cam 3 Cymorth i Brynu – Cymru, i gefnogi ein huchelgais ar gyfer tai fforddiadwy, gyda dyraniad o £74m mewn cyfalaf trafodion ariannol. Drwy'r benthyciadau ecwiti a rennir i brynwyr, mae'r cynllun hwn yn galluogi pobl i brynu eu cartref eu hunain. Mae hefyd yn rhan bwysig o'n hadferiad economaidd, gan ysgogi twf yn y diwydiant adeiladu tai a chadwyni cyflenwi cysylltiedig. Bydd gofynion y cynllun yn cefnogi ein hamcan ar gyfer safonau uwch, gan osod safonau gofod ac ansawdd uwch, a pharodrwydd band eang. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod eiddo'n bodloni disgwyliadau perchnogion cartrefi newydd wrth iddynt brynu eu cartref, sef un o'r pethau mwyaf arwyddocaol y byddant yn ei brynu yn eu bywydau.

6.52 Yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell, mae adeiladau preswyl uchel iawn yn parhau i wynebu amrywiaeth o wendidau diogelwch adeiladu systemig. Ein barn bendant o hyd yw na ddylai lesddeiliaid unigol orfod talu am ddiffygion o ran ansawdd adeiladau pan fo methiant amlwg wedi bod i adeiladu yn unol â'r safonau. Byddwn yn parhau i bwyso ar ddatblygwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau moesol ac unioni'r adeiladau hyn.

6.53 Fodd bynnag, pan fo'n briodol i'r llywodraeth ddarparu cymorth i sicrhau diogelwch cartrefi pobl, rydym wedi ymrwymo i wneud hynny, ac i wneud hynny yn awr. Rydym yn cydnabod y pryderon iechyd meddwl sylweddol a'r potensial i bobl sy'n byw yn yr adeiladau hyn fod angen cymorth ariannol a chymorth ehangach ychwanegol. Felly, gan adeiladu ar y £10.6m yr ydym wedi'i ddarparu yn y flwyddyn ariannol gyfredol hon, yn 2021-22 rydym yn darparu £32m (cyfalaf cyffredinol o £20m a chyfalaf trafodion ariannol o £12m) i helpu i fynd i'r afael â phryderon diogelwch adeiladau. O ystyried graddfa'r mater hwn, bydd y buddsoddiad yn darparu sylfaen gadarn drwy unioni diffygion adeiladu, a helpu i osod systemau chwistrellu a systemau rhybudd gwacáu mewn nifer o adeiladau uchel iawn yr effeithir arnynt.

### Buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd

6.54 Drwy fynd i'r afael â thlodi tanwydd, rydym yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at liniaru ystod o effeithiau negyddol y tu hwnt i anghenion iechyd, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol plant, ac amser i ffwrdd o'r ysgol a'r gwaith oherwydd salwch. Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth leihau allyriadau carbon.

6.55 Gwnaeth cynllun Cartrefi Clyd Arbed wella 1,945 o gartrefi ar draws 19 o brosiectau ar wahân mewn 10 ardal awdurdod lleol yn 2019-20. Yn ogystal, darparodd y cynllun Cartrefi Clyd Nyth becyn gwella ynni cartrefi i 4,544 o aelwydydd, ac arbed, ar gyfartaledd, £282 y flwyddyn ar filiau ynni.

6.56 Mae ein rhaglenni ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni'r sector cyhoeddus, gyda chymorth Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, hefyd yn canfod ffyrdd o ddatgarboneiddio'r system ynni ar lefel leol er budd lleol. Yn 2019-20, cefnogodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru brosiectau a fydd yn darparu arbedion ar filiau ynni ac incwm gydol oes i'r sector cyhoeddus gwerth bron i £57m, ac incwm gydol oes i grwpiau ynni cymunedol gwerth bron i £15m. Gyda'i gilydd, bydd y prosiectau a gefnogir yn arbed 146,000 tunnell o garbon deuocsid dros eu hoes.

6.57 Yn 2021-22 rydym yn dyrannu £20m yn ychwanegol (£15m o gyllid cyfalaf a £5m o refeniw) ar ben cyllidebau presennol i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein rhaglenni tlodi tanwydd ac ynni adnewyddadwy, gan olygu y byddwn yn buddsoddi cyfanswm o £40m yn y rhaglenni hyn yn 2021-22.

### Buddsoddi mewn trafnidiaeth gynaliadwy a thrafnidiaeth gyhoeddus

6.58 Mae'r Gyllideb hon yn darparu ar gyfer buddsoddiad allweddol mewn trafnidiaeth gyhoeddus i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy, gan gynnal ein rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus presennol yn ystod y pandemig ac at y dyfodol wrth inni adfer o'r argyfwng. Rydym yn cydnabod gwerth trafnidiaeth gyhoeddus o ran cynnal mynediad at swyddi, gwasanaethau iechyd, addysg, a hamdden. Yn benodol, yn ystod y pandemig, mae trafnidiaeth gyhoeddus wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod llawer o weithwyr allweddol yn gallu cyrraedd eu man gwaith.

6.59 Mae'r Gyllideb hon yn darparu £275m o gyllid cyfalaf i helpu i barhau i ddatblygu Metro De Cymru a chynlluniau seilwaith rheilffyrdd eraill i wella gwasanaethau ledled Cymru, gan gynnwys parhau i ddatblygu a darparu Metro Gogledd Cymru a Metro De-orllewin Cymru. Mae'r buddsoddiadau hyn yn hanfodol i helpu i gyflawni ein huchelgais ar gyfer newid moddol, datgarboneiddio dulliau trafnidiaeth, a gwell mynediad at swyddi, gwasanaethau, addysg, a hamdden i bawb.

6.60 Ochr yn ochr â chynnal nifer o ddyraniadau penodol presennol, rydym hefyd yn darparu £20m yn ychwanegol o gyllid cyfalaf yn 2021-22, gan olygu y byddwn yn buddsoddi cyfanswm o oddeutu £55m mewn prosiectau ac ymyriadau teithio llesol. Mae buddsoddi mewn teithio llesol yn sicrhau gwell mynediad drwy deithio llesol at gyflogaeth, addysg, gwasanaethau allweddol, a chyrchfannau allweddol eraill sy'n cynhyrchu traffig, gan gynyddu lefelau teithio llesol a chysylltu cymunedau. Gall buddsoddi mewn teithio llesol wella canlyniadau iechyd meddwl a chorfforol yn sylweddol, drwy gynyddu gweithgarwch corfforol, lleihau llygredd aer, cynyddu cyfleoedd i fwynhau'r awyr agored, a chynyddu rhyngweithio cymdeithasol.

### Trawsnewid cerbydau trydan

6.61 Gan adeiladu ar y £28m sy'n helpu i barhau i ddatgarboneiddio ein fflyd trafnidiaeth gyhoeddus, ac yn gwella ein seilwaith gwefru, rydym yn dyrannu £10m yn ychwanegol o gyfalaf trafodion ariannol, gan olygu y byddwn yn buddsoddi cyfanswm o £38m yn 2021-22. Bydd hyn yn cefnogi’r newid i gerbydau allyriadau isel sy'n helpu i wella ansawdd aer, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ac yn cyfrannu at yr ymdrech i fynd i'r afael â’r newid yn yr hinsawdd.

### Rhwydwaith ffyrdd strategol

6.62 Rydym yn dyrannu £15m yn ychwanegol fel rhan o'n cyfrifoldeb statudol i gynnal y rhwydwaith ffyrdd strategol, sy'n ased gwerth £17bn. Golyga hyn ein bod yn darparu cyfanswm o £168m (sef cyllid cyfalaf a refeniw) ynghyd ag £11.5m yn ychwanegol i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r rhwydwaith hwn yn darparu'r priffyrdd nid yn unig i'r cyhoedd sy'n teithio, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, ond hefyd mae’n allweddol i gludo nwyddau ac yn allweddol ar gyfer diwydiant, gan ddiogelu swyddi. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn helpu drwy ymyriadau cyfalaf mwy ataliol i leihau dirywiad yn strwythurau asedau. Nid yn unig y mae gwaith cynnal a chadw rhagweithiol yn helpu i atal ffyrdd rhag cau a gwella llif traffig, gan arwain at lai o dagfeydd, mae hefyd yn ein galluogi i barhau i hyrwyddo bioamrywiaeth drwy ein strategaeth *Coridorau Gwyrdd* ar gyfer menter y Rhwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd.

### Buddsoddi yng nghanol ein trefi

6.63 Mae'r pandemig wedi cyflymu newidiadau i’r stryd fawr, a chanol ein trefi a'n dinasoedd, gan dynnu sylw at yr angen i ailystyried sut rydym yn defnyddio mannau cyhoeddus ar gyfer hamdden, dysgu, a byw. Mae hefyd wedi ailbwysleisio'r angen am wasanaethau hygyrch lleol.

6.64 Mae Tasglu'r Cymoedd yn un o ymrwymiadau allweddol y Llywodraeth i helpu cymunedau Cymoedd y De i fod yn fwy llewyrchus a chadarn. Mae’r ardal hon ymysg y rhai sydd wedi cael eu taro galetaf gan y pandemig o ran cyflogaeth, cyrhaeddiad addysgol, a thlodi. Er y bydd y rhaglen yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, mae effeithiau COVID-19 wedi gohirio rhai o'r cynlluniau cyfalaf blaenllaw allweddol. Felly, rydym yn dyrannu £9m o gyllid cyfalaf i Dasglu'r Cymoedd yn 2021-22, er mwyn gwireddu ein hymrwymiadau i sicrhau bod cannoedd o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio eto drwy'r grant cartrefi gwag.

6.65 Rydym yn bwriadu buddsoddi £1.4m yn 2021-22 mewn cynllun peilot sy'n cyd-fynd â'n dull "Canol Trefi yn Gyntaf”. Bydd awdurdodau'r sector cyhoeddus yn ystyried yr angen i roi iechyd a bywiogrwydd canol trefi wrth wraidd eu strategaethau lleoli a'u penderfyniadau buddsoddi.

6.66 I gydnabod pwysigrwydd asedau cymunedol, rydym yn dyrannu £1m yn ychwanegol mewn cyfalaf trafodion ariannol yn 2021-22 i Gronfa Fenthyca Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer Asedau Cymunedol. Bydd y cyllid yn cael ei gynnig i sefydliadau'r trydydd sector a oedd yn anelu at brynu a/neu wella asedau cymunedol, gan gynnwys tir ac adeiladau, a’r rhai yng nghanol trefi. Mae cyfleusterau cymunedol yn darparu mynediad lleol at amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys hyfforddiant, gwasanaethau cynghori, cyfleoedd i gymdeithasu a gwirfoddoli, a gweithgareddau iechyd a lles, megis dosbarthiadau ymarfer corff a grwpiau colli pwysau.

6.67 Mae'r Gyllideb hon yn darparu £5m ychwanegol o gyfalaf trafodion ariannol yn 2021-22 i gefnogi ein gweithgareddau adfywio ehangach drwy ein rhaglen Benthyciadau Canol Trefi. Bydd y gronfa'n gatalydd i ddechrau ailddefnyddio adeiladau gwag a segur yng nghanol trefi, gan eu hailddatblygu fel siopau, cartrefi, a chyfleusterau hamdden, a denu ymwelwyr i gefnogi busnesau i dyfu a ffynnu yn awr ac yn y dyfodol.

### Ysgolion carbon sero-net

6.68 Rydym yn parhau i fuddsoddi cyllid sylweddol yn ein Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif i ddarparu'r amgylchedd gorau i ddysgwyr, yn ogystal â chefnogi ac ysgogi diwydiant adeiladu Cymru a chadwyni cyflenwi cysylltiedig. Drwy'r Gyllideb ddrafft hon, rydym yn buddsoddi £40m yn ychwanegol o gyfalaf cyffredinol yn 2021-22, yn ogystal â £2.6m o gyfalaf trafodion ariannol i gefnogi’r elfen Model Buddsoddi Cydfuddiannol o Fand B. Gwneir y dyraniadau hyn ar ben cyllidebau presennol, gan olygu bod ein cyllideb seilwaith addysg yn werth dros £240m yn 2021-22. Cyflwynir rhagor o fanylion am effaith y cyllid hwn yn astudiaeth achos 4 yn atodiad C.

6.69 Mae’r £40m ychwanegol hwn yn cynnwys £5m o gyllid cyfalaf yn 2021-22 i fwrw ymlaen â Phrosiect Peilot Di-garbon i ddatgarboneiddio ysgolion a cholegau yng Nghymru. Bydd y cyllid yn helpu partneriaid cyflawni i drawsnewid y seilwaith addysg yng Nghymru wrth inni barhau i bontio tuag at ystadau ysgolion ac addysg bellach cynaliadwy. Gweler astudiaeth achos 5 yn atodiad C am ragor o fanylion.

### Buddsoddi yn ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol

6.70 Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at ofynion y seilwaith iechyd yn 2020-21, gan ei gwneud yn bwysicach yn awr yn fwy nag erioed i ddarparu gwasanaethau hanfodol cynaliadwy yn 2021-22 a’r tu hwnt. Mae pwysigrwydd parhad gwasanaethau ar draws pob arbenigedd yn golygu bod angen datblygu’r llwybrau rhaglenni offer diagnostig ac arbenigol yn gyflym er mwyn bodloni gofynion cynyddol gwasanaethau.

6.71 Er mwyn diwallu'r angen hwn, byddwn yn darparu £10m yn ychwanegol o gyllid cyfalaf yn 2021-22, sef cyfanswm o £20m o fuddsoddiad, i sicrhau bod gan GIG Cymru fynediad at offer diagnostig allweddol i sicrhau y gall ddiwallu anghenion tymor byr a thymor hwy. Bydd rhaglenni offer newydd yn cynnwys sganwyr CT ac ystafelloedd fflwrosgopeg i helpu i fynd i'r afael ag amseroedd aros sylweddol i gleifion.

6.72 Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn datblygu Cynllun Cyflawni Strategol ar gyfer Datgarboneiddio'r GIG, a fydd yn cael ei gwblhau erbyn dechrau 2021, gan ganolbwyntio ar gamau i gyfyngu ar allyriadau carbon ar draws GIG Cymru. Bydd y Cynllun Cyflawni Strategol yn fan cychwyn ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol, ac mae'r Gyllideb hon yn darparu £6m o gyllid cyfalaf ychwanegol, sef cyfanswm o £16m o gyllid yn 2021-22, i fanteisio ar y cyfleoedd hyn i wella effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

6.73 Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn golygu y byddwn yn buddsoddi cyfanswm o dros £380m o gyfalaf yn 2021-22 mewn Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys £45m i ddatblygu Canolfannau Iechyd a Lles sydd ar y gweill.

6.74 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rhaglen waith i ddeall yn well lefel yr allyriadau carbon sy'n deillio o'i phenderfyniadau cyllidebol, ac mae'r dadansoddiad dros dro cyntaf – sy'n edrych ar wariant Llywodraeth Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – wedi'i gynnwys fel atodiad i Adroddiad y Prif Economegydd.

### Cefnogi ein sefydliadau cenedlaethol a'n sector twristiaeth a’n sector creadigol

6.75 Rydym yn buddsoddi £8m o gyllid cyfalaf ychwanegol i gefnogi'r sector twristiaeth a’r sector creadigol sy’n allweddol i’n heconomi. Rydym hefyd yn darparu cyllid i'n cyrff a noddir i gynnal yr ystad a chynnal amrywiaeth o raglenni datgarboneiddio a thrawsnewid digidol, a chefnogi bioamrywiaeth.

6.76 Mae pob un o'n cyrff a noddir yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon ac, yn fwyaf arwyddocaol, mae'r buddsoddiad hwn yn darparu cyllid cychwynnol ar gyfer y datblygiad yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, yn ogystal â mentrau i leihau ôl troed carbon Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru – Plas Menai. Mae tystiolaeth gref hefyd fod buddsoddi mewn diwylliant a chwaraeon yn cyfrannu at les corfforol a meddyliol.

6.77 Nid yn unig y mae'r sector twristiaeth a’r sector creadigol yn allweddol i economi Cymru, maent hefyd ymhlith y rhai sydd wedi cael eu taro galetaf gan y pandemig. Bydd buddsoddi yn y sectorau hyn i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael ar bob lefel o gymwysterau yn helpu i liniaru rhai o'r heriau yn ystod yr adferiad.

6.78 Mae twristiaeth yn allweddol i'r economi sylfaenol; gwnaeth ymwelwyr dros nos â Chymru wario £2.5bn yn 2019. Mae'r sector yn cyflogi mwy na 130,000 o bobl, gan gyfrannu at 10 y cant neu fwy o’r gyflogaeth mewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol. Y sector creadigol yw un o'r rhai sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru, gyda throsiant blynyddol o fwy na £2.2bn ac yn cyflogi dros 56,000 o bobl.

### Buddsoddi mewn iechyd corfforol a meddyliol

6.79 Rydym wedi ymrwymo i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a phwysigrwydd atal salwch. Mae'r buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £2m yn 2021-22 mewn cyfleusterau chwaraeon lleol yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i £5m. Mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch awyr agored. Mae hyn hefyd yn bwysig o ran sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gystadlu'n rhyngwladol ac i helpu i gynnal digwyddiadau rhyngwladol, gan ddarparu cyfle unigryw i hyrwyddo brand Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn y dyfodol. Mae ymchwil gan Chwaraeon Cymru yn nodi bod elw o £2.88 am bob £1 a fuddsoddir mewn chwaraeon yng Nghymru, a bod cymryd rhan a gwirfoddoli mewn chwaraeon yn 2016-17 wedi creu gwerth tua £3.5m o fanteision i gymunedau Cymru.

### Economi Gylchol

6.80 Daw 45 y cant o allyriadau o'r nwyddau yr ydym yn eu cynhyrchu a'u defnyddio. Felly, mae dull economi gylchol sy'n cadw adnoddau mewn defnydd cyhyd ag y bo modd, ac sy'n osgoi gwastraff, yn allweddol i wneud cynnydd tuag at ein hamcanion sero-net. Mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw at wendidau allweddol mewn cadwyni cyflenwi, a gall canolbwyntio ar economi gylchol helpu i gwtogi’r cadwyni cyflenwi hynny, gan wella ein cadernid economaidd ac amgylcheddol. Gan adeiladu ar y camau yr ydym eisoes wedi'u cymryd i gefnogi busnesau a chyrff cyhoeddus i ddefnyddio mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, rydym yn ymrwymo £26.6m yn ychwanegol (£6.6m o refeniw ac £20m o gyllid cyfalaf), gan olygu y byddwn yn buddsoddi cyfanswm o fwy nag £80m yn 2021-22.

6.81 Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i barhau â'n gwaith nid yn unig i wella ailgylchu, ond hefyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar ehangiad cyflym Caffis Trwsio i greu hybiau yng nghanol trefi a hybiau cymunedol ledled Cymru y gall pobl fynd â nwyddau iddynt i'w trwsio, neu i gael gafael ar eitemau i'w hail-ddefnyddio. Yn ogystal, bydd Cronfa'r Economi Gylchol yn parhau i gefnogi cyrff a ariennir gan gyllid cyhoeddus. Mae’r cymorth hwn eisoes wedi ariannu 112 o brosiectau sy’n rhoi camau gweithredu ar waith mewn ysgolion, prifysgolion, ysbytai, awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, a chymunedau ledled Cymru.

### Bioamrywiaeth a’r Fforest Genedlaethol

6.82 Rydym yn dyrannu £5m yn ychwanegol ar gyfer bioamrywiaeth a’r Fforest Genedlaethol, gan ddarparu cyfanswm o £32m o gyllid yn 2021-22. Bydd hyn yn ein galluogi i adeiladu ar y prosiectau a’r rhaglenni sydd eisoes wedi’u sefydlu gennym i helpu i gyflawni ein hymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth, a mynd i’r afael ag argyfwng byd natur ac argyfwng yr hinsawdd. Byddwn yn gwneud hyn gan sicrhau bod ein hadferiad o COVID-19 yn un gwirioneddol wyrdd. Mae hyn yn cynnwys parhau i weithredu i gefnogi adferiad **Natura 2000** a safleoedd gwarchodedig eraill, sy’n hafan i’n rhywogaethau a’n cynefinoedd mwyaf gwerthfawr sydd dan fygythiad. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi yn adferiad ein **Mawndiroedd** drwy’r **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP)**, gan fod o fudd i fioamrywiaeth a helpu i liniaru effeithiau’r newid yn yr hinsawdd drwy ddal mwy o garbon ac atal llifogydd. Yn ogystal, byddwn yn parhau i ddatblygu’r **Fforest Genedlaethol** i ddarparu cyfleoedd i hybu bioamrywiaeth drwy goetiroedd sydd wedi’u cysylltu a’u rheoli’n well.

## Newid

6.83 Mae tegwch a chydraddoldeb ymysg egwyddorion craidd y Llywodraeth hon, ac mae’r Gyllideb hon yn rhoi ein gwerthoedd ar waith. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at ein hanghydraddoldebau cymdeithasol, gan effeithio fwyaf ar rai o'r bobl fwyaf bregus yn economaidd ac yn gymdeithasol. Fel llywodraeth, rydym yn mynd ati i ddeall ac ymateb i'r heriau digynsail hyn, ac mae ein dull gweithredu yn parhau i ganolbwyntio ar effeithiau'r pandemig ar grwpiau gwarchodedig yng Nghymru. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ddyraniadau ychwanegol yr ydym yn eu gwneud yn y Gyllideb hon i gyflawni ein huchelgais i hyrwyddo newid ar gyfer Cymru fwy ffyniannus, mwy cyfartal a gwyrddach.

### Buddsoddi mewn plant a phobl ifanc

6.84 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar blant o gymunedau difreintiedig. Rydym yn dyrannu £2.2m yn ychwanegol i'r Rhaglen Gwella Gwyliau Ysgol, gan bron â dyblu ein buddsoddiad i £4.9m yn 2021-22. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i hyd at 14,000 o blant 7-11 oed wneud mwy o weithgarwch corfforol, bwyta'n iach, a datblygu cyfeillgarwch, gan hefyd wneud y mwyaf o gyfleusterau ysgol lleol mewn ardaloedd difreintiedig yn ystod gwyliau'r haf.

### Buddsoddi mewn addysg

6.85 I gydnabod ein huchelgais parhaus i gyflwyno cwricwlwm o'r radd flaenaf, rydym yn buddsoddi £8.3m yn ychwanegol yn 2021-22 i helpu ysgolion i drosglwyddo i'r cwricwlwm diwygiedig. Bydd y cyllid hwn yn helpu i wireddu'r cwricwlwm ym mhob ysgol, gan gefnogi ymgysylltiad ymarferwyr yn y Rhwydwaith Cenedlaethol, cam nesaf ysgolion arloesi, Cymwysterau Cymru, a chefnogi datblygiad parhaus y cwricwlwm ac adnoddau dwyieithog cysylltiedig. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cynnal £1m o fuddsoddiad i gefnogi mynediad at fwy o gyfleoedd chwarae yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r cyllid hwn yn galluogi cynlluniau gwaith chwarae cymunedol i agor eu drysau i ragor o blant, gan ddarparu prydau a byrbrydau iach. Mae helpu plant i chwarae yn bwysicach nag erioed wrth inni eu helpu i adfer o ddigwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf.

6.86 Drwy feithrin mwy o degwch o fewn ein system addysg, rydym yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Rydym yn parhau i fuddsoddi mwy nag erioed, sef dros £100m, yn y Grant Datblygu Disgyblion yn 2021-22. Ar ben hyn, rydym yn dyrannu £2m yn ychwanegol ar gyfer cronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion, gan olygu y bydd cyfanswm o dros £10m o gyllid yn cael ei ddarparu y flwyddyn nesaf. Mae'r cynllun hwn yn helpu teuluoedd dysgwyr sydd o dan anfantais ac sy'n fregus i dalu'r costau bob dydd sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys gwisg ysgol, ac offer ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol.

6.87 Ers dros ddegawd, rydym wedi darparu cyllid penodol i gefnogi canlyniadau gwell i blant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Gwyddom fod COVID-19 wedi effeithio'n anghymesur ar y grŵp hwn o blant. Felly rydym yn ychwanegu £1m o gyllid at y Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan olygu y bydd yn werth cyfanswm o £11m yn 2021-22. Defnyddir y grant i helpu i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o'r cefndiroedd hyn rhag cyrraedd eu potensial llawn, megis datblygu sgiliau iaith a meithrin cydberthnasau i annog presenoldeb yn yr ysgol.

### Buddsoddi mewn cyflogaeth

6.88 Er bod y pandemig wedi amlygu pa mor fregus yw rhai sectorau o'r economi, mae hefyd wedi rhoi cyfle gwerthfawr i ailystyried ein cymdeithas a'n heconomi. Bydd ein buddsoddiadau'n cael eu harwain gan yr angen i gynyddu ein cadernid yn y dyfodol yn wyneb yr argyfwng hinsawdd sydd ar ddod, ac effeithiau eraill yn y dyfodol. Gwyddom y bydd trosglwyddo i economi fwy cynaliadwy yn gofyn am newidiadau i'r gweithlu a setiau sgiliau pobl yng Nghymru. Felly, rydym wedi ymrwymo i helpu pobl i gael gwaith diogel a darparu llwybrau ailhyfforddi o safon ar gyfer gyrfaoedd cynaliadwy.

6.89 Yr hyn sy'n allweddol i'r uchelgais hwn yw gwella hygyrchedd addysg bellach ac uwch i bobl yng Nghymru, ni waeth beth fo'u hoedran na ble maent arni yn eu gyrfaoedd. Yn 2021-22, rydym yn dyrannu £5.4m yn ychwanegol i ehangu ein rhaglen Cyfrif Dysgu Personol i ddarparu cymorth i bobl gyflogedig, gweithwyr ar ffyrlo, neu unigolion sydd mewn perygl o gael eu diswyddo, er mwyn ennill sgiliau a chymwysterau lefel uwch mewn sectorau â blaenoriaeth. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn o fudd uniongyrchol i'r rhai y mae'r pandemig yn effeithio'n negyddol arnynt, gan arwain at fwy o gyfleoedd i bobl newid gyrfaoedd neu uwchsgilio. Bydd hefyd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol yn y sectorau hyn. Cyflwynir rhagor o fanylion am effaith y cyllid hwn yn astudiaeth achos 3 yn atodiad C.

6.90 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol anghymesur ar rai o'r bobl fwyaf bregus yn y gweithle, yn enwedig y rhai sydd â'r sicrwydd lleiaf yn eu swyddi ac sydd â’r cyflogau isaf. Er mwyn diogelu'r gweithwyr hyn ymhellach, bydd £0.2m yn cael ei fuddsoddi i ddatblygu partneriaeth gymdeithasol a sicrhau hawliau gweithwyr fel y bydd yr hawliau hyn yn cael eu parchu, a'u bod ar flaen meddyliau cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus wrth inni adfer o'r pandemig.

6.91 Rydym wedi cynyddu’r buddsoddiad yng Nghynnig Gofal Plant Cymru, gan alluogi rhagor o deuluoedd i weithio, drwy eu cefnogi gyda chostau gofal plant. Gan adeiladu ar yr hawl gyffredinol i addysg gynnar, mae’r Cynnig yn darparu oriau ychwanegol o ofal plant wedi’i ariannu, ar gyfer rhieni plant 3 a 4 mlwydd oed. Rydym wedi cynyddu’r gyllideb sylfaenol o £60m i £75m yn 2021-22, a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod rhagor o rieni yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt.

### Buddsoddi mewn cydraddoldeb a chynhwysiant

6.92 Mae'r pandemig wedi amlygu a gwaethygu anghydraddoldebau yn ein cymunedau. Rydym yn credu mewn triniaeth deg i bawb ac, yn unol â'n blaenoriaeth ar gyfer Cymru fwy cyfartal, byddwn yn gweithio i sicrhau mynediad tecach at wasanaethau a chefnogi cyfleoedd i bawb.

6.93 Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Rydym yn credu mewn triniaeth deg i bawb. Gwyddom fod y pandemig wedi amlygu a gwaethygu anghydraddoldebau yn ein cymunedau. Rydym wedi dyrannu £1.1m yn ychwanegol i'r gyllideb cydraddoldeb a chynhwysiant yn 2021-22 i fwrw ymlaen â chamau gweithredu sy’n mynd i'r afael ag effeithiau gwahaniaethol y pandemig ar bobl Cymru, gan gynnwys Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a phobl anabl.

6.94 Mae mudiad Black Lives Matter wedi amlygu nifer o faterion allweddol o ran hiliaeth strwythurol ac agored y mae angen inni fynd i'r afael â hwy fel gwlad. Rydym wedi ymrwymo i goffáu a dathlu'n well y bobl hynny o gefndiroedd amrywiol ac ethnig sydd wedi cyfrannu at y Gymru sydd ohoni heddiw. Fel cam bach tuag at fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, bydd £0.6m yn cael ei ddyrannu yn 2021-22 i gefnogi ystod o gamau gweithredu i adlewyrchu hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn well yn ein sector diwylliannol. Bydd y buddsoddiad hwn yn dechrau helpu i unioni rhai o'r anghydraddoldebau strwythurol yng nghymdeithas Cymru, drwy wella cynrychiolaeth ddiwylliannol mewn mannau cyhoeddus, a thrwy feithrin perthynas fwy hyddysg â'n hanes.

6.95 Mae heriau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol enfawr yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus, sectorau eraill, a chymunedau yng Nghymru yn ehangach. Mae'n bwysig felly fod penderfyniadau a wneir yng Nghymru yn adlewyrchu amrywiaeth ac ystod barn pobl Cymru. Drwy ddyrannu £0.1m, byddwn yn buddsoddi i wella amrywiaeth a chynhwysiant mewn penodiadau cyhoeddus. Bydd system penodiadau cyhoeddus decach yn gwella ac yn cryfhau penderfyniadau Byrddau, yn sicrhau bod profiadau go iawn yn rhan o drafodaethau, ac yn adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru yn well.

### Manteisio i'r eithaf ar arloesedd digidol

6.96 Wrth i dechnolegau digidol ddod yn fwyfwy canolog i'n bywydau bob dydd, mae angen i wasanaethau cyhoeddus esblygu i ddiwallu ein hanghenion a'n disgwyliadau newidiol. Bydd darparu gwasanaethau cyhoeddus da, sy'n seiliedig ar anghenion y defnyddiwr (ni waeth a yw am ddefnyddio'r gwasanaeth yn ddigidol neu fel arall), yn dibynnu'n gynyddol ar i ba raddau y byddwn yn croesawu trawsnewid digidol. Mae'n amlwg y bydd graddfa a chyflymder newid technolegol ac arloesedd yn parhau i gael effaith fawr ar economi Cymru. Mae'r pandemig eisoes wedi cyflymu tueddiadau o ran awtomeiddio ac mae technoleg ddigidol wedi ein cysylltu â'n gilydd a'n galluogi i weithredu fel cymdeithas.

6.97 Mae'r pandemig wedi dangos ei bod yn bosibl, gyda'r offer digidol cywir, i newid pethau ar raddfa fawr yn gyflym er mwyn helpu i achub bywydau a diogelu'r rhai mwyaf bregus. Er mai rheidrwydd sydd wedi meithrin newid radical yn ein gallu i weithio gartref neu o bell, ymrwymiad i werthoedd wnaeth ysgogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddefnyddio technoleg Awtomatiaeth Ddeallus i ddarparu proses ddi-oed, a oedd ar gael 24 awr y dydd, bob dydd o'r wythnos, i wneud cais am brydau ysgol am ddim. Ein tasg nawr yw sicrhau mai'r arferion da hyn yw'r norm yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn hybu gallu digidol fel y bydd trawsnewid bob amser yn mynd law yn llaw â'n hamcan i greu Cymru fwy cyfartal. I gefnogi'r gwaith hwn, rydym yn darparu £4.9m yn ychwanegol ar gyfer Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru.

6.98 Mae'r sefydliad hwn yn rhan hanfodol o'n Strategaeth Ddigidol arfaethedig ar gyfer Cymru, a bydd yn dechrau ar ei ail flwyddyn o weithredu gan helpu i ddiwallu'r angen am hyfforddiant, rhannu arferion da, a chymorth arbenigol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau.

6.99 Yn ogystal â hyn, byddwn yn buddsoddi £2.8m yn ychwanegol ym Mhrosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, gan olygu y byddwn yn buddsoddi cyfanswm o £11.5m yn 2021-22. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i ddarparu cysylltedd a gwasanaethau digidol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan alluogi cydweithio a symudedd mwy effeithlon ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus.

### Sicrhau bod caffael yn cael yr effaith fwyaf bosibl

6.100 Mae caffael yn flaenllaw iawn yn ein gwaith i gyflawni ein hymrwymiad ar werth cymdeithasol. Drwy ddarparu £1.2m yn ychwanegol, rydym yn cryfhau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i helpu i gefnogi ein busnesau lleol drwy greu arbedion o ran effeithlonrwydd amser a chost. Gellir wedyn ailfuddsoddi’r arbedion hyn i helpu i ddarparu gwasanaethau rheng flaen i'n dinasyddion. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn adeiladu ar ein pŵer prynu i gefnogi economi Cymru yn well, gan helpu i ddiogelu'r gwaith o gyflawni dros 30 o fframweithiau caffael cenedlaethol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru, sy’n cyfrif am £300m o wariant y sector cyhoeddus.

### Gwella ein sylfaen dystiolaeth

6.101 Rydym wedi ymrwymo i wella'r ffordd yr ydym yn asesu effeithiau ein penderfyniadau cyllidebol. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, rydym yn buddsoddi £0.6m yn ychwanegol i dreblu maint sampl Cymru o'r Arolwg o Adnoddau Teulu a fydd yn ein helpu i ddeall incwm ac amgylchiadau byw aelwydydd ledled Cymru yn well er mwyn mynd i'r afael yn well ag anghydraddoldeb a thlodi. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn cefnogi'r gwaith o wella'r dull newydd a gyhoeddwyd gennym ochr yn ochr â'r Gyllideb hon i fonitro effaith ddosbarthiadol ein polisïau a'n gwariant.

6.102 Ochr yn ochr â hyn, ac yn awr yn ei ail flwyddyn, bydd £0.2m yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi yn Arolwg Masnach Cymru, sy'n parhau i ddarparu tystiolaeth hanfodol ar gyfer asesu effaith ymadawiad y DU â'r UE ar fasnach a busnes yng Nghymru. Bydd yr Arolwg yn parhau i chwarae rhan yn y gwaith o gynrychioli buddiannau Cymru mewn trafodaethau masnach yn y dyfodol.

# Pennod 7: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru

## Cyllideb gwariant Cymru

7.01 Mae gwariant datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2021-22 yn cynnwys dyraniadau o £20bn i Brif Grwpiau Gwariant (MEGs) Llywodraeth Cymru.

7.02 Cafodd Cyllideb Derfynol 2020-21 ei hailddatgan fis Rhagfyr 2020 i adlewyrchu newidiadau i bortffolios Gweinidogion. Mae atodiad ailddatgan wedi'i gyhoeddi ar dudalen we Cyllideb ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2021-2022. Mae Tabl 7.5[5] ynghylch *cysoni addasiadau i'r llinell sylfaen cyfalaf* yn nodi manylion y newidiadau rhwng y cynlluniau fel yr oeddent yng Nghyllideb Derfynol 2020-21 (wedi'i hailddatgan), a llinellau sylfaen cyfalaf 2021-22.

7.03 Mae Tabl 7.1 yn dangos yr elfennau o gyllideb gwariant Cymru, wedi'u rhannu yn ôl MEG, a chyllidebau dangosol Comisiwn y Senedd, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r tabl hefyd yn dangos cyllid cronfeydd wrth gefn sydd heb eu neilltuo. Mae dyraniadau MEG yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir ym mhennod chwech, ac mae'r rhain yn ffurfio ein cyfansymiau rheoli ar gyfer rheoli'r Gyllideb drwy gydol y flwyddyn.

[5] Mae hyn yn dangos ffigurau Cyllideb Terfynol 2020-21 wedi'u haddasu i ddileu cyllid sy'n gyfyngedig o ran amser, gan gynnwys yr holl ddyraniadau ac ad-daliadau cyfalaf trafodion ariannol -sy'n golygu bod holl ddyraniadau FTC 2021-22 wedi'u gwneud o linell sylfaen sero. Yn ogystal, mae dyraniadau Cronfa Bontio'r UE wedi'u dileu, fel y mae'r rhan fwyaf o gyllideb gyfalaf Trafnidiaeth Cymru. Mae hyn er mwyn caniatáu fersiwn ddiwygiedig o'r gofynion ariannu ar gyfer Metro De Cymru a buddsoddiad ehangach mewn rheilffyrdd i'w wneud drwy'r Gyllideb ddrafft hon. Mae'r addasiad i'r llinellau sylfaen cyfalaf hefyd yn adlewyrchu rhai meysydd lle bu newidiadau yn y llif o ddatblygiadau yn y dyfodol.

### Tabl 7.1 Dyrannu Cyllideb Cymru

| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** |
|---|---|---|
| | | **£000oedd** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 9,212,875 |
| Tai a Llywodraeth Leol | | 6,026,310 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | | 1,691,348 |
| Addysg | | 2,696,556 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | | 336,084 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | | 719,126 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 416,840 |
| **Cyfanswm Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | | **21,099,139** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 811,458 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 149,515 |
| Cyfalaf heb ei Ddyrannu | Cyffredinol | 109,038 |
| | Trafodiadau Ariannol | 5,311 |
| Comisiwn y Senedd | | 62,914 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 5,110 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | | 8,148 |
| Y Comisiwn Etholiadol | | 1,750 |
| Taliadau a Godir yn Uniongyrchol ar Granfa Gyfunol Cymru | | 773 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **22,253,156** |

## Categorïau gwariant

7.05 O fewn y dyraniadau MEG, ceir gwahanol fathau o wariant a gaiff eu defnyddio at wahanol ddibenion:

- Adnoddau cyllidol
- Adnoddau anghyllidol
- Cyfalaf cyffredinol
- Trafodiadau ariannol
- Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Mae Tablau 7.2a a 7.2b yn nodi’r dyraniadau MEG yn ôl y categorïau hyn.

Tabl 7.2a - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

| | 2021-22 CYFANSWM DYFANIADAU PRIF GRWPIAU GWARIANT | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | | |
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | | | CYFANSWM DYRANIAD PRIF GRWPIAU GWARIANT |
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)*** | **Cyllidol** | **Anghyllidol** | **Cyfanswm Adnoddau** | **Cyffredinol** | **Trafodiadau Ariannol** | **Cyfanswm Cyfalaf** | **Adnoddau** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| IGC | 8,495,807 | 186,137 | **8,681,944** | 382,528 | 0 | **382,528** | 148,403 | 0 | **148,403** | **9,212,875** |
| TLIL | 4,189,141 | 381 | **4,189,522** | 615,465 | 90,806 | **706,271** | 1,130,517 | 0 | **1,130,517** | **6,026,310** |
| ETh | 580,468 | 192,436 | **772,904** | 777,163 | 13,766 | **790,929** | 127,515 | 0 | **127,515** | **1,691,348** |
| Add | 1,513,470 | 111,052 | **1,624,522** | 249,491 | 1,968 | **251,459** | -148,386 | 968,961 | **820,575** | **2,696,556** |
| IMLIG | 264,095 | 10,278 | **274,373** | 45,938 | -227 | **45,711** | 16,000 | 0 | **16,000** | **336,084** |
| AYMG | 507,559 | 21,675 | **529,234** | 189,892 | 0 | **189,892** | 0 | 0 | **0** | **719,126** |
| GCG | 361,695 | 16,000 | **377,695** | 35,165 | 980 | **36,145** | 3,000 | 0 | **3,000** | **416,840** |
| **CYFANSWM** | **15,912,235** | **537,959** | **16,450,194** | **2,295,642** | **107,293** | **2,402,935** | **1,277,049** | **968,961** | **2,246,010** | **21,099,139** |

*PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs): Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (IGC); Tai a Llywodraeth Leol (TLIL); Yr Economi a Thrafnidiaeth (ETh); Addysg (Add); Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg (IMLIG); Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (AYMG); Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (GCG)

Tabl 7.2b – Crynodeb o Ddyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

| DYRANIADAU ADNODDAU CYLLIDOL | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd**<br>**Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,495,807 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 4,189,141 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 580,468 |
| Addysg | 1,513,470 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 264,095 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 507,559 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 361,695 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyllidebol i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **15,912,235** |

| DYRANIADAU ANGHYLLIDOL | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd**<br>**Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 186,137 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 381 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 192,436 |
| Addysg | 111,052 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 10,278 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 21,675 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 16,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Anghyllidol i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **537,959** |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **16,450,194** |

| DYRANIADAU CYFALAF CYFFREDINOL | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** |
| | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 382,528 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 615,465 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 777,163 |
| Addysg | 249,491 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 45,938 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 189,892 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 35,165 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Cyffredinol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,295,642** |

| DYRANIADAU CYFALAF TRAFODIADAU ARIANNOL | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** |
| | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 90,806 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 13,766 |
| Addysg | 1,968 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | -227 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 980 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **107,293** |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,402,935** |

| DYRANIADAU ADNODDAU GWARIANT A REOLIR YN FLYNYDDOL (AME) | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** |
| | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 148,403 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,130,517 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 127,515 |
| Addysg | -148,386 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 16,000 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 3,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,277,049** |

| DYRANIADAU CYFALAF GWARIANT A REOLIR YN FLYNYDDOL (AME) | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** |
| | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 0 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 |
| Addysg | 968,961 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 0 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **968,961** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,246,010** |

Tabl 7.3 – Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf 2021-22

| | 2021-22 (£000au) |
|---|---|
| Cyfanswm benthyciadau sydd heb eu talu ar 1 Ebrill (prifswm) | 197,500 |
| Benthyca cyfalaf arfaethedig i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn | 150,000 |
| Ad-dalu prifswm yn ystod y flwyddyn | (6,887) |
| Benthyca cyfalaf cyfanredol heb ei dalu ar 31 Mawrth | 340,613 |
| Taliadau llog sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn | 3,569 |

Tabl 7.4 – Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf, amserlen ad-dalu

| Amserlen ad-dalu yn seiliedig ar fenthyca ar y lefelau a nodir uchod (£000au) | | | |
|---|---|---|---|
| | Symiau sy'n daladwy o fewn 1 blwyddyn | Symiau sy'n daladwy o fewn 1-5 mlynedd | Symiau sy'n daladwy ar ôl 5 mlynedd |
| Prifswm | 6,887 | 50,188 | 290,425 |
| Llog | 3,589 | 18,845 | 42,479 |

Tabl 7.5 – Cysoni addasiadau i'r llinell sylfaen cyfalaf

| Prif Grŵp Gwariant (MEG) | Addasiad i'r Llinell Sylfaen (£,000) | Sylwadau |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | -2,888 | • Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu newid yn y gweithgarwch yn yr arfaeth |
| Tai a Llywodraeth Leol | -150,505 | • Mae'r gostyngiad cyfan yn adlewyrchu tynnu dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol (FTC) |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | -306,740 | • Mae £85.2m yn adlewyrchu tynnu dyraniadau FTC<br>• £200.1m wedi'i dynnu o'r llinellau sylfaen trafnidiaeth, yn bennaf i adlewyrchu gostyngiadau yng nghyllideb gyfalaf Trafnidiaeth Cymru. Mae gofynion cyllido ar gyfer Metro De Cymru a chynlluniau rheilffyrdd ehangach wedi'u hailosod drwy'r dyraniadau ychwanegol a wneir drwy'r gyllideb hon<br>• Mae £21.2m wedi'i dynnu o'r llinell sylfaen Busnes a Rhanbarthau, yn bennaf yn sgil diwedd Tasglu'r Cymoedd ym mis Mawrth 2021. |
| Addysg | -8,025 | • Mae £8.2m yn adlewyrchu tynnu dyraniad cyfyngedig o ran amser ar gyfer Tai Carbon Niwtral yn 2020-21<br>• Mae cynnydd o £195,000 yn adlewyrchu tynnu ad-daliadau FTC |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | -18,358 | • Mae gostyngiad o £16m yn adlewyrchu tynnu dyraniadau FTC o'r llinell sylfaen<br>• Mae £2.4m yn adlewyrchu dyraniadau nad ydynt yn ailadrodd i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn 2020-21 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | -2,500 | • Mae gostyngiad o £2m yn adlewyrchu tynnu dyraniadau FTC o'r llinell sylfaen<br>• Mae gostyngiad o £500,000 yn adlewyrchu tynnu dyraniad un flwyddyn o Gronfa Bontio'r UE yn 2020-21 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | -3,000 | • Mae gostyngiad o £1m yn adlewyrchu tynnu dyraniadau FTC o'r llinell sylfaen<br>• Mae gostyngiad o £1.5m yn adlewyrchu proffil cyflawni diwygiedig yn y gyllideb Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr<br>• Mae £500,000 yn adlewyrchu tynnu dyraniad nad yw'n ailadrodd i Ddatblygu Rhyngwladol yn 2020-21 |

## Atodiad A: Cysoni'r gyllideb weinyddol a'r dyraniadau adnoddau yng nghynnig y Gyllideb flynyddol

| | CYLLIDEB DDRAFFT 2021-22 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | |
| | IGC | TLl | ETh | Add | IMLIG | AYMG | GCG | CYFANSWM |
| Adnoddau | 8,681,944 | 4,189,522 | 772,904 | 1,624,522 | 274,373 | 529,234 | 377,695 | 16,450,194 |
| Cyfalaf | 382,528 | 706,271 | 790,929 | 251,459 | 45,711 | 189,892 | 36,145 | 2,402,935 |
| AME Adnoddau | 148,403 | 1,130,517 | 127,515 | -148,386 | 16,000 | 0 | 3,000 | 1,277,049 |
| AME Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 968,961 | 0 | 0 | 0 | 968,961 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **9,212,875** | **6,026,310** | **1,691,348** | **2,696,556** | **336,084** | **719,126** | **416,840** | **21,099,139** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | |
| Defnydd Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -230 | -200 | | -340 | | -10,000 | | -10,770 |
| Benthyca a Chymorth | | -88,800 | 1,250 | | | | | -87,550 |
| Costau Casglu Derbyniadau'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -906 | | | | | | | -906 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a Chostau Casglu) | | -1,106,172 | | | | | | -1,106,172 |
| Ad-dalu Llog ar Fenthyciadau | | | | | | | -3,589 | -3,589 |
| Menter Cyllid Preifat | | | -9,243 | | | | | -9,243 |
| **YR ADNODDAU Y GOFYNNWYD** | **9,211,739** | **4,831,138** | **1,683,355** | **2,696,216** | **336,084** | **709,126** | **413,251** | **19,880,909** |

*PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs): Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (IGC); Tai a Llywodraeth Leol (TLlL); Yr Economi a Thrafnidiaeth (ETh); Addysg (Add); Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg (IMLIG); Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (AYMG); Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (GCG)

# Atodiad B: Y Newidiadau o Flwyddyn-i-Flwyddyn

| ADNODDAU – Canran y Newid o Flwyddyn-i-Flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 wedi'u hailddatgan Rhagfyr 2020** | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,256,527 | 8,681,944 | 5.15% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,921,776 | 4,189,522 | 6.83% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 736,897 | 772,904 | 4.89% |
| Addysg | 1,567,175 | 1,624,522 | 3.66% |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 263,729 | 274,373 | 4.04% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig* | 496,573 | 529,234 | 6.58% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 363,677 | 377,695 | 3.85% |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru*** | **15,606,354** | **16,450,194** | |

*At ddibenion dangos cymhariaeth debyg am debyg o flwyddyn i flwyddyn, mae £231.145m mewn perthynas â chyllid taliadau uniongyrchol ar gyfer cymorthdaliadau fferm wedi'i gynnwys sy'n adlewyrchu addasiad a wnaed yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21

| CYFALAF – Canran y Newid o Flwyddyn-i-Flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 wedi'u hailddatgan Rhagfyr 2020** | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 369,416 | 382,528 | 3.55% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 709,190 | 706,271 | (0.41)% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 790,726 | 790,929 | 0.03% |
| Addysg | 217,516 | 251,459 | 15.60% |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 53,785 | 45,711 | (15.01)% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 157,392 | 189,892 | 20.65% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 30,746 | 36,145 | 17.56% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,328,771** | **2,402,935** | |

| AME ADNODDAU – Canran y Newid o Flwyddyn-i-Flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 wedi'u hailddatgan Rhagfyr 2020** | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 217,667 | 148,403 | (31.82)% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,160,255 | 1,130,517 | (2.56)% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 29,525 | 127,515 | 331.89% |
| Addysg | (123,801) | (148,386) | 19.86% |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 3,013 | 16,000 | 431.03% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 2,400 | 0 | (100.00)% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,999 | 3,000 | 0.03% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,292,058** | **1,277,049** | |

| AME CYFALAF – Canran y Newid o Flwyddyn-i-Flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 wedi'u hailddatgan Rhagfyr 2020** | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0.00% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 0 | 0 | 0.00% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0.00% |
| Addysg | 863,631 | 968,961 | 12.20% |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 0 | 0 | 0.00% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0.00% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **863,631** | **968,961** | |

| **ADNODDAU – Canran y Newid o Flwyddyn-i-Flwyddyn** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 wedi'u hailddatgan Rhagfyr 2020** | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 Rhagfyr 2020** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,843,610 | 9,212,875 | 4.18% |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,791,221 | 6,026,310 | 4.06% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,557,148 | 1,691,348 | 8.62% |
| Addysg | 2,524,521 | 2,696,556 | 6.81% |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 320,527 | 336,084 | 4.85% |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig* | 656,365 | 719,126 | 9.56% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 397,422 | 416,840 | 4.89% |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru*** | **19,859,669** | **21,099,139** | |

*At ddibenion dangos cymhariaeth debyg am debyg o flwyddyn i flwyddyn, mae £231.145m mewn perthynas â chyllid taliadau uniongyrchol ar gyfer cymorthdaliadau fferm wedi'i gynnwys sy'n adlewyrchu addasiad a wnaed yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21

# Atodiad C: Asesiad Effaith Integredig Strategol

## Cyflwyniad

1. Fel y nodir yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb, rydym yn dal wedi ymrwymo i adolygu sut rydym yn asesu effeithiau. Ar gyfer Cyllideb ddrafft 2021-22, rydym wedi cynnwys manylion effeithiau'r penderfyniadau gwario fel rhan o'r prif naratif ym mhennod chwech, a chaiff yr atodiad hwn ei ddarparu er mwyn rhoi golwg gyffredinol o'r dystiolaeth strategol a oedd yn sail i'n penderfyniadau gwario, yn unol â'n blaenoriaethau i ddiogelu iechyd a swyddi, adeiladu dyfodol sy'n fwy gwyrdd, a chreu newid ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal. Dylid darllen yr atodiad hwn ochr yn ochr â phennod dau prif naratif y Gyllideb ac Adroddiad y Prif Economegydd sydd, ar wahân, yn amlinellu'r cyd-destun ariannol ac economaidd sydd wedi siapio'r Gyllideb hon.

2. I ategu hyn, rydym hefyd yn cyflwyno astudiaethau achos manylach ar effeithiau penderfyniadau gwario penodol yn yr atodiad hwn er mwyn dangos yn fanylach sut mae'r gwaith asesu'n cael ei wneud.

3. Yn ystod y flwyddyn hon nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen, mae ystod o dystiolaeth wedi dod i'r fei sy'n dangos canlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol y pandemig ar gymdeithas ac ar yr economi, yn ogystal â'r effeithiau tymor hirach rydym yn dal i'w hwynebu o ran newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol o bobl, yn enwedig y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gydnabod bod y rhyngblethedd rhwng y grwpiau hyn yn aml yn ein helpu i ddeall effeithiau ein penderfyniadau'n well.

4. Mae effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19 yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth ar gyfer cyllid y Llywodraeth yn y Gyllideb hon a thu hwnt. Mae'r pandemig yn cyfeirio at 'bedwar niwed' yn aml, sef:
   - niwed uniongyrchol i iechyd oherwydd y feirws;
   - niwed anuniongyrchol i iechyd yn sgil llai o gyflenwad neu alw am ofal iechyd, gan gynnwys y risg y bydd gwelyau gofal critigol yn cael eu llethu gan gleifion COVID-19;
   - niwed o ganlyniad i gyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol; a
   - niwed economaidd-gymdeithasol ehangach sy'n cynnwys effeithiau dirwasgiad a cholli addysg.

5. Mae'r pandemig hwn hefyd wedi dylanwadu ar ein gallu i ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth swyddogol lle mae data'n aml yn berthnasol cyn y pandemig, neu ni allwn bob tro fod yn sicr bod unrhyw newidiadau neu wahaniaethau a welwyd wedi cael eu hachosi'n uniongyrchol gan y pandemig. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi croesawu'r wybodaeth a gyflwynwyd gan ein partneriaid yn y trydydd sector yn ystod y flwyddyn, a oedd yn tynnu sylw at yr effaith ar grwpiau gwarchodedig.

## Esblygu ein ffordd o asesu effeithiau

6. Rydym wedi cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i ddiweddaru fel rhan o Gyllideb ddrafft 2021-22. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau ar y camau rydym wedi'u cymryd i ddatblygu ein dull o asesu effeithiau, ochr yn ochr â'n huchelgeisiau tymor hirach (Gweler atodiad E i gael rhagor o fanylion).

7. Am y tro cyntaf eleni, rydym wedi datblygu model effaith ddosbarthiadol newydd ar gyfer dadansoddi gwariant cyhoeddus yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar y meysydd gwariant cyhoeddus datganoledig mwyaf. Rydym wedi cyhoeddi canlyniadau cryno cychwynnol y gwaith hwn fel rhan o Gyllideb ddrafft 2021-22, sy'n amlinellu sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn y blynyddoedd i ddod.

8. Rydym hefyd wedi comisiynu gwaith i ddatblygu model peilot i amcangyfrif faint o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r cynigion gwario. Rydym wedi cyhoeddi amlinelliad o'n dull gweithredu yn Adroddiad y Prif Economegydd.

## Effeithiau ar iechyd

9. Mae effaith uniongyrchol pandemig COVID-19 wedi rhoi straen na welwyd ei debyg o'r blaen ar y gwasanaeth iechyd. Hyd yma, mae'n debygol bod o leiaf 400,000 o bobl wedi'u heintio â COVID-19 yng Nghymru, drwy dybio bod y gyfradd sy'n marw oherwydd yr haint yn 0.8% a drwy ystyried nifer y marwolaethau. Gwelwyd oddeutu 10,000 o achosion mewn ysbytai[6] ac mae dros 3,600 o bobl[7] wedi colli eu bywyd oherwydd COVID-19.

10. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd yr effeithiau tymor hirach ar iechyd yn fwy byth, ac mae'n debyg y bydd effeithiau dirwasgiad oherwydd COVID-19 yn bodoli am nifer o flynyddoedd ar ôl llwyddo i reoli'r feirws[8].

11. Mae cyflenwad y gwasanaeth iechyd yn llai o ganlyniad i'r pandemig, gyda chleifion ysbytai'n cael eu rhyddhau a llawdriniaethau dewisol yn cael eu canslo wrth ddisgwyl y pwysau ar y galw, ac er mwyn lleihau'r risg o ledaenu'r haint. Bydd angen mynd i'r afael â hyn er mwyn lliniaru'r niwed hirdymor i iechyd a fydd yn gysylltiedig â defnyddio llai o ofal iechyd. Ar hyn o bryd mae ôl-groniad o atgyfeiriadau a gweithgareddau dewisol sy'n peri her ariannol a logistaidd o ran yr adnoddau sydd eu hangen i ddal i fyny.

---

[6] Ar sail data iechyd Cyhoeddus Cymru

[7] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsregisteredweeklyinenglandandwalesprovisional/weekending27november2020#deaths-by-region-in-england-and-wales

[8] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/907616/s0650-direct-indirect-impacts-covid-19-excess-deaths-morbidity-sage-48.pdf

12. Nid yw'r pandemig wedi effeithio ar bawb yn yr un ffordd. Er bod pobl hŷn wedi bod yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty a cholli eu bywydau, mae hefyd wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd ac ariannol a oedd eisoes yn bodoli, gyda'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a'r nifer sy'n colli eu bywyd ddwywaith yn uwch yn y cwintel mwyaf difreintiedig, ar sail Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'i gymharu â'r cwintel lleiaf difreintiedig[9].

## Gofal cymdeithasol

13. Mae'r system gofal cymdeithasol hefyd yn wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig a fydd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf yn ogystal â'r angen i ymateb i her barhaus poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru. Rydym hefyd wedi gweld adroddiadau gan y sector sy'n dangos y bu costau sylweddol eleni oherwydd mesurau i atal ac i reoli'r haint mewn cartrefi gofal a lleihau faint o staff asiantaeth sy'n symud rhwng cartrefi.

## Iechyd meddwl

14. Rydym hefyd yn gwybod bod faint o broblemau iechyd meddwl cyffredin sy'n cael eu cofnodi gan yr unigolion eu hunain wedi cynyddu ers y pandemig[10][11]. Ar sail data gan arolwg 'Sut rydym yn gwneud yng Nghymru' Iechyd Cyhoeddus Cymru, dywedodd 72 y cant o bobl fod y feirws wedi gwaethygu eu hansawdd bywyd, dywedodd 26 y cant o bobl eu bod yn poeni 'llawer' a dywedodd 37 y cant o bobl eu bod yn poeni 'ychydig' am eu hiechyd meddwl dros fisoedd y gaeaf[12].

15. Rydym hefyd yn gwybod nad yw effeithiau iechyd meddwl gwael yn effeithio ar bawb yn yr un ffordd. Cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru sydd â'r iechyd a'r llesiant gwaethaf, ac mae'n debyg bod y pandemig wedi gwneud hyn yn waeth. Mae crynodeb o ymchwil o'r DU ac ymchwil rhyngwladol[13] yn awgrymu y bydd cau lleoliadau addysg wedi effeithio ar blant a phobl ifanc ac y bydd effaith y newidiadau ar y farchnad lafur wedi effeithio ar bobl ifanc (gweler yr adran 'Effeithiau economaidd'). Bydd teimlo'n unig ac yn ynysig wedi effeithio ar nifer o bobl, ond yn enwedig pobl hŷn, a'r rheini a oedd eisoes yn fregus yn ein cymunedau a/neu yn dioddef cyflyrau iechyd meddwl cyn y pandemig.

---

9 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/y-gell-cyngor-technegol-coronafeirws-covid-19-ac-anghydraddoldebau-iechyd.pdf

10 https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/articles/coronavirusanddepressioninadultsgreatbritain/june2020?:uri=peoplepopulationandcommunity/wellbeing/articles/coronavirusanddepressioninadultsgreatbritain/june2020

11 Mae hi'n bwysig nodi hefyd y gallai fod amrywiaeth o resymau dros y newid mewn symptomau o iselder cyn ac yn ystod y pandemig, yn hytrach na bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i bandemig y coronafeirws

12 https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/how-are-you-doing/how-are-we-doing-in-wales-reports/

13 https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-09/review-impact-mass-disruption-wellbeing-mental-health-children-young-people-possible-therapeutic-interventions_0.pdf

16. Rhagwelir y gallai'r pandemig godi cyfraddau pryder, iselder ac anhwylder straen wedi trawma, yn ogystal â chodi'r risg o drawma a phroblemau ymlyniad ymysg plant sy'n wynebu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod[14].

## Effeithiau economaidd

17. Mae lledaeniad COVID-19, a'r camau sydd wedi cael eu cymryd i'w reoli, wedi cael effaith ddramatig ar y DU ac ar nifer o wledydd ym mhedwar ban byd. Roedd y cyfyngiadau symud caeth roedd eu hangen i reoli'r pandemig wedi arwain at ddirywiad yng ngweithgarwch economaidd y DU nas gwelwyd ei debyg yn yr oes fodern. Mae'r ansicrwydd ynghylch y DU yn gadael Marchnad Sengl yr UE hefyd wedi cyfyngu ar fuddsoddiad busnesau gan waethygu'r twf gwan a oedd eisoes yn bodoli mewn cynhyrchiant.

18. Mae Adroddiad y Prif Economegydd yn rhoi rhagor o fanylion am y cyd-destun economaidd, y rhagolygon, ac effeithiau COVID-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at effaith negyddol y farchnad lafur ar grwpiau difreintiedig, gydag effaith arbennig o niweidiol ar y rheini sy'n cael cyflogau isel ac ar bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur. Mae hefyd yn tynnu sylw at effaith y pandemig ar anghydraddoldeb cynyddol a'r effeithiau "creithio" tebygol ar bobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur.

## Effaith ar Gydraddoldeb

### *Rhywedd*

19. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod y pandemig yn dal i gael effeithiau gwahanol wrth ystyried rhywedd. Roedd dadansoddiad[15] gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch nifer y marwolaethau misol yng Nghymru a Lloegr oherwydd COVID-19 wedi datgelu bod mwy o ddynion yn marw o COVID-19 na menywod. Rydym hefyd yn gwybod bod gwahaniaethau o ran dod i gysylltiad â'r feirws drwy nifer yr achosion positif sy'n cael eu cofnodi. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru[16] yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o gael canlyniad positif gan fod gweithwyr hanfodol yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn fenywod na dynion[17] ac felly maent mewn mwy o berygl o ddal y feirws.

---

[14] https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/traumatic-stress/#What%20are%20the%20Likely%20Mental%20Health%20Consequences%20of%20the%20COVID-19%20Crisis?

[15] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsinvolvingcovid19englandandwales/deathsoccurringinjune2020

[16] https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

[17] https://llyw.cymru/coronafeirws-a-chyflogaeth-dadansoddiad-ar-nodweddion-gwarchodedig

20. Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi sy'n talu llai ac maent yn fwy tebygol o ofalu am ddibynyddion. Canfu'r Sefydliad Astudiaethau Ariannol (IFS) ymysg cyplau sydd â phlant rhwng 4 a 15 oed fod mamau un gwaith a hanner yn fwy tebygol na thadau o fod wedi colli eu swydd neu roi'r gorau iddi ers dechrau'r pandemig. Roedd hefyd wedi canfod bod 9 y cant o'r holl fenywod 20-65 oed wedi lleihau eu horiau gwaith o ganlyniad i gyfrifoldebau gofalu o gymharu â 5 y cant o ddynion.

21. Mae menywod hefyd ddwywaith yn fwy tebygol o ddioddef trais yn y cartref na dynion, ar sail troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu[18], er na fydd hyn yn cynnwys achosion heb eu cofnodi. Ar ddechrau'r pandemig, cofnodwyd bod cynnydd yn nifer y galwadau i elusennau cam-drin domestig ac i wasanaethau'r heddlu[19], yng Nghymru ac ar draws y DU. Er bod galwadau bellach wedi dychwelyd i lefelau cyn COVID-19, credir bod yr effaith ar ddioddefwyr wedi mynd yn fwy difrifol a chymhleth.

*Plant a phobl ifanc*

22. Roedd canlyniadau arolwg[20][21] o 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, wedi tynnu sylw at yr ystod o brofiadau gwahanol a welwyd ers dechrau'r pandemig ac effaith cau ysgolion. Roedd rhai plant wedi wynebu profedigaeth, trallod a gofid. Roedd llawer wedi gweld colli eu ffrindiau a'u teuluoedd, ac yn teimlo eu bod yn colli allan ar eu haddysg. Ar yr un pryd, roedd nifer o blant wedi disgrifio sut roeddent yn gwerthfawrogi cyfle i dreulio rhagor o amser gyda'u teulu, a chwarae ac ymlacio mwy, neu ddysgu mewn ffordd wahanol.

23. Roedd yr arolwg yn cynnwys profiadau plant a phobl ifanc o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn ogystal â phlant a phobl ifanc anabl. Mae'r rhain yn dangos bod yr holl grwpiau hyn yn fwy tebygol o sôn am brofiadau negyddol o'r cyfyngiadau symud na phlant Gwyn a phlant nad ydynt yn anabl.

24. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ar draws y DU yn debygol o fod mewn mwy o berygl o fynd ar ei hôl hi yn eu haddysg o'i gymharu â'u cyfoedion ac mae ymchwil gyfyngedig yn awgrymu y gallai plant ag anghenion dysgu ychwanegol wynebu risg uwch o ddioddef anawsterau iechyd meddwl.

---

[18] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2020
[19] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabuseduringthecoronaviruscovid19pandemicenglandandwales/november2020
[20] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_CYM.pdf
[21] Roedd sampl yr arolwg wedi dewis eu hunain, a chafodd ei ddosbarthu dros blatfformau dysgu ysgolion. O ganlyniad, ni fydd y canfyddiadau'n gynrychioladol, gyda chynrychiolaeth isel o ddysgwyr sydd â mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd neu ddyfais ddigidol

25. Mae dadansoddiad diweddar[22] wedi dangos bod pobl ifanc wedi dioddef effeithiau mwyaf yr argyfwng o ran cyflogaeth hyd yma, gyda chyflogaeth y rheini sydd dan 25 oed yn disgyn 305,000 yn y DU ers dechrau'r argyfwng, 54 y cant o gyfanswm y gostyngiad mewn cyflogaeth.

*Pobl hŷn*

26. Mae ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y marwolaethau sy'n cael eu cofrestru bob wythnos[23] yng Nghymru a Lloegr yn parhau i ddangos bod pobl hŷn, yn enwedig y rheini dros 75 oed, yn fwy tebygol o farw ar ôl cael COVID-19. Roedd Sefydliad Bevan wedi dangos[24] bod grwpiau sy'n 'gwarchod', gan gynnwys yr henoed a phobl sydd â salwch cronig, yn fwy tebygol o fod wedi gweld dirywiad yn ei hiechyd a'u llesiant yn ystod ton gyntaf y pandemig. Roeddent hefyd yn wynebu pryder parhaus wrth i'r rheolau 'gwarchod' gael eu llacio, gyda llawer o bobl yn parhau i 'warchod' neu'n parhau i wneud llai o weithgareddau 'normal'.

27. Roedd yr IFS hefyd wedi datgelu[25] bod gweithwyr hŷn mewn mwy o berygl o ddioddef canlyniadau difrifol a pharhaus o ganlyniad i effaith economaidd y pandemig. Mae unigolion hŷn sy'n colli eu swyddi yn llai tebygol o gael eu hailgyflogi, neu o ddod o hyd i swydd ar gyflog tebyg i'w henillion blaenorol, na gweithwyr iau.

*Hil*

28. Mae amrywiaeth o ymchwil ac ystadegau wedi'u cyhoeddi sy'n dangos bod grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ledled y DU yn dioddef mwy o niwed o'r feirws na'r rhan fwyaf o'r boblogaeth.

29. Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru[26][27] o fis Mehefin yn tynnu sylw at amrywiaeth o ffactorau a allai, ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig, effeithio ar risg y pandemig ar eu hiechyd a'u llesiant un ai'n uniongyrchol neu drwy effaith anghymesur ar ffactorau economaidd-gymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad[28,29] y Swyddfa Ystadegau Gwladol o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru a Lloegr a oedd yn dangos bod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o farw oherwydd COVID-19 na phobl Gwyn.

---

[22] https://www.employment-studies.co.uk/resource/labour-market-statistics-november-2020
[23] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsregisteredweeklyinenglandandwalesprovisional/weekending27november2020
[24] https://www.bevanfoundation.org/news/2020/10/experiences-of-shielding/
[25] https://ifs.org.uk/publications/15040
[26] https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-ar-boblogaeth-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-yng-nghymru
[27] https://llyw.cymru/grwp-cynghorol-bame-ar-covid-19-effaith-bosibl-covid-19
[28] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/articles/Covid-19covid19relateddeathsbyethnicgroupenglandandwales/2march2020to15may2020
[29] Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei ategu gan ymchwil a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys a'r IFS.

30. Credir bod pobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau penodol, fel gweithwyr hanfodol yn wynebu risg uwch o gael eu heintio oherwydd eu gwaith. Roedd dadansoddiad[30][31] o nodweddion gwarchodedig gweithwyr hanfodol wedi canfod er bod gweithwyr Gwyn yn cynrychioli 94 y cant o'r amcangyfrif o 490,000 o weithwyr hanfodol yng Nghymru, roedd grwpiau ethnig eraill yn fwy tebygol o fod yn weithwyr hanfodol. Roedd y dadansoddiad hefyd yn dangos bod hyd yn oed cyfran uwch o fenywod mewn rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

31. Roedd y dadansoddiad hefyd yn edrych ar weithwyr mewn diwydiannau a oedd wedi gorfod cau yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf ledled y DU. Canfu fod 20 y cant o holl weithwyr Cymru o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gweithio mewn diwydiannau a oedd wedi gorfod cau, o'i gymharu â 15 y cant o weithwyr Gwyn.

*Cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd a hunaniaeth o ran rhywedd*

32. Roedd ymchwil[32] gan Goleg Prifysgol Llundain a Phrifysgol Sussex wedi canfod fod ymatebwyr deurywiol, traws ac amrywiol o ran rhywedd yn tueddu i fod â chyfraddau uwch o iselder. Canfu'r ymchwil fod unigolion LGBTQ+ y gwahaniaethwyd yn eu herbyn yn fwy tebygol o ddioddef iselder. Wrth ystyried hyn gyda'i gilydd, gellid dadlau bod COVID-19 yn gwaethygu'r anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli mewn cyflyrau iechyd meddwl, ac mae tystiolaeth ddangosol y gallai hyn fod yn gysylltiedig â lefelau uwch o wahaniaethu tuag at gymunedau LGBTQ+.

*Anabledd*

33. Roedd dadansoddiad[33] y Swyddfa Ystadegau Gwladol yng Nghymru yn dangos bod pobl anabl yn cynrychioli 68 y cant o'r holl farwolaethau sy'n ymwneud â COVID-19, sy'n cael ei egluro'n rhannol gan y ffaith bod anabledd yn fwy cyffredin ymysg poblogaethau hŷn a'r rheini sy'n fwy tebygol o fod y mwyaf agored i'r feirws. Rydym yn gwybod bod y pandemig hefyd wedi cael, ac yn parhau i gael, effaith niweidiol ar brofiadau pobl anabl wrth gymharu â phobl nad ydynt yn anabl, gyda thystiolaeth o lefelau uwch o bryder a dirywiad mewn llesiant. Ym mis Medi,[34] dywedodd 83 y cant o bobl anabl ym Mhrydain eu bod yn bryderus 'iawn' neu 'braidd' yn bryderus am effaith y pandemig ar eu bywyd, o gymharu ag oddeutu 71 y cant o bobl nad oeddent yn anabl.

[30] https://llyw.cymru/coronafeirws-a-chyflogaeth-dadansoddiad-ar-nodweddion-gwarchodedig
[31] https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-ar-boblogaeth-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-yng-nghymru
[32] https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2020.08.03.20167403v1.full.pdf
[33] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/articles/coronaviruscovid19relateddeathsbydisabilitystatusenglandandwales/2marchto14july2020
[34] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/coronavirusandthesocialimpactsondisabledpeopleingreatbritain/september2020

34. Dywedodd tua hanner y bobl anabl a oedd yn cael gofal meddygol cyn y pandemig eu bod naill ai'n cael triniaeth ar hyn o bryd ar gyfer dim ond rhai o'u cyflyrau, neu fod eu triniaeth wedi cael ei chanslo neu heb ddechrau, wrth gymharu ag ychydig dros chwarter o bobl nad oeddent yn anabl a oedd yn cael gofal am gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol cyn y pandemig.

## Y Gymraeg

35. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2020 yn nodi er bod dangosyddion cenedlaethol ar y Gymraeg yn weddol gyson â blynyddoedd blaenorol, bu gostyngiad bychan yng nghanran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig eiriau o Gymraeg.

36. Mae ymchwil[35] hefyd wedi cael ei wneud i ganfod sut mae COVID-19 a'i gyfyngiadau wedi effeithio ar grwpiau cymunedol Cymraeg. Mae'r canlyniadau'n dangos nad oedd dros ddwy ran o dair (68 y cant) o'r holl weithgareddau a oedd yn cael eu gwneud fel arfer gan grwpiau cymunedol cyn y pandemig wedi cael eu cyflawni o gwbl ers dechrau cyfnod y cyfyngiadau symud.

37. Mae twristiaeth, diwylliant, chwaraeon ac iaith hefyd yn cyfrannu at ganlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i bobl yng Nghymru, gan gynnwys iechyd meddwl a chorfforol a chydlyniant cymunedol. Roedd ymchwil[36] diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi datgelu bod mynediad at y celfyddydau a diwylliant yn effeithio'n gadarnhaol ar ffactorau iechyd a llesiant.

## Anfanteision economaidd-gymdeithasol

38. Cyn y pandemig, ychydig o newid a fu mewn lefelau tlodi incwm cymharol yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd[37]. Mae Adroddiad y Prif Economegydd yn tynnu sylw at y ffaith er bod anghydraddoldeb incwm yn is yng Nghymru nag ar draws y DU drwyddi draw, sy'n adlewyrchu'r gyfran isel o bobl sy'n ennill incwm uchel ac uchel iawn yng Nghymru, gall tlodi gael effaith hirdymor ar gyfleoedd bywyd.

---

[35] https://llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg
[36] https://llyw.cymru/archwilior-berthynas-rhwng-diwylliant-llesiant
[37] https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2018-i-fawrth-2019

39. Rydym yn gwybod bod gan newidiadau i'r system les gysylltiadau cryf â thlodi, yn enwedig lefelau cynyddol o dlodi mewn gwaith. Yn y gorffennol mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[38] wedi awgrymu bod Cymru'n dibynnu mwy ar les na'r gwledydd eraill, sy'n golygu bod lleihau budd-daliadau i bobl sydd mewn gwaith a budd-daliadau i bobl ddi-waith yn cael fwy o ergyd, gan gynnwys newidiadau i'r mesurau a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig. Ym mis Hydref 2020,[39] roedd 272,000 o bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru, 75 y cant yn fwy na mis Mawrth 2020. Mae COVID-19 hefyd wedi golygu bod nifer y bobl sy'n dibynnu ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cynyddu'n sylweddol.

40. Mae dadansoddiad[40] y Swyddfa Ystadegau Gwladol o farwolaethau COVID-19 hefyd yn dangos bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig o Gymru wedi gweld cyfradd marwolaethau sydd bron ddwywaith yn fwy na'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig. Er bod cyfraddau marwolaethau cyffredinol fel arfer yn uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig, mae'n ymddangos bod COVID-19 yn eu codi ymhellach.

41. Roedd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ym mis Awst[41] yn dangos bod 21 y cant o'r ymatebwyr wedi dweud bod COVID-19 wedi achosi problemau i gyllid eu haelwyd. Mae adroddiad diweddar gan Gyngor ar Bopeth[42] yn dangos mai'r rheini sydd fwyaf tebygol o fod wedi disgyn ar ei hôl hi gyda biliau'r cartref yw teuluoedd sydd â phlant, pobl ddi-waith neu sydd wedi gweld effaith negyddol yr argyfwng ar eu gwaith, a'r rheini sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.

42. Mae nifer y bobl yng Nghymru sy'n cael cymorth drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol hefyd wedi cynyddu'n sylweddol. Ar 1 Mai, cafodd y rheolau eu llacio ar gyfer ceisiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol i helpu'r rheini sy'n wynebu caledi ariannol annisgwyl o ganlyniad i COVID-19. Rhwng canol mis Mawrth a mis Tachwedd, gwnaed bron i 100,000 o daliadau'r Gronfa Cymorth Dewisol a oedd yn ymwneud â COVID-19, tua theirgwaith yn fwy o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

---

[38] https://www.equalityhumanrights.com/cy/publication-download/yw-cymru%E2%80%99n-decach-2018

[39] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-11/key-economic-statistics-november-2020-628.pdf

[40] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsinvolvingcovid19bylocalareasanddeprivation/deathsoccurringbetween1marchand31july2020

[41] https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-misol-awst-2020-html?_ga=2.4152496.1458497702.1608286259-961522549.1596106067#section-51079

[42] https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/policy/policy-research-topics/citizens-advice-cymru-wales-policy-research/coronavirus-arrears-estimating-the-size-of-lockdown-arrears-in-wales1/

43. Mae digartrefedd hefyd wedi effeithio ar rai o'r aelwydydd mwyaf bregus o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r wybodaeth reoli ddiweddar[43] ar gyfer Cymru yn dynodi ar 30 Medi fod dros 4,000 o unigolion[44] wedi cael llety dros dro ers mis Mawrth. Roedd yr un data yn amcangyfrif bod 110 o unigolion yn cysgu allan ym mis Medi.

44. Cyn y pandemig, er bod cyfraddau tlodi plant cymharol wedi disgyn rhywfaint yn y data diweddaraf oedd ar gael, roedd bron i 3 o bob 10 (28 y cant) [45] o blant Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) o gymharu ag ychydig o dan chwarter y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru[46]. Ni fydd y ffynonellau hyn yn cofnodi effaith y pandemig. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai cau ysgolion yn gynharach eleni fod wedi rhoi pobl sy'n byw mewn lleoliadau difreintiedig dan fwy o anfantais. Canfu arolwg[47] gan Plant yng Nghymru fod allgáu digidol yn fwy cyffredin mewn teuluoedd tlotach, gyda 40 y cant o deuluoedd ar incwm isel heb o leiaf un adnodd hanfodol i gefnogi dysgu eu plentyn gartref, a 64 y cant o'r ymatebwyr yn dweud bod cynhwysiant digidol yn broblem i'r teuluoedd roeddent yn gweithio gyda nhw.

45. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod effaith y pandemig ar swyddi ac ar sicrwydd ariannol wedi effeithio fwyaf ar weithwyr ar gyflog isel, neu'r rheini a oedd eisoes mewn tlodi. Roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi effeithio'n fawr ar nifer o sectorau sydd â chyfraddau tlodi mewn gwaith uwch, gan gynnwys y sectorau llety, bwyd a diod a manwerthu, ac mae ymchwil yn awgrymu bod pobl yn y sectorau hyn yn dal mewn risg uchel o golli swyddi yn y dyfodol oherwydd y pandemig.

## Yr Amgylchedd

46. Cyn COVID-19, roedd y defnydd o geir preifat yn cynyddu, roedd traffig cerbydau nwyddau ysgafn yn cynyddu, ac roedd y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn weddol sefydlog. Roedd teithio llesol (cerdded a beicio) yn weddol sefydlog ar lefel genedlaethol, gan gynyddu mewn llond llaw o leoedd oherwydd ymyriadau penodol yn ymwneud â beiciau a rennir.

---

[43] https://llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-medi-2020
[44] Mae cafeatau i'r data: (a) Nid oedd un awdurdod lleol yn cynnwys 'digartref gartref'.
(b) Nid oedd dau awdurdod lleol yn gallu cael gafael ar ddata gan lochesi menywod yn eu hawdurdodau lleol.
(c) Mae un awdurdod lleol wedi adrodd ar aelwydydd, nid pobl. Felly, bydd tangyfrif bach yng nghyfanswm y ffigurau a gyflwynwyd (d) Nid oedd un awdurdod lleol yn gallu darparu'r ffigur ar gyfer mis Medi mewn da bryd.
[45] https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2018-i-fawrth-2019
[46] Yn berthnasol i'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019
[47] https://www.childreninwales.org.uk/cy/newyddion/archif-newyddion/lansiwyd-adroddiad-newydd-covid-19-ar-effaith-ar-deuluoedd-incwm-isel-difreintiedig/

47. Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020, ar draws y DU, roedd nifer y teithiau a oedd yn cael eu gwneud mewn ceir wedi disgyn 81 y cant, ac roedd nifer y teithiau a oedd yn cael eu gwneud gan gerbydau cludo nwyddau wedi disgyn 78 y cant[48]. Fodd bynnag, dim ond dros dro oedd y gostyngiad hwn, ac erbyn mis Gorffennaf 2020 roedd y traffig ar y ffyrdd yn ôl i 80 y cant o'r lefelau a welwyd cyn y cyfyngiadau symud. Yn groes i hynny, roedd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddim ond 30 y cant o'r lefelau blaenorol, ac roedd y nifer a oedd yn defnyddio trenau yng Nghymru yn ddim ond 12-15 o'r lefelau a welwyd cyn COVID-19[49]. Mae patrymau teithio hefyd wedi newid i ymateb i'r pandemig. Nid ydym yn bellach yn gweld y tagfeydd oriau brig o ddydd Llun i ddydd Gwener a welwyd cyn COVID-19, ac mae pobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a'r ffyrdd yn fwy gwastad drwy gydol y dydd[50].

48. Nid yw effeithiau defnyddio trafnidiaeth yn y tymor canolig i'r tymor hirach mor glir. Nid yw'n glir chwaith sut yr effeithiwyd ar sectorau eraill yn ystod y pandemig a beth yw'r newidiadau yng nghrynodiad llygryddion aer. Felly, bydd yn cymryd peth amser i ddeall effeithiau llawn camau gweithredu sy'n gysylltiedig â COVID-19 ar newid yn yr hinsawdd, allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ansawdd aer.

49. Mae gwaith modelu cynnar ar allyriadau carbon deuocsid yn awgrymu bod disgwyl i allyriadau byd-eang ddisgyn yn ystod 2020. Roedd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi rhoi gwybod[51,52] ym mis Mehefin bod disgwyl i allyriadau carbon deuocsid ostwng 5-10 y cant o ganlyniad i bandemig COVID-19, gyda gostyngiad a allai fod yn fwy i'r DU. Mae'n bwysig nodi mai dim ond dros dro yw'r effaith hon, ac mae'n rhaid i allyriadau carbon deuocsid gael eu torri'n gyson o un flwyddyn i'r llall nes eu bod yn cyrraedd sero-net yn fyd-eang er mwyn arafu cynhesu byd-eang.

50. Mae canlyniadau cynnar[53] astudiaethau ar yr effaith ar ansawdd aer yn dangos darlun cymhleth. Roedd dau fis cyntaf y cyfyngiadau symud ar draws y DU yn gynharach yn y flwyddyn wedi arwain at ostyngiadau mawr mewn rhai lefelau llygryddion (ee nitrogen ocsidau), sy'n cyd-fynd â llai o lefelau traffig, serch hynny roedd lefelau llygryddion eraill wedi codi (ee deunydd gronynnol ac osôn).

---

48 RoyalHaskoning DHV, The Impacts of Covid-19 on Travel Patterns in the UK – Third Phase research findings
49 Gwybodaeth gan Trafnidiaeth Cymru o gyfrif teithwyr wrth gatiau gorsafoedd
50 Data dealltwriaeth o orsafoedd O2 a ddarparwyd i Trafnidiaeth Cymru
51 https://www.theccc.org.uk/publication/reducing-uk-emissions-2020-progress-report-to-parliament/
52 Mae sefydliadau eraill wedi dweud y disgwylir gweld gostyngiadau o lefelau tebyg. Er enghraifft, https://www.iea.org/reports/global-energy-review-2020/global-energy-and-co2-emissions-in-2020
53 https://airquality.gov.wales/sites/default/files/documents/2020-08/Analysis_of_Welsh_Air_Quality_Data_Impacts_of_Covid-19_Final_Issue2%20_Cymraeg.pdf

51. Mae ymchwil[54] hefyd wedi datgelu bod cyfnodau o gyfyngiadau symud yng Nghymru wedi golygu bod pobl yn gwerthfawrogi eu hamgylchedd yn well a bod ganddynt amser i grwydro ac i fwynhau eu cynefinoedd lleol.

## Astudiaethau achos ar effeithiau penderfyniadau gwario penodol

52. Mae'r atodiad hwn yn darparu astudiaethau achos isod o effeithiau penderfyniadau gwario penodol i ategu'r wybodaeth rydym wedi'i darparu ym mhenodau pedwar a chwech.

## Astudiaeth achos 1 – Cefnogaeth i iechyd meddwl plant a phobl ifanc

53. Mae arolygon sy'n seiliedig ar boblogaeth yng Nghymru ac mewn mannau eraill i gyd yn tynnu sylw at fwy o bryder o ganlyniad i'r pandemig. Rydym hefyd yn gwybod nad yw effeithiau iechyd meddwl gwael yn cael eu teimlo'n gyfartal, ac efallai fod y pandemig wedi gwaethygu hyn. Er ei bod yn anodd mesur y gwir effaith ar iechyd meddwl, bydd angen i waith modelu galw a chapasiti ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl y GIG ymateb i lawer o alw. Rydym hefyd yn cydnabod bod cael y driniaeth iawn yn gynnar, ynghyd â gwell ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, yn gallu atal effaith niweidiol yn y tymor hirach.

54. Ym mis Hydref 2020, roeddem wedi diweddaru ein cynllun cyflawni[55] ar gyfer y strategaeth *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* i osod camau gweithredu newydd neu gyflymach i ymateb i'r newidiadau mewn anghenion iechyd meddwl o ganlyniad i'r pandemig. Ochr yn ochr â'r strategaeth a'r cynllun hwn, mae ein hasesiad o'r effaith ar hawliau plant yn amlinellu'r pwys roeddem yn ei roi ar hawliau plant yn ein dull gweithredu[56]. Mae hyn hefyd yn cyflwyno tystiolaeth bod llesiant personol yn disgyn rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, yn enwedig i ferched. Atal a hybu llesiant meddyliol cadarnhaol yw prif nodweddion y cynllun. Yn ystod 2020-21 roeddem wedi buddsoddi £2.7m ychwanegol i gryfhau cymorth iechyd meddwl ar draws pob oedran, er mwyn atal problemau rhag gwaethygu a lleihau'r angen am wasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

55. Yn y Gyllideb hon, rydym yn dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer y dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl (£4m) a Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAHMS) (£5.4m) i barhau i ymateb i'r galw cynyddol am y gwasanaethau hyn.

[54] https://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/strategies-and-plans/green-recovery-supporting-the-environmental-sector-in-wales/?lang=cy
[55] https://llyw.cymru/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-iechyd-meddwl-2019-i-2022
[56] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/cynllun-cyflawni-law-yn-llaw-at-iechyd-meddwl-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant.pdf

56. Mae'r dull system gyfan yn darparu gwasanaeth cwnsela a chymorth emosiynol i blant ysgol, i athrawon, ac i staff eraill yr ysgol ac uwch arweinwyr ysgolion, gan gyfrannu at iechyd a llesiant cyffredinol plant a phobl ifanc, gan gynnwys eu hiechyd emosiynol a'u cadernid. Fel rhan o hyn, nod rhaglen beilot Mewngymorth Ysgolion CAMHS yw meithrin gallu mewn ysgolion, gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth a hyder, i gefnogi iechyd meddwl a llesiant disgyblion a gwella mynediad ysgolion at gyswllt, ymgynghoriaeth a chyngor arbenigol pan fo angen. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen beilot ar waith dros chwe awdurdod lleol a phedwar ardal bwrdd iechyd lleol gyda'r gwerthusiad interim[57] yn dangos bod yr ysgolion a oedd wedi ymwneud â'r cynlluniau peilot yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well i gefnogi staff a dysgwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Bydd y £4m ychwanegol yn 2021-22 yn helpu i ymestyn y cynllun peilot i ardaloedd eraill yng Nghymru.

57. Bydd y £5.4m o gyllid ychwanegol yn mynd i gryfhau cynlluniau gwasanaeth CAMHS y GIG yn erbyn Timau Haen 4 a Thimau Cymunedol Dwys, ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau iechyd meddwl sydd angen diagnosis ac ymyriad ffurfiol.

## Astudiaeth achos 2 – Grant Cymorth Tai

58. Mae atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn un o flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth, ac mae'n un sydd wedi cael mwy o sylw yn ystod pandemig COVID-19, ac amcangyfrifir bod dros 4,000 o bobl wedi cael eu symud i lety dros dro ers mis Mawrth ar sail ein dull cynhwysol 'pawb mewn'. Mae'r Grant Cymorth Tai – rhaglen grant ymyrryd yn gynnar sy'n ceisio atal digartrefedd – yn rhan allweddol o'n hymateb i'r her o atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'r Gyllideb hon yn ymrwymo £40m arall i adeiladu ar y mesurau dros dro a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig ac i helpu i sicrhau bod pawb yn gallu parhau i gael gafael ar y ddarpariaeth tai a'r gwasanaethau cymorth tai sydd eu hangen arnynt.

59. Rydym yn gwybod pa mor bwysig y gall llety sefydlog fod, yn enwedig i aelwydydd sydd â phlant, lle gall digartrefedd gael effaith sylweddol ar ddatblygiad ac ar gyrhaeddiad addysgol plant. Mae cartref sefydlog a diogel yn bwysig i rieni hefyd, gan eu helpu i sicrhau cyfleoedd gwaith a hyfforddiant tymor hirach, a lleihau eu risg o fynd i dlodi. Bydd y Grant Cymorth Tai yn parhau i helpu'r rheini sydd fwyaf bregus mewn cymdeithas gyda'r nifer o heriau sy'n gallu eu hwynebu. Bydd hefyd yn ceisio gwella mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, o ystyried yr heriau penodol sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â digartrefedd gwledig yng Nghymru.

[57] https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-raglen-beilot-mewngymorth-y-gwasanaethau-iechyd-meddwl-plant-ar-glasoed-camhs-adroddiad-interim

60. Yn ôl cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar Ddigartrefedd yng Nghymru yn 2018-19[58], presenoldeb plant dibynnol neu fenyw feichiog oedd y categori ‘angen blaenoriaethol’ a nodwyd amlaf (43 y cant) ar gyfer yr aelwydydd hynny a dderbyniwyd fel rhai digartref ac mewn angen blaenoriaeth. Roedd 21 y cant yn ymwneud ag achosion lle’r oedd aelod o’r aelwyd yn fregus oherwydd salwch meddwl, anabledd dysgu neu anawsterau dysgu, ac roedd 12 y cant yn ymwneud â lle’r oedd yr ymgeisydd yn dianc rhag cam-drin domestig neu’r bygythiad o gam-drin.

61. Mae buddsoddi yn y Grant Cymorth Tai yn gallu helpu i ysgafnhau’r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Fel y nodir uchod, mae dros 4,000 o bobl yng Nghymru wedi cael llety dros dro ers dechrau’r pandemig ym mis Mawrth[59]. Mae tystiolaeth gan Crisis UK yn datgan bod pobl sy’n ddigartrefedd am dri mis neu fwy yn costio £18,388 ar gyfartaledd i wasanaethau cyhoeddus, sy’n cyfateb i dros £73m o gostau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys dros £25.5m mewn gwasanaethau iechyd yn unig) dim ond i’r bobl hynny sydd mewn llety brys ar hyn o bryd os na chaiff eu digartrefedd ei ddatrys. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn amcangyfrif bod modelau Tai yn Gyntaf ar gyfer unigolion digartref sydd ag anghenion cymhleth yn dychwelyd £3.60 am bob £1 sy’n cael ei wario; ac mae pob £1 a fuddsoddir i symud pobl allan o ddigartrefedd yn cynhyrchu £2.80 o fudd.

62. Rydym hefyd yn dyrannu £4m o gyllid ychwanegol sy’n benodol i COVID-19 i’r gyllideb Atal Digartrefedd er mwyn helpu i sicrhau bod y llety a’r gefnogaeth frys a gafodd eu darparu yn gallu parhau yn rhan gyntaf y flwyddyn ariannol nesaf yn ôl yr angen.

## Astudiaeth achos 3 – Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol

63. Sgiliau a chymwysterau yw'r un dylanwad mwyaf ar siawns unigolyn o fod mewn gwaith ac ennill incwm da. Mae cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy sy’n talu’n dda yn rhoi llwybr allan o dlodi a diogelwch yn erbyn tlodi, nid yn unig i’r unigolyn, ond i’w dibynyddion hefyd.

64. Cafodd y cynllun peilot Cyfrifon Dysgu Personol ei lansio ym mis Medi 2019 i ddarparu hyfforddiant galwedigaethol i bobl gyflogedig mewn sectorau diwydiant lle mae prinder sgiliau amlwg. Roedd y cynllun peilot ar agor i bobl dros 19 oed, a oedd yn byw yng Nghymru, ac yn ennill llai na £26,000 y flwyddyn, ac roedd yn rhoi cyfle i bobl gyflogedig gael mynediad at gyrsiau a chymwysterau hyblyg am ddim mewn pum sector blaenoriaeth: peirianneg, adeiladu, digidol, iechyd a gwasanaethau ariannol. Er mwyn cydnabod y rhagfarn ar sail rhyw yn y sectorau hyn, aethom ati i ddatblygu dull ‘canolbwyntio ar rywedd’ ar gyfer y cynllun peilot er mwyn helpu i ganfod a deall effeithiau posibl, gan gynnwys effeithiau anfwriadol, ar wahanol grwpiau, er mwyn gwella sut rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu adnoddau.

[58] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/homelessness-april-2018-march-2019-993.pdf
[59] https://llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-medi-2020

65. Ers hynny, mae COVID-19 wedi effeithio ar yr economi a'r farchnad lafur ar raddfa gwbl newydd, gan fygwth gwrthdroi'r cynnydd a wnaed o ran lleihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru dros y degawd diwethaf. Mae Adroddiad y Prif Economegydd eleni yn nodi mai grwpiau difreintiedig yn y farchnad lafur sydd wedi gweld yr effaith fwyaf, gydag effaith arbennig o niweidiol ar y rheini sy'n cael cyflogau isel ac ar bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur.

66. Wrth fonitro darpariaeth y cynllun peilot, gwelwyd bod hyblygrwydd y cynnig Cyfrif Dysgu Personol yn apelio at ystod ehangach o bobl i ddatblygu sgiliau yn y sectorau hyn, ac roedd y cynllun yn dangos canlyniadau annisgwyl wrth ystyried y nifer a oedd yn manteisio arno ar sail rhywedd. Er enghraifft, dangosodd gwybodaeth reoli o'r cynllun peilot, er bod rhagfarn rhywedd i'w weld mewn sectorau fel peirianneg ac adeiladu, bod 60 y cant o'r dysgwyr a oedd yn dilyn cyrsiau a chymwysterau TGCh yn fenywod, a bod dros 80 y cant o'r dysgwyr a oedd yn dilyn cwrs Sector Proffesiynol (gan gynnwys cymhwyster AAT/cyfrifyddu) yn fenywod. Yn groes i hynny, roedd dros 70 y cant o'r dysgwyr a oedd yn dilyn cwrs/cymhwyster a oedd yn ymwneud a gofal yn ddynion.

67. O ganlyniad i ganlyniadau cadarnhaol cynnar y cynllun peilot, ac i gydnabod effeithiau'r pandemig, penderfynodd Llywodraeth Cymru gyflwyno'r cynnig Cyfrifon Dysgu Personol ledled Cymru o fis Medi ymlaen a'i ehangu i gefnogi pobl gyflogedig sydd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, y rheini sydd mewn perygl o golli eu swydd, neu'r rheini y mae COVID-19 wedi effeithio'n negyddol arnynt. Mae sectorau blaenoriaeth ychwanegol hefyd wedi'u cynnwys. Rydym wedi neilltuo £5.4m yn ychwanegol yn 2021-22 i gefnogi hyn.

68. Bydd y data cynnar o'r rhaglen ehangach ar gael yn y flwyddyn newydd. Bydd hyn yn galluogi monitro'n barhaus faint sy'n manteisio ar y cynnig, gan gynnwys fesul nodweddion gwarchodedig. Dechreuir ar werthusiad ffurfiol o'r rhaglen yn 2021, gyda chanfyddiadau interim yn helpu i gyfrannu at weithrediad y rhaglen. Mae gwaith wedi cael ei gomisiynu hefyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith i ddeall ac i archwilio'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig yn barhaus, ac i ganfod unrhyw rwystrau anfwriadol i grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi ddechrau 2021.

### Astudiaeth Achos 4 – Peilot Di-garbon

69. Fel rhan o'r buddsoddiad ychwanegol gwerth £40m yn Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif, bydd £5m yn cael ei dargedu i fwrw ymlaen â'n prosiectau peilot di-garbon. Bydd y cynllun peilot yn cynnig cyfle i awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a'u cadwyni cyflenwi wneud cais am gyllid ychwanegol i ddatblygu a chyflwyno atebion seilwaith arloesol, gan barhau â'r llwybr tuag at adeiladau di-garbon net dros eu hoes gyfan.

70. Dechreuodd y gwaith ym mis Tachwedd 2020 ar adeiladu Ysgol Gynradd Llancarfan ym Mro Morgannwg. Hon fydd Ysgol Di-garbon Net gyntaf Cymru, a disgwylir y bydd yn cael ei chwblhau erbyn diwedd 2021. Mae Tîm Dylunio'r Awdurdod Lleol wedi cydweithio'n agos â rhanddeiliaid i ddylunio'r ysgol, gan gynnwys gweithio â staff a dysgwyr i ddatblygu adnoddau addysgu sy'n taflu goleuni ar yr agenda di-garbon net. Mae hyn yn cysylltu â'n cwricwlwm ac yn darparu cysylltiad pendant rhwng y dechnoleg yn eu hysgol newydd a sut mae hyn yn effeithio ar yr amgylchedd o'u cwmpas.

71. Cafodd dull systematig ei ddefnyddio i ddeall yr achos sylfaen carbon i gyflawni gofynion sylfaenol safon BREEAM 'Rhagorol' (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â dewisiadau 'Carbon Isel' a 'Di-garbon'. Mae hyn wedi canfod gostyngiadau o dros 40 tunnell mewn allyriadau carbon deuocsid bob blwyddyn yn deillio o'r safon 'Rhagorol' BREEAM, a thros 17 tunnell o allyriadau carbon deuocsid o'r datrysiadau 'Carbon Isel'. Mae'r ateb 'Di-garbon' yn cynrychioli gostyngiad o 42.6 tunnell o allyriadau carbon deuocsid o'i gymharu â'r safon 'Rhagorol' BREEAM presennol i ysgolion drwy gyfleusterau storio batris ar y safle ac allforio ynni gwyrdd dros ben a gynhyrchir ar y safle yn ôl i'r grid.

72. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu i safonau Rhagoriaeth BREEAM a bydd yr adeilad yn ddi-garbon ar ôl i'r ysgol agor. Bydd hyn yn cynnwys targedau ar gyfer creu a gwella cynefinoedd, er enghraifft gwella dalfeydd carbon fel gweirgloddiau ac ardaloedd coediog bach, er mwyn helpu i leihau llygredd aer a dal a storio carbon. Bydd cynlluniau plannu yn ceisio adfer nodweddion ecolegol lle bo'n bosibl a chysylltu â chynefinoedd yn yr ardal gyfagos; er enghraifft, drwy adfer gwrychoedd brodorol i fanteisio i'r eithaf arnynt fel coridor ar gyfer bywyd gwyllt. Bydd y dyluniad yn cynnig ardaloedd i ymgysylltu â natur, fel gardd synhwyraidd a rhandiroedd, yn ogystal â bocsys ystlumod ac adar, a chartref i bryfed a draenogod. Bydd y System Draenio Trefol Cynaliadwy hefyd yn gyfle i wella nodweddion mewn pantiau a gerddi glaw.

73. Ochr yn ochr â'r peilot, bwriadwn weithio gyda sefydliadau proffesiynol a sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru i ddatblygu pecyn cymorth ar gyfer monitro, adrodd a gwerthuso pob prosiect peilot. Wrth inni arwain y ffordd o ran datgarboneiddio'r ystâd ysgolion yn y DU, bydd y peilot hefyd yn cynnig cyfleoedd sylweddol mewn ymchwil, swyddi a gweithgynhyrchu, bob un ohonynt yn cyfrannu at adferiad economaidd ac economi sylfaenol i Gymru.

## Cynyddu’r adnoddau sydd eisoes ar gael

74. Er bod Cyllideb ddrafft 2021-22 wedi arwain at fwy o gyllid ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant, bydd camau gweithredu wedi cael eu cymryd ym mhob Prif Grŵp Gwariant i ailddosbarthu neu ail-flaenoriaethu cyllid i reoli pwysau ac i helpu i ariannu meysydd blaenoriaeth. Mewn rhai achosion mae hyn wedi arwain at ostyngiadau mewn cyllidebau ar lefel Llinell Wariant y Gyllideb. Cyflwynir disgrifiad manylach o’r newidiadau hyn ym mhapurau tystiolaeth y Gweinidog, a gyhoeddwyd fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2021-22 sydd ar gael yn:

https://llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2021-2022

# Atodiad D: Gwybodaeth dechnegol

## Cynlluniau Cyllid arloesol

1. Mewn Cyllidebau blaenorol rydym wedi nodi'r ystod o gynlluniau cyllid arloesol sydd wedi'u datblygu.

2. Mae cyllid heb ei neilltuo'n dal i gael ei ddosbarthu trwy'r Grant Cynnal Refeniw, ar gyfer dwy o fentrau benthyca Llywodraeth Leol – ar gyfer priffyrdd ac ysgolion. Mae cyllid hefyd yn parhau i gael ei ddyrannu ar gyfer dau gylch o fuddsoddi gan ddefnyddio'r Grant Cyllid Tai.

3. Yn 2021-22, bydd y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol yn sicrhau buddsoddiad yn asedau'r awdurdodau lleol ar gyfer amddiffyn yr arfordir. Bydd y rhaglen yn gweld buddsoddiad ychwanegol o £150m dros gyfnod o dair blynedd (2019-20; 2020-21 a 2021-22) i reoli risgiau presennol a risgiau'r dyfodol, yn sgil newid yn yr hinsawdd a chodiad i lefel y môr, i gymunedau arfordirol ledled Cymru. Mae 23 o gynlluniau awdurdod lleol yn y rhaglen ar hyn o bryd.

4. Mae cynlluniau cyllid arloesol yn hwb hollbwysig i gyllidebau cyfalaf, gan ei gwneud yn bosibl buddsoddi tua £870m mewn seilwaith yn gynt nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae manylion y goblygiadau cyllid ar gyfer cyfnod y Gyllideb ddrafft hon wedi'u nodi yn y tabl isod.

| **Cynlluniau gweithredol** | **Amcan o'r gwerth cyfalaf (£)** | **Goblygiadau refeniw 2021-22 (£m)** |
|---|---|---|
| MBLIL[60] Gwelliannau i Briffyrdd | 170 | 12 |
| MBLIL Cyflymiad Band A Ysgolion | 170 | 10 |
| Grant Cyllid Tai | 130 | 4 |
| Grant Cyllid Tai 2 | 250 | 9 |
| Rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd | 150 | 7 |
| Cyfanswm | 870 | 42 |

5. Mae tri chynllun yn cael eu datblygu gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol a lansiwyd yn 2017 - cwblhau troi'r A465 yn ffordd ddeuol; datblygu Canolfan Ganser arbenigol newydd Felindre, a chefnogi cymal nesaf (Band B) rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif. Buddsoddir cyllid ychwanegol o fwy na £1bn yn y cynlluniau hyn yng Nghymru, gan sicrhau bod cyfleusterau hollbwysig ar gyfer y cyhoedd ar gael yn gynt nag a fyddai wedi bod yn bosibl drwy gyllidebau cyfalaf.

[60] Menter Benthyca Llywodraeth Leol

6. Ym mis Gorffennaf 2018, prosiect deuoli'r A465 oedd y cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol cyntaf i gael ei dendro i'r farchnad. Ym mis Gorffennaf 2019, aed ati i gaffael Partner Cyflenwi'r Sector Preifat i gefnogi'r rhaglen Addysg.

7. Ym mis Medi 2020, cyrhaeddwyd y cam masnachol ar gyfer y rhaglen Addysg a sefydlwyd Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru  Mae llif o brosiectau bellach yn cael ei ddatblygu a disgwylir i'r prosiect cyntaf ddechrau adeiladu yn ystod 2022.

8. Ym mis Hydref 2020, cyrhaeddwyd y cam ariannol ar gyfer yr A465 gyda'r prif waith adeiladu yn dechrau ym mis Ionawr 2021.  Bydd yr A465 yn agor fesul cam ac yn cael ei chwblhau'n llawn erbyn canol 2025.

9. Mae Canolfan Ganser Felindre wedi cael adolygiad o'r model clinigol yn ddiweddar. Mae ystyriaeth bellach i'r model a'r achos busnes yn parhau, gan ystyried yr amserlen gaffael sy'n dilyn yn y dyfodol agos.

10. Ni ddechreuir talu am y cynlluniau dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol hyd nes y bydd yr asedau ar gael i'r cyhoedd.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

11. Defnyddiwyd trafodiadau ariannol i ariannu cyfranddaliadau'r sector cyhoeddus yn y rhaglen Addysg a chynlluniau MBC yr A465.  Gwerthuswyd y cyfranddaliad hwn a bydd bellach yn cael ei reoli gan Fanc Datblygu Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.  Darparwyd £0.783m i Fanc Datblygu Cymru yn 2020-21 ac £8.7m yn 2020-21 i ariannu gweithgareddau MBC mewn perthynas â'r rhaglen Addysg a rhaglen MBC yr A465 yn y drefn honno.

## Atodiad E: Cynllun Gwella'r Gyllideb

Ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft hon, rydym wedi cyhoeddi diweddariad i'n Cynllun Gwella'r Gyllideb.  Cyhoeddwyd y Cynllun i ddechrau gyda Chyllideb ddrafft 2020-21 ac mae’n nodi ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig gan ddefnyddio nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio i yrru gwelliant parhaus. Mae'r diweddariad hwn yn cyflwyno ein huchelgeisiau treigl 5 mlynedd yn ogystal â chrynodeb o'n cynnydd yn erbyn ymrwymiadau arfaethedig o Gynllun y llynedd yn ystod 2020.

Mae hon wedi’i chyhoeddi fel dogfen ar wahân ac mae i'w gweld yn:

https://llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2021-2022

# Atodiad F: Costau gweithredu deddfwriaeth

## Costau gweithredu deddfwriaeth a ddeddfwyd yn 2021-22

*[Cliciwch ar deitl pob Deddf am wybodaeth gefndirol]*

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Blwyddyn | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau (£) | Costau gwirioneddol (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | |
| **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** [61] | Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach | Gorffennaf 2017 – Mawrth 2022 | 2017-18 | 232,400 | 21,890 | |
| | | | 2018-19 | 816,800 | 516,794 | |
| | | | 2019-20 | 388,400 | 224,832 | |
| | | | 2020-21 | 107,200 | 352,000 | |
| | | | 2021-22 | 325,400 | | 325,400 |
| **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** [62] | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | # Ebrill 2019 | 2016-17 | 2,100,000 | 282,000 | |
| | | | 2017-18 | 1,800,000 | 1,500,000 | |
| | | | 2018-19 | 1,800,000 | 1,500,000 | |
| | | | 2019-20 | 1,800,000 | 1,500,000 | |
| | | | 2020-21 | 1,800,000 | 550,000 | |
| | | | 2021-22 | 550,000 | | 550,000 |

[61] Mae'r costau cyfle a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u dileu o'r ffigurau amcangyfrifedig, sydd bellach yn dangos costau lle disgwylid llif arian yn unig. Diweddarwyd y costau gwirioneddol a'r swm a neilltuwyd ar gyfer 2021-22 yn dilyn ailbroffilio yn ystod y cyfnod gweithredu.

[62] Oherwydd y dull graddol a fabwysiadwyd i'w weithredu, mae costau i'r rheoleiddiwr gwasanaeth wedi'u syfrdanu yn hytrach na'u crynhoi yn y flwyddyn gyntaf fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Blwyddyn | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau (£) | Costau gwirioneddol (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 | Camddefnyddio sylweddau | 2019-20 – 2023-24 | 2019-20 | 250,820 | 250,820 | |
| | | | 2020-21 | 274,000 | 160,000 | |
| | | | 2021-22 | 330,000 | | 100,000 |
| Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 | Gwella Ansawdd Gofal Iechyd | 2020-2022 | 2020-21 | 398,000 | 91,211 | |
| | | | 2021-22 | 2,739,000 | | 2,739,000 |
| Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 | Cymorth i Deuluoedd a Phlant | 2020-21 – 2026-27 | 2020-21 | 600,000 | Disgwyl gwariant llawn | |
| | | | 2021-22 | 800,000 | | 1,000,000 |

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Blwyddyn | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau (£) | Costau gwirioneddol (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai a Llywodraeth Leol** | | | | | | |
| **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**[63] | 1100 Polisi Tai (Tai Annibynnol gynt) | Ionawr 2016 - Ebrill 2021 | 2016-17 | 140,000 | - | |
| | | | 2017-18 | 65,000 | - | |
| | | | 2018-19 | 35,000 | - | |
| | | | 2019-20 | 0 | | |
| | | | 2020-21 | 20,000 | Rhagwelir gwariant lawn | |
| | | | 2021-22 | | | |
| **Addysg** | | | | | | |
| **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**[64] | 5115 (Anghenion Dysgu Ychwanegol) | Medi 2021 – Gorffennaf 2024 | 2016-17 | 27,409 | 27,409 | |
| | | | 2017-18 | 158,000 | 123,461 | |
| | | | 2018-19 | 175,000 | 257,274 | |
| | | | 2019-20 | 353,500 | 16,314 (hyd yma) | |
| | | | 2020-21 | 272,000 | 51,503 (hyd yma) | |
| | | | 2021-22 | - | | 2,536,000 |
| | 5511 (Codi Safonau) | | 2016-17 | - | - | |
| | | | 2017-18 | 270,000 | 270,000 | |
| | | | 2018-19 | 3,200,000 | 3,200,000 | |
| | | | 2019-20 | 3,200,000 | 3,142,783 | |
| | | | 2020-21 | 3,200,000 | 144,136 (hyd yma) | |
| | | | 2021-22 | - | | 3,200,000 |

[63] Oherwydd oedi o ran ei gweithredu, mae'r costau disgwyliedig wedi'u hailbroffilio i'r blynyddoedd presennol a'r blynyddoedd i ddod. Nid yw'r costau a ragwelir yn 2021-22 wedi'u pennu'n llawn eto.
[64] Bydd y cyfnod gweithredu yn para'n hirach nag a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

1. Ar draws ei hystod eang o ddarpariaethau, bydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi mesurau amddiffyn pwysig yn eu lle ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys ymestyn y gofynion di-fwg i rai mannau agored penodol, cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer gweithdrefnau arbennig yn ogystal â gwahardd rhoi twll mewn rhannau personol o gyrff unrhyw un dan 18 oed. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio mynd i'r afael â materion pwysig eraill ym maes iechyd y cyhoedd gan gynnwys gordewdra a chynllunio toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd.

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

2. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn set o ddarpariaethau sy'n darparu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ac wedi'i symleiddio ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r Deddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

- diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
- darparu fframwaith rheoleiddio sy'n galw am ddull gweithredu o ran rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau;
- diwygio'r drefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol;
- ailsefydlu ac ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru ehangu ei gylch gorchwyl;
- diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

### Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

3. Mae'r ddeddf yn fecanwaith ar gyfer gwella a diogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan adeiladu ar yr asedau sydd gennym yng Nghymru i gryfhau a diogelu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn hwyluso llais cryfach gan ddinasyddion, gan wella atebolrwydd gwasanaethau i ddarparu gwell profiad ac ansawdd gofal i bobl yng Nghymru a chyfrannu at wlad iach a ffyniannus. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r darpariaethau fod o fudd cadarnhaol cronnol i boblogaeth Cymru a sefydlu amodau sy'n ffafriol i wella iechyd a lles. Mae'r Deddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

- rhoi ystyriaethau ansawdd wrth wraidd yr holl gyrff GIG yng Nghymru a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd;

- gosod dyletswydd gonestrwydd ar holl gyrff y GIG ar lefel sefydliadol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan aiff pethau o chwith. Mewn perthynas â dyletswydd cannwyll diffinnir cyrff y GIG fel byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'i swyddogaethau Cymreig) a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru mewn perthynas â'r gwasanaethau GIG y maent yn eu darparu;
- cryfhau llais dinasyddion ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gysylltu pobl ymhellach â'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iddynt;
- cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG.

### Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

4. Diben y Ddeddf yw diddymu amddiffyniad y gyfraith gyffredin o gosb resymol fel nad yw bellach ar gael yng Nghymru i rieni na'r rhai sy'n gweithredu mewn loco parentis fel amddiffyniad i ymosod neu batri yn erbyn plentyn. Bwriad y ddeddf yw cefnogi hawliau plant drwy wahardd defnyddio cosb gorfforol, drwy ddileu'r amddiffyniad hwn. Effaith fwriadedig y Ddeddf, ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw sicrhau gostyngiad pellach yn y defnydd a'r goddefgarwch o gosbi plant yng Nghymru yn gorfforol.

## Tai a Llywodraeth Leol

### Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

5. Yr hyn sydd wrth wraidd y Ddeddf yw'r 'contractau meddiannaeth' newydd'. Heblaw ychydig o eithriadau cyfyngedig, mae'r Ddeddf yn cyflwyno dau fath o gontract meddiannaeth yn lle'r holl denantiaethau a thrwyddedau presennol:

   - contract diogel – sy'n seiliedig ar y denantiaeth ddiogel a roddir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd; a
   - contract safonol – sy'n seiliedig ar y denantiaeth fyrddaliol sicr a ddefnyddir yn y sector rhentu preifat yn bennaf.

6. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid roi datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth sy'n amlinellu yn eglur hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid a'r rheini sy'n rhentu oddi wrthynt. Bydd isafswm cyfnod meddiannaeth o chwe mis yn cael ei gynnal gan y Ddeddf a bydd rhaid i landlordiaid sicrhau bod yr eiddo'n addas i bobl fyw ynddo. Mae'r Ddeddf hefyd yn helpu i amddiffyn pobl rhag cael eu troi allan ddim ond am eu bod wedi cwyno am gyflwr eiddo.

7. Bydd pobl sy'n eu cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd hefyd yn cael budd o'r Ddeddf. Bydd yn helpu i atal sefyllfaoedd cyfredol o ddigartrefedd lle bydd cyd-denant yn ymadael â'r denantiaeth, gan derfynu'r denantiaeth i bawb arall. Bydd y dull newydd o ran contractau ar y cyd hefyd yn helpu dioddefwyr cam-drin domestig drwy alluogi'r unigolyn sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig i gael ei dargedu ar gyfer ei droi allan.

## Addysg

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

8. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli’r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig cyfredol gyda system ddiwygiedig ar sail Anghenion Dysgu Ychwanegol.

9. Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol cyffredinol, statudol ar gyfer yr holl blant a’r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd hyn yn rhoi diwedd ar y gwahaniaeth presennol rhwng ymyriadau sy’n cael eu harwain gan yr ysgol a datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ac fe fydd yn integreiddio’r trefniadau deddfwriaethol ar wahân sy’n bodoli ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr ôl-16 mewn colegau. Mae’r Ddeddf hefyd yn gobeithio gwella cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â sefydlu system decach a mwy tryloyw gyda mwy o bwyslais ar osgoi anghytundeb a datrys anghydfodau.

## Atodiad G: Rhestr o dermau ariannol

| | |
|---|---|
| ***Cam Gweithredu*** | *O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.* |
| ***Cwmpasoedd*** | *Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Senedd Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant.* |
| ***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*** | *Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac adroddiad rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.* |
| ***Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)*** | *O fewn pob Cam Gweithredu caiff cyllidebau eu dyrannu i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn BEL. Mae tablau sy'n dangos y cyllidebau ar lefel BEL ar gael yn: http://gov.wales/funding/budget/?lang=cy* |
| ***Fformiwla Barnett*** | *Y fformiwla a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc a ddyrennnir i Lywodraeth Cymru (ac i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr un newidiadau i gyllid y pen o'r boblogaeth a'r hyn a gyhoeddir yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2016, caiff ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei gymhwyso i ddyraniadau fformiwla Barnett i Gymru. Ar hyn o bryd mae hwn wedi'i osod ar bump y cant yn ychwanegol.* |
| ***Cynnig y Gyllideb*** | *Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.* |
| ***Cyfalaf*** | *Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol.* |

| | |
|---|---|
| ***Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)*** | *Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.* |
| ***Dibrisiant*** | *Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.* |
| ***Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru*** | *Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.* |
| ***Cyfalaf Trafodiadau Ariannol*** | *Mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon y gellir eu defnyddio. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys Ei Mawrhydi.* |
| ***DEL Adnoddau Ariannol** (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Ariannol sy'n dangos y rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Caiff y gwariant ei gofnodi ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.* |
| ***Prif Grŵp Gwariant (MEG)*** | *Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir saith o Brif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Tai a Llywodraeth Leol; yr Economi a Thrafnidiaeth; Addysg; Ynni, yr Amgylchedd a Materion Gwledig; Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.* |
| ***DEL Adnoddau Anghyllidol** (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sy'n dangos gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas ag amhariad benthyciadau myfyrwyr a dibrisiant. Mae'r DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.* |
| ***Derbyniadau*** | *Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.* |

| | |
|---|---|
| **Cyllidebu adnoddau** | *Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.* |
| **Adnoddau** *(arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw'* | *Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.* |
| **Adolygiad o Wariant** | *Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys ei Mawrhydi yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett. Dyma'r dull a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.* |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | *Cyfanswm rheoli gan Drysorlys EM yw hwn ac mae'n cynnwys y Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.* |
| **Cronfa Wrth Gefn Cymru** | *Mae Cronfa wrth Gefn Cymru ar waith ers mis Ebrill 2018 fel arf newydd sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gronfa i gynilo'r refeniw a fydd yn weddill o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannnol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa gadw hyd gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa* |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | *Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.* |
| **CNLIC** | *Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.* |